Cyngor Gwynedd

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol

Drafft Adroddiad Cwmpasu



Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd (2024 – 2039)

gwynedd.llyw.cymru

Tachwedd 2026

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol

Adroddiad Cwmpasu

Cyngor Gwynedd

Awst 2026

Delivering a better world

Gwybodaeth ansawdd

Paratowyd gan	Gwiriwyd gan	Dilyswyd gan	Cymeradwywyd gan
B.R. Cynllunydd Amgylcheddol Graddedig	CB: Cyfarwyddwr Cyswllt	NCB: Cyfarwyddwr Technegol	NCB: Cyfarwyddwr Technegol
EB Cynllunydd Amgylcheddol			

Hanes Adolygu

Adolygiad	Dyddiad adolygu	Manylion	Enw	Swydd
F0.1	Awst 2026	Drafft ar gyfer adolygiad mewnol	EB	Cynllunydd Amgylcheddol
F1.0	Awst 2026	Drafft ar gyfer adolygiad cleient	CB	Cyfarwyddwr Cyswllt
F1.1	Hydref 2026	Drafft ar gyfer adolygiad mewnol	EB	Cynllunydd Amgylcheddol
F2.0	16 Hydref 2026	Drafft terfynol ar gyfer cyfieithu ac ymgynghori	CB	Cyfarwyddwr Cyswllt

Paratowyd ar gyfer:

Cyngor Gwynedd

Paratowyd gan:

AECOM Limited
3 Rivergate
Temple Quay
Bryste BS1 6ER

Rhif ffôn: +44 (0)117 901 7000
aecom.com

© 2026 AECOM Infrastructure & Environment UK Limited. Cedwir Pob Hawl.

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi gan AECOM Limited ("AECOM") yn unol â'i gytundeb â Chyngor Gwynedd ac yn unol ag egwyddorion ymgynghoriaeth sydd wedi'u derbyn yn gyffredinol a'r gyllideb a sefydlwyd. Nid yw AECOM wedi gwirio na dilysu unrhyw wybodaeth a roddwyd gan drydydd partïon ac y cyfeirir ati yma, oni bai y nodir yn benodol fel arall yn y ddogfen. Nid oes gan AECOM unrhyw atebolrwydd i unrhyw drydydd parti sy'n defnyddio neu'n dibynnu ar y ddogfen hon.

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad 1
2. Hygyrchedd 9
3. Ansawdd aer a sŵn 20
4. Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth 27
5. Addasu newid hinsawdd 39
6. Lliniaru newid hinsawdd 47
7. Cymunedau 53
8. Economi a chyflogaeth 64
9. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad 79
10. Iechyd a Llesiant 88
11. Yr amgylchedd hanesyddol 97
12. Tai 105
13. Tirwedd 112
14. Ansawdd ac adnoddau pridd 135
15. Trafnidiaeth a symudiad 143
16. Adnoddau ac ansawdd dŵr 152
17. Camau nesaf 160

Atodiad A 161

Atodiad B Cyd-destun polisi 163

1. Cyflwyniad

1.1 Cyd-destun

1.1.1 Comisiynwyd AECOM i arwain ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Cyngor Gwynedd. Mae'r ACI ar gyfer y CDLl yn cyflawni'r gofynion a'r dyletswyddau ar gyfer Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC), Asesiad Effaith Iechyd (AEI) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLICD). Mae hefyd yn ystyried Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026.

1.1.2 Mae'r ACI ar gyfer y CDLl hwn hefyd yn cael ei lywio gan Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG) sy'n deillio o'r gofynion a'r dyletswyddau dan safonau llunio polisi Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

1.1.3 Mae ACI yn fecanwaith i ystyried a chyfathrebu effeithiau tebygol unrhyw gynllun arfaethedig, a dewisiadau amgen o ran materion cynaliadwyedd allweddol. Nod ACI yw hysbysu a dylanwadu'r broses llunio cynllun gyda'r bwriad o osgoi a lliniaru effeithiau negyddol a gwneud y mwyaf o effeithiau cadarnhaol. Drwy'r dull hwn, mae CDLl yr ACI yn ceisio gwneud y mwyaf o gyfraniad y cynllun datblygol i ddatblygiad cynaliadwy.

1.2 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd

1.2.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026 ar 31 Gorffennaf 2017.1 Mae'r CDLl ar y Cyd yn ffurfio'r fframwaith datblygu ar gyfer ardaloedd Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd ac Ynys Môn ac mae'n sail i benderfyniadau a wneir ar gynllunio defnydd tir yn yr ardal, o'r dyddiad hwnnw hyd nes y bydd yn cael ei ddisodli. Mae'n eithrio Parc Cenedlaethol Eryri, sydd â'i Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig ei hun.2 Yn unol â gofynion statudol, mae'r CDLl ar y Cyd wedi cael ei fonitro yn flynyddol gyda saith Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) wedi'u cyhoeddi hyd yma.

1.2.2 Er mwyn sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn parhau'n gyfredol, mae Adran 69 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 20043 yn gofyn i Awdurdod Cynllunio Lleol adolygu'r CDLl yn llawn o leiaf unwaith bob pedair blynedd ar ôl mabwysiadu cynllun. Yn unol â hynny, ym mis Gorffennaf 2021, aeth Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn ati i ddechrau adolygu'r CDLl ar y Cyd mabwysiedig yn ffurfiol, gyda'r Adroddiad Adolygiad drafft ar gael ar gyfer ymgynghori rhwng 5 Tachwedd 2021 a 20 Rhagfyr 2021.4 Roedd yr Adroddiad Adolygiad yn ystyried effeithiolrwydd y CDLl mabwysiedig ac yn argymell adolygu'r CDLl ar y Cyd yn llawn.

1.2.3 Yn dilyn penderfyniad rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i roi'r gorau i'r cytundeb cydweithio ar faterion Polisi Cynllunio ar 31 Mawrth 2023,

[1]Gellir cael mynediad i Gyngor Gwynedd (2017): 'Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd' yma.
[2]Gellir cael mynediad i Barc Cenedlaethol Eryri (2019): 'Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031' yma.
[3]Gellir cael mynediad i Lywodraeth y DU (2004): 'Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004' yma.
[4]Gellir cael mynediad i Gyngor Gwynedd (2021): 'Adroddiad Adolygiad Drafft Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026' yma.

sefydlwyd Gwasanaeth Polisi Cynllunio Gwynedd.[5] Dechreuodd gwaith yn ffurfiol ar y CDLl arfaethedig ar gyfer Gwynedd ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni CDLl, sy'n cynnwys yr amserlen a Chynllun Cynnwys Cymunedau. Bydd y CDLl yn nodi amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir o fewn yr ardal Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer y cyfnod rhwng 2024 a 2039. Gweler yr ardal sy'n cael ei chynnwys yn y CDLl yn Ffigwr 1.1.

Ffigwr 1-1: Ardal weinyddol Cyngor Gwynedd

[5]Gellir cael mynediad i Gyngor Gwynedd (dim dyddiad): 'Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd (y Cynllun Newydd)' yma.



Ffigwr 1-1: Ardal weinyddol Cyngor Gwynedd

1.3 Egluro'r ACI

1.3.1 Fel y nodwyd uchod, bwriad yr ACI yw cyflawni'r gofynion a'r dyletswyddau ar gyfer AC, AAS, AEC, AEI a DLICD, ac ymgorffori canfyddiadau'r AEIG. Gwneir hyn drwy integreiddio'r cydrannau hyn yn llawn i ddarparu proses asesu unigol i lywio datblygiad y CDLI. Darperir disgrifiad o bob cydran amrywiol a'u dibenion isod.

Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)

1.3.2 Cynhelir AC i ymdrin â'r gweithdrefnau a nodwyd gan Reoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Rheoliadau AAS).6 Mae AC yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol dan Adran 39 (2) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

1.3.3 Yn unol â gofynion Cyfarwyddeb AAS, mae'r ddau gam allweddol mewn AC fel a ganlyn:

- Wrth benderfynu ar 'gwmpas a lefel manylion yr wybodaeth' y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr adroddiad AC, mae ymgynghoriad gydag awdurdodau dynodedig cenedlaethol sy'n ymwneud â materion amgylcheddol; ac

- Mae adroddiad (yr 'Adroddiad AC') yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriaeth ynghyd â'r Cynllun Drafft sy'n cyflwyno asesiad o'r Cynllun Drafft (h.y., yn trafod 'effeithiau sylweddol tebygol' a fyddai'n deillio o weithredu'r cynllun) a dewisiadau amgen rhesymol.

1.3.4 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Rhifyn 3 (2020)7 yn nodi bod AC, wrth ymgorffori AAS, yn chwarae rhan bwysig wrth ddangos bod y CDLl yn gadarn, drwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy ac y dylai fod yn elfen greiddiol ar bob cam o lunio cynllun.

Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC)

1.3.5 Fel sefydliad sector cyhoeddus, mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 20108 a Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (DCSC) i sicrhau bod yr amcanion a'r opsiynau polisi o fewn y CDLl yn osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol ac anuniongyrchol), ynghyd â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt.

1.3.6 Ym mis Mawrth 2021, dechreuodd Deddf Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol, sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Cydraddoldeb a DCSC drwy gyfrannu ymhellach tuag at nodau llesiant hir-dymor Cymraeg, yn benodol "Cymru sy'n fwy cyfartal" a "Chymru o gymunedau cydlynus". Mae hyn yn cryfhau trefniadau partneriaeth gymdeithasol ymhellach ac yn datblygu uchelgeisiau gwaith.9

[6]Gellir cael mynediad i Lywodraeth y DU (2004): 'Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004' yma.
[7]Gellir cael mynediad i Lywodraeth Cymru (2020): 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3)' yma.
[8]Gellir cael mynediad i Lywodraeth y DU (2010): 'Deddf Cydraddoldeb 2010' yma.
[9]Gellir cael mynediad i Lywodraeth Cymru (2020): 'Cymru sy'n fwy cyfartal: papur gwyn cryfhau partneriaeth gymdeithasol' yma.

1.3.7 Defnyddir Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) yn aml gan sefydliadau sector cyhoeddus i ddangos sut y maent wedi cwrdd â'r ddyletswydd hon.

Asesiad Effaith Iechyd (AEI)

1.3.8 Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 201710 yn gofyn am gynnal Asesiad Effaith Iechyd (AEI) i asesu effaith debygol y cynllun datblygu arfaethedig ar iechyd a lles meddyliol ac anghydraddoldeb. Mae'r broses AEI yn darparu fframwaith systematig ond hyblyg ac ymarferol y gellir ei ddefnyddio i ystyried effeithiau ehangach polisïau'r CDLl a sut y gallant effeithio ar iechyd pobl.

1.3.9 Nodir y cafodd Rheoliad Asesiad Effaith Iechyd (Cymru) 2025 ei basio yn y Senedd ar 18 Tachwedd 2025 a bydd yn dod i rym ar 6 Ebrill 2027. Maent yn gofyn i gyrff cyhoeddus penodol yng Nghymru gynnal asesiad effaith iechyd wrth gynnig gwneud penderfyniad o natur strategol am y ffordd y maent yn arfer eu swyddogaeth ac mae'n ddeddfwriaeth eilaidd dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Maent yn cefnogi dull "iechyd ym mhob polisi" ar draws y sector cyhoeddus.

Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG)

1.3.10 Tra bo gofyn deddfwriaethol (adran 62(6A) y dylai'r AC gynnwys arfarniad o'r effeithiau tebygol ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yn ardal yr awdurdod, mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynghori nad yw'r gofynion yn cael gwared ar yr angen i baratoi AEIG ar wahân i gydymffurfio â safonau'r iaith Gymraeg. Mae AEIG yn cael ei baratoi ar wahân a bydd yn llywio'r ACI.

1.3.11 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud darpariaeth ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg, gan gynnwys safonau polisi sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Bwriad 'safon llunio polisi' yw sicrhau neu gyfrannu at sicrhau un deilliant neu fwy sy'n cynnwys pa effaith, os oes un o gwbl, y byddai penderfyniad polisi yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Mae methodolegau AEIG mewn defnydd cyffredinol gan awdurdodau cynllunio ar gyfer cynlluniau datblygu yn tueddu i ddilyn yr asesiad a'r prosesau ar gyfer AC a ategwyd mewn ardaloedd sy'n fwy sensitif yn ieithyddol gan ymarfer a theori asesu risg meintiol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.3.12 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru, gan adlewyrchu'r diffiniad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 201511 (DLICD):

> *"Golyga datblygu cynaliadwy y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sydd â'r nod o gyflawni'r nodau llesiant".*

1.3.13 Mae'r DLICD yn gosod saith nod llesiant y mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus eu cyflawni:

- Cymru lewyrchus

[10]Gellir cael mynediad i Lywodraeth y DU (2017): 'Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017' yma.
[11]Gellir cael mynediad i Lywodraeth y DU (2015): 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' yma.

- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy’n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang

1.3.14 Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi pum ffordd o weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi'u cyflawni wrth ymgymryd â'u dyletswydd i gyflawni datblygu cynaliadwy. Y rhain yw: cyfranogiad, cydweithio, integreiddiad, ataliaeth a ffactorau hirdymor. Gellir defnyddio'r nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio i lywio a strwythuro'r fframwaith ACI.

Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026

1.3.15 Mae'r Ddeddf ddiweddar yn diffinio 'egwyddorion amgylcheddol' statudol y mae'n rhaid eu hystyried wrth gyflawni swyddogaethau mewn cyswllt ag asesu cynlluniau a rhaglenni. Y bedair egwyddor yw:

- Yr egwyddor ragofalus i'r graddau y mae'n ymwneud â'r amgylchedd
- Yr egwyddor y dylid cymryd camau ataliol i osgoi difrod amgylcheddol
- Yr egwyddor y dylai difrod amgylcheddol fel blaenoriaeth gael ei gywiro yn ei darddiad
- Yr egwyddor mai’r llygrwr sy'n talu

1.3.16 Mae'r ACI yn adnabod bod yr egwyddorion hyn wedi'u hymgorffori fel rhan o ddull arfer orau. Rhoddir ystyriaeth ddyledus i weithrediadau ataliol (cyfeiriadau polisi yn bennaf) a gynigiwyd gan y Cynllun Lleol neu sy'n cael eu gweithredu drwy gynlluniau a pholisïau eraill. Mae hefyd yn ceisio adnabod lle y gallai derbynyddion sensitif gael eu heffeithio gan gynigion y cynllun (e.e., mewn dyraniadau safle penodol a wnaed yn y cynllun), lle mae dewisiadau amgen yn bodoli, ac unrhyw fesurau a ragwelwyd fel rhai sy’n debygol o liniaru effeithiau'r datblygiad. Ystyriwyd mesurau lliniaru o safbwynt dull 'yr amgylchedd yn gyntaf' yr ACI, yn rhydd rhag (pan fo'n rhesymol gwneud hynny) cyfyngiadau megis ystyriaethau hyfywedd (sy'n dod yn ystyriaeth i'r Cyngor), gyda'r bwriad o ddangos graddfa lawn y mesurau ataliol y dylid eu cymryd neu weithrediadau cadarnhaol y gellir eu cwblhau.

1.4 Dull cwmpasu ar gyfer yr ACI

1.4.1 Mae datblygu'r adroddiad cwmpasu wedi cynnwys y camau canlynol:

- Archwilio'r cyd-destun polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer yr ACI, h.y., adolygu negeseuon lefel uchel (e.e., gan asiantaethau ac adrannau'r llywodraeth yn benodol) gyda bwriad o gael dealltwriaeth o'r hyn y mae angen i'r ACI ganolbwyntio arno yn fras. Ystyrir bod dogfennau polisi cenedlaethol yn ymwneud â'r cyd-destun polisi lefel uwch (byd-eang) yn ddigonol.
- Sefydlu'r gwaelodlin ar gyfer yr ACI, h.y., y sefyllfa gyfredol a phellach yn yr ardal yn absenoldeb y CDLl, i helpu gydag adnabod effeithiau sylweddol tebygol y cynllun.

- Adnabod problemau neu gyfleoedd penodol ('materion') y dylai fod yn ffocws penodol o'r ACI; a
- Datblygu fframwaith ACI sy'n cynnwys amcanion a chwestiynau asesu sy'n seiliedig ar y materion hyn y gellir eu defnyddio i asesu'r CDLI ac ystyried dewisiadau amgen.

1.5 Strwythur yr adroddiad hwn

1.5.1 Mae deilliannau'r elfennau cwmpasu a gyflwynwyd uchod wedi cael eu cynrychioli dan gyfres o themâu ACI, fel a ganlyn:

- Hygyrchedd.
- Ansawdd aer.
- Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.
- Addasu newid hinsawdd.
- Lliniaru newid hinsawdd.
- Cymunedau.
- Economi a chyflogaeth.
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad.
- Iechyd a llesiant.
- Yr Amgylchedd Hanesyddol.
- Tai.
- Tirwedd.
- Ansawdd ac adnoddau pridd.
- Trafnidiaeth a symudiad.
- Adnoddau ac ansawdd dŵr.

1.5.2 Mae'r themâu ACI y dewiswyd yn ymgorffori'r 'pynciau AAS' a awgrymwyd gan Atodlen 2 Rheoliadau AAS[12] ynghyd ag integreiddio AEC a AEI yn llawn, ac adlewyrchu'r saith nod llesiant a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

1.5.3 Bwriedir cyflwyno'r wybodaeth gwmpasu dan y themâu hyn helpu galluogi'r darllenydd i leoli'r wybodaeth sydd o ddiddordeb mwyaf iddyn nhw yn hawdd. Ar ôl cytuno (h.y., ar ôl yr ymgynghoriad cyfredol), bydd y cwmpas awgrymedig a gyflwynwyd dan y 15 thema yn darparu 'fframwaith' methodolegol ar gyfer asesu'r CDLI newydd drafft a'r dewisiadau amgen. Cyflwynwyd y drafodaeth o wybodaeth gwmpasu dan bob thema ACI ym **Mhennod 2 i 16. Yna, mae'r amcanion ar gyfer pob thema yn cael eu rhoi at ei gilydd mewn un tabl 'y fframwaith ACI' yn Atodiad A.**

[12]Mae'r Rheoliadau AAS 'o natur weithdrefnol' (paragraff 9 o'r rhagair Cyfarwyddeb) ac nid ydynt yn ceisio nodi materion penodol y dylid neu na ddylid fod yn ffocws, y tu hwnt i ofyn am ganolbwyntio ar *'yr amgylchedd, **gan gynnwys materion megis** bioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd dynol, ffawna, fflora, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsoddol, asedau deunyddiau, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol, tirwedd a'r rhyng-berthynas rhwng y ffactorau uchod'* [ein pwyslais].

2. Hygyrchedd

2.1 Cyflwyniad i'r thema

2.1.1 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar adnabod lleoliadau hygyrch yn ardal y CDLl gyda chysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy, gwasanaethau hanfodol a seilwaith cynhwysol.

2.2 Cyd-destun polisi

2.1.2 Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhyngwladol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r thema hon yn 0. Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhanbarthol a lleol sydd wedi llywio'r sail dystiolaeth wedi'u cynnwys yn Nhabl 2-1.

Tabl 2-1: Cynlluniau, polisïau a strategaethau wedi'u hadolygu mewn perthynas â hygyrchedd

Teitl y ddogfen	Blwyddyn cyhoeddi
Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru	2022
Canllawiau Cynllunio Atodol Ynys Môn a Gwynedd Llecynnau Agored mewn Datblygiadau Preswyl Newydd	2019
Canllawiau Cynllunio Atodol Ynys Môn a Gwynedd Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy	2019
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd	2017
Papur Testun 14 Ynys Môn a Gwynedd: Asesiad Llecynnau Agored	2015
Papur Testun 13 Ynys Môn a Gwynedd: Isadeiledd Cymunedol	2015

2.3 Crynodeb o'r waelodlin

Cyfleusterau a gwasanaethau

2.3.1 Mae Gwynedd yng ngogledd orllewin Cymru. Mae'n cynnwys canolfan isranbarthol Bangor, canolfannau gwasanaeth trefol Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli a Blaenau Ffestiniog a sawl canolfan llai - gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Abersoch a Thywyn. Mae Gwynedd yn gymysgedd o amgylcheddau gwledig, arfordirol a threfol. Gall y cymysgedd hwn arwain at broblemau gyda chael mynediad at wasanaethau - llawer o hyn yn gysylltiedig ag amser teithio uchel at wasanaethau allweddol, a chysylltiad gwael at y rhyngrwyd.

2.3.2 Yn ôl y Papur Cefndir Isadeiledd Cymunedol, o fewn Gwynedd mae:[13]

- 97 ysgol gynradd.
- 14 ysgol uwchradd.
- Dwy ysgol anghenion arbennig.
- 43 practis Meddygon Teulu.
- 21 practis deintyddol (gan gynnwys preifat).
- 29 fferyllfa.
- 21 optegydd.

2.3.3 Mae gan Wynedd un ysbyty - Ysbyty Gwynedd ym Mangor, sy'n gwasanaethu'r is-ranbarth. Mae hefyd rhwydwaith o bedair ysbyty cymunedol o fewn Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd a sawl ysbyty lleol y tu allan i Wynedd sy'n gwasanaethu'r gymuned.

2.3.4 Mae Gwynedd yn cynnig mynediad at ystod o gyfleusterau addysgiadol, gan adlewyrchu natur amrywiol yr awdurdod. Mae cyfanswm o 7,223 o ddisgyblion wedi'u cofrestru mewn ysgolion uwchradd yng Ngwynedd ac 8,815 pellach sy'n mynychu ysgolion cynradd.[14]

2.3.5 Dangosir lleoliad yr ysgolion yr ardal Awdurdod Cynllunio Lleol yn Ffigwr 2.1. Dosberthir ysgolion cynradd drwy ardal y cynllun, gyda'r crynodiadau mwyaf yn canolbwyntio ar ganolfannau trefol. Mae ysgolion uwchradd wedi'u lleoli yn bennaf mewn trefi mawr. Mae gan drigolion Gwynedd fynediad rhesymol i ysgolion mewn ardaloedd awdurdod lleol cyfagos, gyda nifer o ysgolion yn Ynys Môn a sawl wedi'u lleoli ar hyd yr arfordir gogleddol yng Nghonwy, wedi'u lleoli o fewn 30 munud i ffwrdd o Fangor.

2.3.6 Yn benodol o fewn Gwynedd, mae darpariaeth ysgol yn cynnwys:

- 62 ysgol Feithrin, Babanod ac Iau.
- 1 ysgol Feithrin a Babanod.
- 1 ysgol iau.
- 1 ysgol Babanod ac Iau.
- 6 ysgol uwchradd (11-19 oed).
- 5 ysgol uwchradd (11-16 oed).
- 2 ysgol arbennig (gyda darpariaeth ôl-16).

2.3.7 O ran addysg bellach, mae Prifysgol Bangor wedi'i lleoli o fewn ardal y cynllun. Sefydlwyd y brifysgol ym 1884 ac mae ganddi dros 10,000 o fyfyrwyr ar draws tri choleg academaidd ac 11 ysgol. Lleolir Prifysgol Aberystwyth hefyd yn Sir Ceredigion gyfagos i'r de. Mae hefyd pedwar coleg addysg bellach wedi'u lleoli o fewn Gwynedd.

2.3.8 O ran cyfleusterau cymunedol, mae Cyngor Gwynedd yn berchen ar 14 hwb cymunedol, sy'n helpu trigolion i gael mynediad at gefnogaeth, gwybodaeth,

[13]Gellir cael mynediad i Gyngor Gwynedd (2015): 'Papur Cefndir 13: Isadeiledd Cymunedol' yma.
[14]Gellir cael mynediad i Gyngor Gwynedd (2025) 'poblogaeth ysgolion Gwynedd' yma.

gweithgareddau a gwasanaethau yn eu cymuned. Mae hefyd sawl cyfleuster arall yng Ngwynedd, sy'n disgyn i'r categorïau canlynol:

- Arfordir a chefn gwlad.
- Llyfrgelloedd.
- Parciau a Gerddi.
- Y Celfyddydau a Diwylliant.
- Chwaraeon a Chwarae.

2.3.9 Mae'r cyfleusterau cymunedol yn ardal y CDLI wedi'u cyflwyno yn Ffigwr 2.2, ac mae'r mapiau mewnosod canlynol yn rhoi manylion ychwanegol.

Mynediad i wasanaethau a thai

2.3.10 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2008) (MALIC) yw mesur swyddogol amddifadedd mewn ardaloedd bychain mewn wyth maes gwahanol15. Mae mynediad i faes gwasanaethau yn arbennig o berthnasol i'r thema Hygyrchedd, sy'n ymdrin ag amddifadedd sy'n gysylltiedig i anallu aelwyd i gael mynediad at ystod o wasanaethau yr ystyrir i fod yn angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n ffisegol ac ar-lein / digidol. Mae'r maes hefyd yn canolbwyntio ar dai, sy'n nodi tai annigonol o ran amodau byw ffisegol ac argaeledd.

2.3.11 Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) yn unedau daearyddol safonol sydd â'r bwriad o wella adrodd ystadegau ardal fechan ar gyfer Lloegr a Chymru. Mae pob ACEHI fel arfer yn cynnwys 1,600 person. O fewn y cyd-destun hwn, mae 71 ACEHIau yng Ngwynedd. Mewn perthynas â'r MALIC2025, mae ACEHIau wedi'u rhestru o 1,917 ACEHIau yng Nghymru, gyda safle 1 yn dangos yr ardal mwyaf difreintiedig.

2.3.12 Mae **Ffigwr 2.2** yn dangos safle ACEHIau Gwynedd ar gyfer mynediad i'r maes gwasanaethau, tra bo **Tabl 2-2** yn rhoi mwy o fanylion ar y ACEHIau o fewn Gwynedd sy'n eistedd o fewn 50% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

2.3.13 Mae dadansoddiad o'r data yn nodi rhwystrau sylweddol i wasanaethau o fewn ardal y cynllun. O ran ACEHIau, mae ychydig dros 71% o ACEHIau Gwynedd wedi'u rhestru o fewn 50% o'r ACEHI mwyaf difreintiedig o fewn Cymru ac mae 46% o fewn 20% o'r ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae lefelau uwch o amddifadedd yn bodoli mewn ardaloedd gwledig, gyda lefelau is mewn ardaloedd mwy trefol. Mae'r lefelau uchel o amddifadedd a welwyd mewn ardaloedd gwledig yn awgrymu bod trigolion yn yr ardaloedd hyn yn cael trafferth gyda mynediad ffisegol ac ar-lein at wasanaethau.

[15]Gellir cael mynediad i Lywodraeth Cymru (2025): 'Adroddiad technegol 2025 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALLC)' yma.

Tabl 2-2: ACEH yng Ngwynedd wedi'u Rhestru o fewn 50% o'r Ardaloedd Mwyaf Difreintiedig neu Waethaf ar gyfer Mynediad at Wasanaethau Maes MALIC

Degradd	Mynegeion Mwyaf Difreintiedig
50% Mwyaf Difreintiedig	5
40% Mwyaf Difreintiedig	6
30% Mwyaf Difreintiedig	7
20% Mwyaf Difreintiedig	12
10% Mwyaf Difreintiedig	21
Cyfanswm	51

2.3.14 Mae **Ffigwr 2.12** yn dangos safle ACEHIau Gwynedd ar gyfer y maes tai, tra bo **Tabl 2-3** isod yn darparu mwy o fanylion ar y ACEHIau o fewn Gwynedd sy'n eistedd o fewn 50% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

2.3.15 Mae dadansoddiad o'r data yn nodi amddifadedd tai sylweddol o fewn ardal y cynllun. O ran ACEHI, mae ychydig dros 83% o ACEHIau Gwynedd wedi'u rhestru o fewn 50% o'r ACEHIau mwyaf difreintiedig o fewn Cymru ac mae 65% o fewn 20% o'r ACEHIau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae lefelau uwch o amddifadedd yn bodoli mewn ardaloedd gwledig, gyda lefelau is mewn ardaloedd mwy trefol. Mae'r lefelau uchel o amddifadedd a welwyd mewn ardaloedd gwledig yn awgrymu bod trigolion yn yr ardaloedd hyn yn cael trafferth gyda thai annigonol o ran amodau byw ffisegol ac argaeledd.

2.3.16 Wrth i Wynedd barhau i dyfu, rhagwelir y bydd sicrhau y gall trigolion gael mynediad at wasanaethau hanfodol megis tai, gofal iechyd, addysg a manwerthu yn hawdd yn parhau yn flaenoriaeth. Tra bo ardaloedd trefol Gwynedd yn gyffredinol yn profi llai o broblemau hygyrchedd, mae lefelau uwch o amddifadedd mewn ACEHIau penodol yn amlygu heriau mewn cyrraedd gwasanaethau, yn benodol mewn ardaloedd mwy gwledig. Bydd ymdrin â'r gwahaniaethau hyn drwy welliannau wedi'u targedu mewn cwmpas trafnidiaeth gyhoeddus, argaeledd tai, hygyrchedd digidol a darpariaeth gwasanaeth lleol yn helpu i leihau rhwystrau a gwella mynediad cyffredinol i wasanaethau a thai ar draws yr ardal.

Tabl 2-3: ACEHIau yng Ngwynedd wedi'u Rhestru o fewn 50% o'r Ardaloedd Mwyaf Difreintiedig neu Waethaf ar gyfer Maes MALIC Tai

Degradd	Mynegeion Mwyaf Difreintiedig
50% Mwyaf Difreintiedig	1
40% Mwyaf Difreintiedig	2
30% Mwyaf Difreintiedig	10
20% Mwyaf Difreintiedig	19

Degradd	Mynegeion Mwyaf Difreintiedig
10% Mwyaf Difreintiedig	27
Cyfanswm	59

Trafnidiaeth a chysylltedd

2.3.17 Mae ardal y CDLl yn elwa o gysylltiadau trafnidiaeth aml-ddull gan gynnwys cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd â chanolfannau poblogaeth mawr. Er nad oes traffordd sy'n gwasanaethu rhanbarth gogledd Cymru, mae'r A55 a rheilffordd arfordirol gogledd Cymru yn cysylltu Gwynedd â rhanbarth ehangach gogledd Cymru a thu hwnt. Mae strategaeth deithio leol Gwynedd yn gweithredu dan Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2025-2030, a reolir yn rhanbarthol drwy Uchelgais Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd. Nodir bod y CDLl ar y Cyd cyfredol yn cefnogi unrhyw ddatblygiad sy'n uchafu hygyrchedd, ond yn benodol drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

2.3.18 Am ragor o fanylion ar seilwaith trafnidiaeth yng Ngwynedd, gweler **Pennod 15**.

Band eang

2.3.19 Mae cysylltedd digidol wedi dod yn gynyddol bwysig yn ardal y CDLl, yn benodol ar ôl pandemig Covid-19, lle symudodd llawer o wasanaethau ar-lein. Mae mynediad dibynnol at y rhyngrwyd yn hanfodol ar gyfer cefnogi cynhwysiant cymdeithasol, gweithio o bell, addysg a hyfywedd busnesau lleol.

2.3.20 Yn seiliedig ar ddata diweddaraf Cenhedloedd Cysylltiedig Ofcom (2025), mae band eang ffibr llawn ar gael i 62% o bob eiddo yng Ngwynedd16. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan (76.2%). Er bod argaeledd ffibr llawn is o gymharu â Chymru gyfan, dim ond 0.8% o'r holl eiddo sy'n disgyn dan Rwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn y DU o gyflymder lawrlwytho o leiaf 10Mbps a chyflymder uwchlwytho o leiaf 1Mbps yng Ngwynedd. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan (2%)17. Mae amddifadedd digidol yn fwyaf amlwg yn ardaloedd gwledig yr ardal.

[16]Gellir cael mynediad i OFCOM (2025) '*Lawrlwythiadau Data*' drwy'r ddolen hon. Gweler tabl 202507_fixed_laua_coverage.
[17]Gellir cael mynediad i OFCOM (2025) '*Lawrlwythiadau Data*' drwy'r ddolen hon. Gweler tabl 202507_fixed_coverage_UK_and_Nations.



Ffigwr 2-1: Ysgolion yn Ardal CDLI Gwynedd

Ffigwr 2-2: Cyfleusterau cymunedol yn Ardal CDLI Gwynedd





Ffigwr 2-3: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru - Degradd Mynediad at Wasanaethau yng Ngwynedd



Ffigwr 2-4: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru - Degradd Tai yng Ngwynedd

2.4 Gwaelodlin y dyfodol

2.4.1 2.4.1 Yn dilyn y pandemig Covid-19, mae gweithio o adref wedi dod yn duedd mwy cyffredin, ac mae hyn yn debygol o newid patrymau cymudo a thueddiadau mynediad trigolion i'r dyfodol. Tra bo ansicrwydd yn parhau, mae'r CDLl yn rhoi cyfleoedd i dywys datblygiad sy'n gwasanaethu ar gyfer ffyrdd o fyw a phatrymau gwaith sy'n newid, ac yn rhoi mwy o bwyslais ar fynediad at wasanaethau lleol, cyfleusterau ac opsiynau cyflogaeth a chysylltedd strategol.

2.4.2 Disgwylir i dwf poblogaeth arwain at alw cynyddol am gyfleusterau a gwasanaethau drwy ardal y CDLl. Gall datblygiad anghydlynus yn absenoldeb CDLl Gwynedd fethu â chwrdd â darpariaeth ddigonol o'r gwasanaethau hyn mewn ardaloedd mwy difreintiedig.

2.4.3 Mae'r CDLl arfaethedig yn cynnig cyfle i hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer cyfarfodydd rhwng pobl na fyddai'n dod ar draws ei gilydd fel arfer - er enghraifft drwy ddatblygiadau defnydd-cymysg, canolfannau cymdogaeth cadarn, gosodiad stryd sy'n galluogi cysylltiadau cerdded a beicio hawdd o fewn a rhwng cymdogaethau, a ffryntiad stryd gweithredol.

2.4.4 Wrth i seilwaith digidol wella, bydd sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau digidol (e.e., apwyntiadau gofal iechyd ar-lein, addysg o bell) yn dod yn gynyddol bwysig. Bydd ymdrin â hygyrchedd digidol o fewn ardaloedd mwy gwledig yr ardal, yn benodol ar gyfer trigolion hŷn a'r rhai gydag anableddau, yn flaenoriaeth.

2.5 Materion allweddol

2.5.1 2.5.1 Fe wnaeth yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth waelodlin gyfrannu at adnabod nifer o faterion allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Bydd angen adlewyrchu cynnydd mewn patrymau gweithio hybrid a gweithio o adref mewn polisi cynllunio lleol.
- Gall anghydraddoldebau mewn mynediad at seilwaith digidol roi rhai grwpiau economaidd-gymdeithasol dan anfantais. Wrth i ddibyniaeth ar blatfformau digidol ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfathrebu barhau i gynyddu, mae risg y gall y rhai sydd heb fynediad digonol neu alluedd digidol gynyddu anghydraddoldebau cyfredol.
- Mae cyfran uchel o drigolion yn byw mewn pentrefi ac ardaloedd yn y cyffiniau yn delio ag unigrwydd gwledig, demograffig hŷn a gwasanaethau cyfyngedig lle mae'n rhaid hefyd cydbwyso twf yn erbyn ardaloedd gwarchodedig cenedlaethol ac Ewropeaidd.
- Mae cyfran sylweddol o drigolion ardal y CDLl yn profi amddifadedd o ran mynediad at wasanaethau a thai . Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn ardaloedd gwledig. Dylai datblygiadau cyflogaeth a thai newydd o wahanol ddeiliadaeth, math a maint gael eu hintegreiddio'n dda gyda rhwydweithiau gwasanaeth a thrafnidiaeth cyfredol, gan leihau

pellteroedd teithio a chynyddu hygyrchedd tai a gwasanaeth ar gyfer trigolion.

- Nid oes gan gyfanswm o 48% o eiddo o fewn Gwynedd fynediad at ryngrwyd ffibr llawn. Ar ben hynny, mae 0.8% o bob eiddo yn disgyn dan Rwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn y DU o gyflymder lawrlwytho o leiaf 10Mbps a chyflymder uwchlwytho o leiaf 1Mbps.

2.6 Amcan ACI

2.6.1 2.6.1 O ystyried y materion allweddol a drafodwyd uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau amcan ac asesu a ganlyn:

Amcan ACI	Cwestiynau asesu – a fydd y polisi/cynnig yn helpu i wneud y canlynol:
Gwella hygyrchedd i gyfleusterau a gwasanaethau hanfodol ar draws ardal y CDLl	• Cynyddu argaeledd llecynnau agored glas a gwyrdd rhyng-gysylltiedig, cynhwysol a hygyrch ar gyfer natur i bawb o fewn 15 munud o gerdded o adref? • Lleihau anghydraddoldebau mewn mynediad at wasanaethau hanfodol ar draws ardal y CDLl, yn benodol yn ei ardaloedd mwyaf difreintiedig? • Sicrhau mynediad at wasanaethau a seilwaith ar gyfer pob grŵp poblogaeth, gan gynnwys yr henoed, pobl anabl a'r rhai heb fynediad at gerbydau preifat? • Gwella cyfleoedd ar gyfer cerdded a beicio i gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau hanfodol sy'n cyfrannu at egwyddorion 'cymdogaethau y gellir byw ynddynt'? • Cefnogi datblygu, ehangu neu wella cyfleusterau cyfredol pan fo angen? • Cysylltu datblygiad cyflogaeth a thai newydd gyda gofal iechyd, addysgiadol a chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol? • Cynyddu cynhwysiant a chysylltedd digidol i sicrhau bod modd i'r holl drigolion gael mynediad at gyfleoedd a gwasanaethau ar-lein? • Sicrhau bod capasiti cyfleusterau addysgiadol yn cadw i fyny gyda thwf poblogaeth?

3. Ansawdd aer a sŵn

3.1 Cyflwyniad i'r thema

3.1.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar ansawdd aer lleol o fewn ardal y CDLl. Mae hyn yn cynnwys ffynonellau llygredd aer, prif fannau ansawdd aer ac ardaloedd sy'n mynd y tu hwnt i amcanion ar gyfer ansawdd aer. Mae'r thema hon hefyd yn edrych ar ffynonellau lleol o lygredd sŵn.

3.2 Cyd-destun polisi

3.2.1 3.2.1 Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhyngwladol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r thema hon yn Atodiad B. Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhanbarthol a lleol sydd wedi llywio'r sail dystiolaeth wedi'u cynnwys yn Nhabl 3-1.

Tabl 3-1: Cynlluniau, polisïau a strategaethau wedi'u hadolygu mewn perthynas ag ansawdd aer

Teitl y ddogfen	Blwyddyn cyhoeddi
Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2024 Prosiect ar y Cyd Awdurdodau Gogledd Cymru	2024
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd	2017

3.3 Crynodeb o'r waelodlin

Ansawdd aer

3.3.1 Nid yw Cyngor Gwynedd yn monitro ansawdd aer yn annibynnol; yn hytrach, mae'n un o'r chwe awdurdod lleol sy'n monitro rhanbarth gogledd Cymru gyda'i gilydd. Yr awdurdodau lleol eraill sy'n ffurfio Awdurdodau Gogledd Cymru gyda Chyngor Gwynedd yw:

- Cyngor Sir Ynys Môn.
- Cyngor Sir Ddinbych.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- Cyngor Sir y Fflint.

3.3.2 Yn ôl yr Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru, nid oes unrhyw ardaloedd rheoli ansawdd aer (ARhAAau) wedi'u datgan o fewn Gwynedd nag ardal ehangach gogledd Cymru.

3.3.3 Daw nitrogen deuocsid (NO_2) yn sgil hylosgi tanwyddau tymheredd uchel, megis y rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer gwres, trafnidiaeth, diwydiant a

chynhyrchu pŵer.[18] Mae'n aml yn ymwneud â llygredd ochr ffordd sy'n gysylltiedig â symudiadau cerbyd.

3.3.4 Yn ôl Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2024, fe wnaeth Cyngor Gwynedd fonitro NO_2 yn oddefol mewn 17 safle yn ystod 2023:

- Lleolir saith o'r rhain yng Nghaernarfon.
- Lleolir pump o'r rhain ym Mangor.
- Lleolir un yng nghyffiniau Bethesda.
- Lleolir un yn Ninas.
- Lleolir un ym Mhwllheli.
- Lleolir dau yn Llanfor yng nghyffiniau Bala.

3.3.5 Nid oes yr un o'r safleoedd monitro hyn wedi adrodd gormodedd yn amcan cymedr blynyddol NO2 o 40µg/m3 yn 2023. Hefyd, mae Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2024 yn dangos bod NO2 a fesurwyd yn y lleoliadau monitro hyn wedi bod yn gostwng ers 2019 - ond cydnabyddir bod rhai lleoliadau monitro wedi adrodd lefelau uchel o NO2 yn 2023 o gymharu â 2022.

3.3.6 Mae Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2024 hefyd yn dangos na wnaeth Cyngor Gwynedd adrodd am unrhyw ffynonellau llygredd aer traffig ffordd newydd yn 2023, nag unrhyw ffynonellau diwydiannol, diflan neu heb eu rheoli newydd neu ffynonellau masnachol o lygredd aer yn 2023. Fodd bynnag, mae Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2024 yn dangos bod Cyngor Gwynedd wedi derbyn 70 cwyn yn ymwneud ag ansawdd aer yn 2023:

- Roedd 46 oherwydd coelcerthi domestig.
- Roedd pedwar oherwydd mwg o simneiau domestig.
- Roedd 11 oherwydd mwg o goelcerthi diwydiannol.
- Roedd dau oherwydd mwg o simneiau diwydiannol.
- Roedd chwech oherwydd llwch o weithgareddau masnachol, diwydiannol neu adeiladu.
- Roedd un oherwydd llygredd aer sy'n gysylltiedig ag egsôsts cerbydau.

Sŵn

3.3.7 Mae gan sŵn niweidiol neu ddiangen y potensial o darfu ar gwsg a chynyddu straen, poendod a blinder, ac ymyrryd â gweithgareddau pwysig megis dysgu, gweithio ac ymlacio. Yn ychwanegol, gall bod yn agored i synau mawr achosi difrod clyw graddol neu uniongyrchol, a gallai hefyd gynyddu'r risg o salwch sy'n gysylltiedig â gorbwysedd a chlefyd cardiofasgwlaidd.[19]

3.3.8 Mae Ffigwr 3.1 yn dangos graddau llygredd sŵn yng Ngwynedd sy'n ymwneud â'r rhwydwaith ffyrdd. Mae'r lefelau uchaf o lygredd sŵn ar hyd yr

[18]Gellir cael mynediad i Sefydliad Iechyd y Byd (2026): 'Ansawdd aer, ynni ac iechyd' yma.
[19]Gellir cael mynediad i WHO (2011): 'Baich clefyd o sŵn amgylcheddol: meintioli blynyddoedd o fywyd iach wedi'u colli yn Ewrop' yma.

A55, A4871, A499, A497, A470, A496 a'r A4212. Mae ardaloedd trefol sy'n fwy tueddol o brofi tagfeydd hefyd yn fannau lle mae llawer o sŵn yn ymwneud â'r rhwydwaith ffyrdd o fewn Gwynedd.

3.3.9 Mae hefyd lefel mwy cyfyngedig o sŵn yn ymwneud â'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Ngwynedd (Ffigwr 3.2). Mae sŵn o reilffyrdd yn dueddol i fod yn fwy amlwg mewn ardaloedd trefol, gyda Bangor yn profi'r lefel uchaf o lygredd sŵn o'r rhwydwaith rheilffyrdd i aneddiadau eraill.

3.4 Gwaelodlin y dyfodol

3.4.1 3.4.1 Mae gan y twf sy'n gysylltiedig â datblygiad yn y dyfodol o fewn ardal y cynllun y potensial i gael effeithiau andwyol ar ansawdd aer a sŵn yn y tymor byr a'r tymor canolig, oherwydd gweithgareddau adeiladu a lefelau cynyddol o draffig a llygryddion cysylltiedig. Yn absenoldeb CDLl Gwynedd, dylai mabwysiadu cerbydau allyriadau isel yn barhaus, ynghyd â pholisi cenedlaethol gyfrannu at wella llygredd sŵn ac ansawdd aer, gan gefnogi cyfleoedd i wella hygyrchedd, yn benodol o ran defnyddio ffyrdd cynaliadwy o drafnidiaeth (gan gynnwys ffyrdd o deithio llesol, gweithio o adref a defnyddio cerbydau trydan).

3.4.2 Fodd bynnag, mae'n bosib y gallai'r datblygiad gyfrannu at wella ansawdd aer yn ardal y CDLl. Gellir cyflawni hyn drwy wella mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau allweddol, ac annog mwy o ymgysylltu â thrafnidiaeth gynaliadwy a llesol pan fo'n bosib ac yn briodol. Hefyd, gall symud at gerbydau allyriadau isel a thrydan gyfrannu at wella ansawdd aer dros y tymor hir.

3.5 Materion allweddol

3.5.1 Fe wnaeth yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth waelodlin gyfrannu at adnabod nifer o faterion allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Nid oes unrhyw ARhAAau o fewn ardal Cyngor Gwynedd. Yn ogystal, mae monitro lefelau NO_2 yn dangos patrwm o ostwng cyffredinol, ond nodir bod rhai lleoliadau monitro wedi mesur lefelau uwch o NO_2 yn 2023 o gymharu â 2022, a allai fod angen ystyriaeth a monitro parhaus mewn cynigion twf.
- Gall datblygiad pellach gynyddu llygredd aer drwy adeiladu ac allyriadau sy'n ymwneud â thraffig sy'n gysylltiedig â mwy o weithgarwch yn ardal y CDLl. Fodd bynnag, mae datblygu yn y dyfodol hefyd yn cyflwyno cyfleoedd i wella mynediad at wasanaethau ac annog mwy o ddefnydd o ddatblygu cynaliadwy a llesol, a allai helpu i leihau llygryddion aer sy'n gysylltiedig â theithio.
- Mae llygredd sŵn yn ardal y CDLl yn cael ei yrru'n bennaf drwy'r rhwydwaith ffyrdd, gyda'r lefelau uchaf ymysg llwybrau trafnidiaeth mawr ac ardaloedd trefol. Mae sŵn o reilffyrdd yn llai helaeth ac yn fwy amlwg mewn ardaloedd trefol, gyda Bangor yn profi'r lefel uchaf o lygredd sŵn o'r rhwydwaith rheilffyrdd o gymharu ag aneddiadau eraill.

3.6 Amcan ACI

3.7.1 O ystyried y materion allweddol a drafodwyd uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau amcan ac asesu a ganlyn:

Amcan ACI	Cwestiynau asesu – a fydd yr opsiwn/cynnig yn helpu i:
Adnabod a mynd ar drywydd unrhyw gyfleoedd i leihau, neu o leiaf, lleihau amlygiad poblogaeth i lygredd aer a niwsans sŵn.	• Lleihau'r angen i deithio? • Annog teithiau drwy ffyrdd cynaliadwy (teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus)? • Osgoi unrhyw effeithiau andwyol ar ansawdd aer ac ar gyfer pobl sy'n agored i ansawdd aer gwael? • Gwella ansawdd aer mewn ardaloedd sydd wedi'u nodi yn rhai sy'n peri pryder? • Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o gerbydau trydanol? • Hyrwyddo dyluniad da i osgoi effeithiau ar ansawdd aer a lleihau sŵn? • Amddiffyn, ymgorffori a gwella rhwydweithiau seilwaith gwyrdd i hwyluso amsugno a gwasgaru cynyddol o NO_2?

4. Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth

4.1 Cyflwyniad i'r thema

4.1.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar ddiddordebau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o fewn ac yng nghyffiniau ardal y CDLl. Mae hyn yn cynnwys dynodiadau a chynefinoedd.

4.2 Cyd-destun polisi

4.2.1 Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhyngwladol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r thema hon yn Atodiad B. Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhanbarthol a lleol sydd wedi llywio'r sail dystiolaeth wedi'u cynnwys yn Nhabl 4.1.

Tabl 4-1: Cynlluniau, polisïau a strategaethau wedi'u hadolygu mewn perthynas â bioamrywiaeth a geoamrywiaeth

Teitl y ddogfen	Blwyddyn cyhoeddi
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd	2017
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Natur Gwynedd	2004

4.3 Crynodeb gwaelodlin

Safleoedd dynodedig rhyngwladol

4.3.1 Mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a safleoedd Ramsar yn asedau bioamrywiaeth dynodedig o bwysigrwydd rhyngwladol, sy'n cael eu gwarchod dan Ddeddf Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (2010). Mae'r safleoedd dynodedig canlynol o fewn ffiniau gweinyddol Gwynedd, fel y dangosir yn **Ffigwr 4.1:**

- Y Twyni o Abermenai i Aberffraw
- Y Fenai a Bae Conwy
- Pen Llŷn a'r Sarnau
- Migneint-Arenig-Dduallt
- Eryri
- Corsydd Llŷn
- Corsydd Eifionydd
- Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion
- Coedydd Aber
- Clogwyni Pen Llŷn
- Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd

- Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn
- Glynllifon
- Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid (Cymru)
- Gorllewin Cymru Forol
- Y Berwyn
- Migneint-Arenig-Dduallt
- Mynydd Cilan, Trwyn yr Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal
- Traeth Lafan, Bae Conwy
- Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli
- Gogledd Bae Ceredigion
- Corsydd Ynys Môn a Llŷn

Safleoedd dynodedig cenedlaethol

4.3.2 Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn ardaloedd dynodedig cenedlaethol sy'n gwarchod bywyd gwyllt, cynefinoedd a nodweddion daearegol pwysicaf y DU. Mae Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNCau) yn ddetholiad o'r SoDdGA mwyaf arwyddocaol, wedi'u sefydlu i warchod cynefinoedd, rhywogaethau a daeareg allweddol, a chefnogi ymchwil wyddonol, addysg a dealltwriaeth y cyhoedd o'r amgylchedd naturiol. Mae SoDdGA a GNCau wedi'u dynodi dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

4.3.3 Mae 18 SoDdGA yn bresennol yng Ngwynedd, fel y dangosir yn **Ffigwr 4-2.**

4.3.4 Mae hefyd chwe Gwarchodfa Natur Cenedlaethol (GNCau) o fewn neu'n rhannol o fewn Gwynedd. Y rhain yw:

- Coed Tremadog
- Cors Geirch
- Cors Gyfelog
- Morfa Harlech (Hefyd o fewn Awdurdod Parc Eryri).
- Ynys Enlli
- Yr Eifl

4.3.5 Mae Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol (SGBRh) yn safleoedd anstatudol sydd wedi'u dewis i warchod y llefydd pwysicaf ar gyfer geoleg, geomorffoleg a phriddoedd, sy'n ategu'r rhwydwaith o SoDdGA sydd wedi'u hamddiffyn yn gyfreithiol. Mae SGBRH yn cael eu dewis ar gyfer eu nodweddion gwyddonol, addysgol, hanesyddol ac esthetig.[20] Mae yna 20 SGBRh wedi'u lleoli o fewn Gwynedd, fel y dangosir yn **Ffigwr 4.3.**

[20]Gellir cael mynediad i Fap Data Cymru (2022): 'Safleoedd Geoamryiwaeth o Bwys Rhanbarthol (SGBRh)' yma.

Safleoedd dynodedig lleol

4.3.6 Mae Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLlau) wedi'u dynodi dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Maent wedi'u dynodi i warchod cynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion geolegol naturiol sylweddol lleol. Maent yn darparu llecynnau gwyrdd hygyrch ar gyfer addysg ac ymgysylltu ac i'r gymuned eu mwynhau, tra hefyd yn gweithredu fel safleoedd gwerthfawr ar gyfer ymdrechion cadwraeth ac ymchwil ecolegol leol. Mae GNLlau Gwynedd wedi'u lledaenu ar hyd 1,700 hectar o dir, ac yn gweithio i warchod cynefinoedd a rhywogaethau pwysig. Mae wyth GNLlau[21] ar hyn o bryd, fel y dangosir yn **Ffigwr 4.3.**

4.3.7 Nodir hefyd bod nifer o safleoedd bywyd gwyllt o fewn Gwynedd. Dengys y safleoedd bywyd gwyllt sydd wedi'u cadarnhau yn **Ffigwr 4.4.**

Cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth

Rhywogaeth

4.3.8 Ceir nifer o rywogaethau pwysig o fewn ardal y CDLl - mae gan rai o'r rhain bwysigrwydd lleol, ac mae gan rai bwysigrwydd o fewn Cymru ac yng nghyd-destun y DU. Mae gan 19 o'r rhywogaethau hyn gynlluniau gweithredu rhywogaethau dan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Natur Gwynedd - gan gynnwys mamaliaid, adar, pysgod, ymlusgiaid, infertebratau a phlanhigion.

4.3.9 Un rhywogaeth sydd â chynllun gweithredu yw'r dyfrgi, sydd wedi bod yn dychwelyd i nifer o ddalgylchoedd afonydd yn ardal y CDLl yn y blynyddoedd diwethaf. Mae dyfrgwn Ewropeaidd (*Lutra lutra*) yn ddangosyddion biolegol pwysig o iechyd yr afonydd a gwlypdiroedd - yn ysglyfaethwr blaenllaw, mae monitro eu statws yn rhoi mesur gwerthfawr o gyflwr ecosystemau'r dŵr a gwlypdir. Mae'r cynllun gweithredu rhywogaethau yn amlinellu'r amcanion i sefydlu dosbarthiad a statws y rhywogaeth, i amddiffyn, cynnal a chynyddu eu poblogaethau a chynefinoedd cysylltiedig, a lleihau marwolaethau damweiniol o ddyfrgwn ar ffyrdd ac mewn afonydd, sy'n gysylltiedig yn helaeth â gweithgarwch dynol.[22]

4.3.10 Rhywogaeth arall sydd â chynllun gweithredu yw'r frân goesgoch (*Pyrrhocorax pyrrhocorax*). Yn 2002, roedd 67 safle yn cynnwys y frân goesgoch yng Ngwynedd, ac mae eu poblogaeth wedi bod yn cynyddu. Mae rhai ardaloedd o fewn Gwynedd yn hanfodol fel ardaloedd bwydo a chlwydo ar gyfer adar ifanc a rhai nad ydynt yn magu, yn benodol strwythurau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch chwarel a mwyngloddio (rhai segur a gweithredol). Mae'r cynllun gweithredu rhywogaethau cysylltiedig yn amlinellu amcanion i warchod cynefinoedd a safleoedd pwysig ar gyfer poblogaeth y frân goesgoch, ac yn ceisio hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'u hanghenion - drwy addysg a drwy rannu arferion tir gorau.[23]

Cynefinoedd

[21]Gellir cael mynediad i Gyngor Gwynedd (2026): 'Gwarchodfeydd Natur Lleol' yma.
[22]Gellir cael mynediad i Gyngor Gwynedd (2004): 'Cynllun Datblygu Rhywogaethau Dyfrgwn' yma.
[23]Gellir cael mynediad i Gyngor Gwynedd (2004): 'Cynllun Datblygu Rhywogaethau y Frân Goesgoch' yma.

4.3.11 Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Natur Gwynedd yn adnabod 15 cynefin sydd â chynlluniau gweithredu cynefin cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys cynefinoedd o fathau arfordirol, glaswelltir, gwlypdir a chynefin coetir:

- Tiroedd derw ucheldirol.
- Coetir gwlyb.
- Ymylon caeau âr.
- Cloddiau.
- Traethellau.
- Clogwyni a llethrau arforol.
- Coridorau afonydd.
- Porfa Rhos.
- Rhostir iseldirol.
- Rhostir ucheldirol.
- Porfa a dolydd iseldirol.
- Glaswelltir asid sych ar y tir isel.
- Gwlypdiroedd iseldirol.
- Traethlin.
- Gerddi.

4.3.12 Mae cloddiau yn fath o arglawdd sy'n benodol yn nodweddiadol o Benrhyn Llŷn. Cloddiau yw banciau daear wedi eu codi, fel arfer gyda wyneb carreg iddynt, ac weithiau gyda gwrych ar y top. Maent o bwys lleol a gwerth ecolegol arwyddocaol, ac yn aml yn cefnogi amrediad o fflora ar ymyl y lan ac mewn gwrychoedd, infertebratau, amffibiaid, ymlusgiaid a mamaliaid bychan. Nid ydynt o reidrwydd yn cael eu gwarchod gan Reoliadau Gwrychoedd 1997[24] ac felly mewn perygl o gael eu gwaredu a diffyg rheolaeth / cynnal a chadw priodol.[25]

[24]Gellir cael mynediad i GOV.UK (1997): 'Rheoliadau Gwrychoedd 1997' yma.
[25]Gellir cael mynediad i Gyngor Gwynedd (2004): 'Cynllun Datblygu Rhywogaeth Cloddiau' yma.



Ffigwr 4-1: Safleoedd dynodedig rhyngwladol o fewn ac yng nghyffiniau Ardal CDLI Gwynedd



Ffigwr 4-2: Safleoedd dynodedig cenedlaethol o fewn ac yng nghyffiniau Ardal CDLl Gwynedd



Ffigwr 4-3: Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol a Gwarchodfeydd Natur Lleol o fewn ac yng nghyffiniau ardal CDLl Gwynedd



Ffigwr 4-4: Safleoedd bywyd gwyllt wedi'u cadarnhau



Ffigwr 4-6: Coetir hynafol o fewn ac yng nghyffiniau Ardal CDLI Gwynedd

4.4 Gwaelodlin y dyfodol

4.4.1 Mae gan ddynodiadau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn ardal y CDLl y potensial i brofi cynnydd mewn pwysau sy'n gysylltiedig â thwf newydd posib. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys cynnydd mewn aflonyddwch hamddenol (digwyddiadau a dwysedd / effeithiau) sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn pobl yn cael mynediad at lecynnau mwy naturiol, heb eu datblygu yn ardal y CDLl - yn benodol ar hyd yr arfordir. Gellir hefyd cysylltu aflonyddwch â chynnydd mewn llygredd sŵn a golau sy'n gysylltiedig â darparu tai newydd, cyflogaeth a seilwaith.

4.4.2 Mae'n bosib y gellir twf hefyd arwain at golli neu ddarnio bioamrywiaeth, yn dibynnu ar leoliad y datblygiad newydd. Gallai hyn gynnwys colli cynefinoedd o ganlyniad i ddatblygiad newydd, ac effeithiau i'r rhwydwaith bioamrywiaeth oherwydd aflonyddwch i goridorau bioamrywiaeth. Gallai hyn gael effaith ar gynefinoedd a rhywogaethau ehangach ar draws ardal y CDLl.

4.4.3 Mae posib i fuddion ar gyfer bioamrywiaeth godi o'r integreiddio cynyddol o ystyriaethau bioamrywiaeth o fewn blaengynllunio ac ymdrechion i warchod a gwella rhwydweithiau seilwaith gwyrdd ar draws ardal y cynllun, ac yn rhanbarthol. I gynnal a gwella cyflwr bioamrywiaeth yn y dyfodol, bydd yn bwysig nid yn unig i amddiffyn a gwella cynefinoedd pwysig, ond y cysylltiadau sydd rhyngddyn nhw.

4.4.4 Heb y CDLl, byddai datblygiad hapfasnachol yn parhau i ddod ymlaen dan y CDLl ar y Cyd mabwysiedig cyfredol. Mae'r CDLl yn rhoi cyfle i gydlynu cyflawni twf i gwrdd ag anghenion y dyfodol, gwarchod a lleihau effeithiau ar fioamrywiaeth a cheisio cyfleoedd strategol i gyflawni budd net i fioamrywiaeth pan fo'n bosib.

4.5 Materion allweddol

4.5.1 Fe wnaeth yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth waelodlin gyfrannu at adnabod nifer o faterion allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Mae nifer o safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth dynodedig o fewn cyffiniau ardal y CDLl, gan gynnwys Ramsars, AGA, ACA, SoDdGA, GNCau, RISG, GNLlau a safleoedd bywyd gwyllt. Bydd yn bwysig sicrhau nad yw datblygiad newydd yn tanseilio uniondeb y dynodiadau hyn.
- Mae nifer o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig yn bresennol o fewn ardal y CDLl, ac mae gan rai ohonynt gynllun gweithredu cysylltiedig dan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Natur Gwynedd 2004. Er ei bod yn bosib bod rhai o'r cynlluniau gweithredu hyn wedi dyddio o ystyried dyddiad eu cyhoeddi, bydd yn bwysig iddynt gael eu hystyried yn llawn drwy unrhyw ddatblygiad newydd. Bydd hyn yn debygol o gyfrannu at sicrhau bod amcanion yn cael eu hintegreiddio a'r datblygiad wedi'i leoli i sicrhau buddion bioamrywiaeth.
- Dylai datblygiadau'r dyfodol geisio uchafu cyfleoedd ar gyfer budd net i fioamrywiaeth drwy geisio gwelliannau i'r rhwydwaith bioamrywiaeth, a lleihau'r potensial am niwed lle bo'n bosib. Yn ei dro, bydd hyn yn

debygol o ddod ag effeithiau cadarnhaol drwy leihau'r potensial am golli a darnio cynefinoedd a rhywogaethau.

4.6 Amcanion ACI

4.6.1 O ystyried y materion allweddol a drafodwyd uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau amcan ac asesu a ganlyn:

Amcanion ACI	Cwestiynau asesu – a fydd yr opsiwn/cynnig yn helpu i:
Diogelu a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o fewn ac o amgylch ardal y CDLl.	• Lleihau effeithiau ar nodweddion bioamrywiaeth a geoamrywiaeth dynodedig a phwysig, a darparu buddion net i fioamrywiaeth pan fo'n bosib? • Cynyddu mynediad at a dealltwriaeth o ddynodiadau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth pwysig, gan gynnwys dealltwriaeth o'u cyfraniad i'r rhwydwaith bioamrywiaeth yn ardal y CDLl? • Gwarchod a gwella'r rhwydwaith bioamrywiaeth, gan gynnwys ystyried cysylltiadau sy'n croesi ffiniau gweinyddol? • Cefnogi cyfleoedd am ddarparu seilwaith gwyrdd, sydd yn medru cynnig buddion ar gyfer bywyd gwyllt drwy gysylltu cynefinoedd ac osgoi darnio cynefin?

5. Addasu newid hinsawdd

5.1 Cyflwyniad i'r thema

5.1.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar weithgareddau yn ardal y CDLI sy'n cyfrannu at newid hinsawdd a'i effeithiau cysylltiedig, gan gynnwys risg llifogydd.

5.2 Cyd-destun polisi

5.2.1 Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhyngwladol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r thema hon yn **Atodiad B**. Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhanbarthol a lleol sydd wedi llywio'r sail dystiolaeth wedi'u cynnwys yn **Nhabl 5-1.**

Tabl 5-1: Cynlluniau, polisïau a strategaethau wedi'u hadolygu mewn perthynas ag addasu newid hinsawdd

Teitl y ddogfen	Blwyddyn cyhoeddi
Cynllun Cyngor Gwynedd	2023
Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022-2030	2022
Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd Cyngor Gwynedd	2013

5.3 Crynodeb gwaelodlin

5.3.1 Rhagwelir y bydd newid hinsawdd gydag effeithiau yn ymwneud â newidiadau tymor byr i batrymau tywydd, ynghyd â newid hirdymor mewn tueddiadau hinsawdd. Rhagwelir y bydd patrymau tywydd yn gweld cynnydd mewn digwyddiadau tywydd eithafol, gan gynnwys glaw trwm iawn, cynhesu, sychder a thywydd oer. Mae newidiadau hinsawdd yn debygol o arwain at ostyngiadau cymedrol mewn glawiad, ynghyd â chynnydd cymedrol mewn tymereddau. Yng Nghymru, rhagwelir y bydd tymereddau cymedrol yr haf yn cynyddu o oddeutu 4°C erbyn 2080, tra bo disgwyl i dymereddau cymedrol y gaeaf gynyddu oddeutu 2.4°C rhwng 2026 a 2080. Mae hefyd disgwyl i batrymau glawiad newid, gyda glawiad cymedrol y gaeaf yn cynyddu o 0.98 mm/diwrnod a glawiad yr haf yn lleihau o oddeutu 0.9 mm/diwrnod dros yr un cyfnod[26].

5.3.2 Canlyniad arall o newid hinsawdd yw lefelau'r môr yn cynyddu, problem sy'n gwaethygu oherwydd stormydd sy'n medru arwain at erydiad a llifogydd arfordirol. Mae addasu newid hinsawdd yn cyfeirio at y gweithrediadau a gymerwyd i reoli effeithiau newid hinsawdd drwy leihau bregusrwydd ac amlygiad i'r effeithiau niweidiol, ynghyd ag ecsbloetio unrhyw fuddion posib.

[26]Gellir cael mynediad i'r Swyddfa Dywydd (2018). '*Rhagamcanion Hinsawdd y DU*' drwy'r ddolen hon.

Perygl o Lifogydd

5.3.3 Mae gan Gyngor Gwynedd rôl fel yr Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol (AALL). Fel AALL, mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i reoli risg llifogydd o ddŵr wyneb, dŵr daear a nentydd llai. I gyflawni'r rôl hon, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol eraill i ddatblygu Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol (SRhPLlLl).

5.3.4 Mae SRhPLlLl Gwynedd (2013) yn nodi sut y gellir rheoli risg llifogydd drwy ddull cydlynus, sy'n seiliedig ar risg sy'n adnabod nad oes modd atal llifogydd yn llawn, ond gellir ei leihau a'i reoli'n well. Mae blaenoriaethau allweddol y cynllun yn cynnwys gwelliannau i ddealltwriaeth risg llifogydd, hyrwyddo systemau draenio cynaliadwy, cynnal asedau arfordirol, cryfhau cydweithio rhwng awdurdodau, a llywio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd sy'n agored i lifogydd. Cwblhawyd SRhPLlLl newydd yn gynnar yn 2024, ond nid yw ar gael yn gyhoeddus eto.

5.3.5 Mae llifogydd o brif afonydd yn un o'r prif achosion o lifogydd o fewn Gwynedd. Fel y dangosir yn **Ffigwr 5.1**, mae risg llifogydd arfordirol ac afonol yn ymestyn drwy Wynedd, yn bennaf yn dilyn coridorau afonydd ac ardaloedd ar hyd yr arfordir. Y cymunedau mwyaf sydd â'r risg uchaf o lifogydd yw Porthmadog, Blaenau Ffestiniog a Pwllheli.

5.3.6 Mae risg llifogydd arfordirol hefyd yn bryder o fewn Gwynedd. Mae rhagamcanion y dyfodol ar gyfer cynnydd mewn lefelau'r môr ar arfordir Gwynedd yn amcangyfrif cynnydd lefel y môr o hyd at 0.58 metr erbyn 2100 dan Lwybr Economaidd-gymdeithasol ar y cyd (SSP) 2-4.5 senario,[27] mewn perthynas â gwaelodlin 1995-2014.[28] Mae cynnydd mewn lefelau'r môr yn arwain at gynnwys mewn lefelau llanw a thonnau, erydiad arfordirol ac amlder a difrifoldeb llifogydd a stormydd, gan roi cymunedau arfordirol megis y rhai ym Mhwllheli, Fairbourne, Porthmadog neu Dywyn mewn mwy o berygl.

5.3.7 Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin (CRhTau) yn ddogfennau anstatudol sy'n nodi dull strategol ar y cyd ar gyfer rheoli'r arfordir o lifogydd arfordirol i risgiau erydu. Y nod yw lleihau'r risgiau i bobl a'r amgylcheddau datblygedig, hanesyddol a naturiol dros y ganrif nesaf. Lleolir CDLl Cyngor Gwynedd o fewn SMP Grŵp Arfordirol Gorllewin Cymru.[29]

5.3.8 Mae'r SRhPLlLl yn adnabod llifogydd dŵr wyneb fel cyfrannwr sylweddol i risg llifogydd yng Ngwynedd. Mae'r SRhPLlLl yn amcangyfrif bod 9,100 eiddo mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb yng Ngwynedd yn 2013. Mae **Ffigwr 5.2** yn dangos bod perygl llifogydd dŵr wyneb yng Ngwynedd yn eang. Mae ardaloedd risg uwch i'w gweld o fewn amgylcheddau gwledig a threfol, gan gynnwys o fewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol Gwynedd a Bangor.

5.3.9 Daeth yr SRhPLlLl i gasgliad nad yw llifogydd dŵr wyneb yn cael ei ystyried yn ffynhonnell sylweddol o lifogydd yng Ngwynedd, ond gall fod ychydig o faterion lleol drwy'r sir.

[27]Mae SSP 2-4.5 yn senario lle mae allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr canolraddol gydag allyriadau CO_2 o amgylch y lefelau cyfredol hyd at 2050, yna'n disgyn ond nid yw'n cyrraedd sero net erbyn 2100.
[28]Gellir cael mynediad i NASA (2025): 'Offeryn Rhagamcanu Lefel y Môr' yma.
[29]Gellir cael mynediad i Grŵp Arfordirol Gorllewin Cymru (dim dyddiad): 'SMP2' yma.

Ardaloedd rhybuddio perygl llifogydd ac amddiffynfeydd llifogydd

5.2.10 Mae **Ffigwr 5.3** yn dangos ardaloedd o fewn ardal y CDLl sydd am elwa o amddiffynfeydd llifogydd sy'n amddiffyn yn erbyn llifogydd o'r afonydd a'r môr. Lleolir y rhain mewn ardaloedd sy'n fwy debygol o gael llifogydd, yn benodol ar hyd yr arfordir gorllewinol.

5.3.11 Ers mis Mawrth 2025, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd y byddant yn derbyn £3.8 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau lliniaru llifogydd. Disgwylir i'r prif gymunedau canlynol elwa o'r arian hwn: Bontnewydd, Caernarfon a Mynydd Llandegai.[30]

Seilwaith Gwyrdd

5.3.12 Gall datrysiadau naturiol i leihau risg llifogydd ddod ar ffurf seilwaith gwyrdd, gan gynnwys gorchuddion coed. Mae arwynebau hydraidd wedi'u darparu gan ofod gwyrdd yn helpu i leihau dŵr ffo wyneb, sydd yn ei dro yn helpu i leihau risg llifogydd. Mae coed yn darparu rhwystr, gan leihau cyfaint y dŵr sy'n cyrraedd y ddaear drwy ddigwyddiadau glaw, sy'n helpu i leihau risg llifogydd. Yn hyn o beth, mae'n bwysig edrych ar lefelau seilwaith gwyrdd a'i reolaeth o fewn ardaloedd trefol, gan gynnwys adnodd pridd, rhwydweithiau llwybr, coetiroedd trefol a seilwaith gwyrdd eraill sydd wedi'u hanelu at wella ansawdd a hygyrchedd yr amgylchedd lleol. Noder bod ardaloedd gwledig yn gyffredinol yn gefn gwlad agored sy'n llai tebygol o gael problemau yn ymwneud â dŵr ffo wyneb.

5.3.13 Mae gofod agored a gwyrdd yn eang drwy ardal y CDLl. Fodd bynnag, dim ond canran fechan o'r ardaloedd gofod agored a gwyrdd sydd dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor, gan amlygu rôl bwysig tirfeddianwyr preifat wrth gyfrannu at liniaru newid hinsawdd a rheoli seilwaith gwyrdd yn gynaliadwy.

5.3.14 Er gwaethaf yr uchod, gall y Cyngor barhau i weithredu mesurau effeithiol, sydd wedi'u profi gan gynlluniau plannu coed diweddar mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Natur Gwynedd. Hefyd, cynhaliwyd gwaith cynnal a chadw hanfodol ar draws wyth ardal o goetir dan berchnogaeth y Cyngor i wella capasiti storio carbon a lleihau risg llifogydd ac mae astudiaeth digonolrwydd ar gyfer gweithredu seilwaith glas a gwyrdd mewn lleoliadau sydd wedi eu dewis ar draws naw tref yng Ngwynedd ar y gorwel[31]. Mae'r Cyngor hefyd yn cyfrannu at sefydlu dolydd blodau gwyllt ar hyd ochrau'r ffordd a thu hwnt.[32]

Gorboethi

5.3.15 Mae gorboethi yn cyfeirio at sefyllfaoedd lle mae tymereddau y tu mewn yn mynd y tu hwnt i lefelau iach a chyfforddus, gan arwain yn aml at anghysur, risgiau iechyd a defnyddio mwy o egni. Yng nghyd-destun newid hinsawdd, mae gorboethi yn dod yn broblem sylweddol gynyddol, yn benodol mewn ardaloedd trefol, lle y gall effeithiau cyfunedig o tymereddau uwch, llai o ofodau gwyrdd a mwy o ddwysedd trefol waethygu'r broblem. Mae ynysoedd gwres trefol (YGT) yn benodol amlwg mewn ardaloedd sydd â dwysedd

[30]Gellir cael mynediad i Gyngor Gwynedd (2025) 'Prosiectau lliniaru llifogydd yng Ngwynedd yn cymryd cam ymlaen' yma.
[31]Gellir cael mynediad i Gyngor Gwynedd (dim dyddiad): 'Seilwaith Glas a Gwyrdd Cyngor Gwynedd' yma.
[32]Gellir cael mynediad i Gyngor Gwynedd (2025): 'Adroddiad Blynyddol Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur' yma.

poblogaeth uchel, lle mae deunyddiau concrit, asffalt ac eraill yn amsugno a chadw gwres.

5.3.16 Er bod cyfran uchel o aneddiadau gwledig, bydd yn bwysig, ar gyfer datblygu mewn aneddiadau trefol o fewn ardal y CDLl, ystyried effeithiau gorboethi drwy sicrhau bod cysgod, awyru a seilwaith gwyrdd addas wedi'u hymgorffori i helpu oeri amgylcheddau trefol i sicrhau gwydnwch i gwres eithafol yn y dyfodol.



Sources: Esri, TomTom, Garmin, FAO, NOAA, USGS, © OpenStreetMap contributors, and the GIS User Community. Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and database right. All rights reserved. Some features of this information are based on digital spatial data licensed from the UK Centre for Ecology & Hydrology © UKCEH. Defra, Met Office and DARD Rivers Agency © Crown copyright. © Cranfield University. © James Hutton Institute. Contains OS data © Crown copyright and database right.

Ffigwr 5-1: Risg llifogydd o afonydd a'r môr o fewn ac yng nghyffiniau ardal CDLl Gwynedd



Ffigwr 5-2: Risg llifogydd o ddŵr Arwyneb o fewn ac yng nghyffiniau Gwynedd



Ffigwr 5-3: Amddiffynfeydd Llifogydd yng Ngwynedd

5.4 Gwaelodlin y dyfodol

5.4.1 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 15, dylai datblygiad gael ei gyfeirio i ffwrdd o ardaloedd sydd mewn risg o lifogydd ac erydiad arfordirol. Hefyd, disgwylir i gynigion ymgorffori systemau draenio cynaliadwy i reoli dŵr ffo wyneb mor agos i'w ffynhonnell â phosib.

5.4.2 Gallai datblygiad newydd gynyddu risg llifogydd drwy ffactorau megis newid llif dŵr daear a dŵr wyneb, colli llystyfiant aeddfed, niweidio priddoedd, gorlwytho mewnbynnau cyfredol i'r rhwydweithiau draenio a dŵr gwastraff neu gynyddu'r nifer o drigolion sy'n agored i ardaloedd o risg llifogydd presennol a'r posibilrwydd o fwy o risg llifogydd yn y dyfodol.

5.4.3 Mae newidiadau patrymau tywydd a hinsawdd tuag at dymereddau cymedrol uwch a digwyddiadau cynhesu eithafol yn debygol o gael eu gweld yn y dyfodol, gellir disgwyl i hyn gael effeithiau mwy amlwg ar ardaloedd trefol a gwledig ac yn benodol poblogaethau bregus o fewn yr ardaloedd hyn. Mae hyn yn debygol o ofyn am geisio cyfleoedd i ddylunio datrysiadau oeri mewn datblygiadau, megis cysgodi drwy gadw a phlannu coed a mwy o seilwaith gwyrdd ac awyru.

5.4.4 Mae rhagamcanion y dyfodol ar gyfer cynnydd mewn lefelau'r môr ar arfordir Gwynedd yn amcangyfrif cynnydd lefel y môr o hyd at 0.58 metr erbyn 2100 dan Lwybr Economaidd-gymdeithasol ar y cyd (SSP) 2-4.5 senario,[33] mewn perthynas â gwaelodlin 1995-2014.[34] Mae cynnydd o'r fath yn debygol o gynyddu cyfradd erydiad arfordirol a gwaethygu amlder a difrifoldeb llifogydd a stormydd, gan roi cymunedau arfordirol mewn mwy o berygl o effeithiau newid hinsawdd. Bydd buddsoddiad parhaus mewn amddiffynfeydd arfordirol a llai o allyriadau felly yn hanfodol i amddiffyn arfordir ardal y CDLl o effeithiau newid hinsawdd.

5.5 Materion allweddol

5.5.1 Fe wnaeth yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth waelodlin gyfrannu at adnabod nifer o faterion allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Mae'r prif ffynonellau o risg llifogydd o fewn ardal y CDLl yn deillio o ddŵr arfordirol, dŵr wyneb a ffynonellau afonol, yr olaf yn bennaf ar hyd coridorau afonydd sy'n achosi risg i rai aneddiadau gan gynnwys Bangor, Caernarfon a Bethesda. Mae llifogydd arfordirol hefyd yn risg i rai ardaloedd preswyl presennol - gan gynnwys rhannau o Borthmadog, Tywyn a Phwllheli, sydd wedi'u lleoli o fewn ardaloedd sydd â risg uwch o lifogydd.
- Rhagwelir y bydd newid hinsawdd yn cynyddu amrywioldeb tywydd ac amlder digwyddiadau tywydd eithafol.
- Mae gan effeithiau newid hinsawdd y potensial i gael effaith ar iechyd a lles trigolion yn ardal y cynllun. Bydd yn bwysig i CDLl Gwynedd ymdrin

[33]Mae SSP 2-4.5 yn senario lle mae allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr canolraddol gydag allyriadau CO_2 o amgylch y lefelau cyfredol hyd at 2050, yna'n disgyn ond nid yw'n cyrraedd sero net erbyn 2100.
[34]Gellir cael mynediad i NASA (2025): 'Offeryn Rhagamcanu Lefel y Môr' yma.

ag anghydraddoldebau a risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd wrth gynllunio a dylunio datblygiadau newydd.

5.6 Amcanion ACI

5.6.1 O ystyried y materion allweddol a drafodwyd uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau amcan ac asesu a ganlyn:

Amcanion ACI	Cwestiynau asesu – a fydd y polisi/cynnig yn helpu i:
Cefnogi gwytnwch ardal y CDLl i effeithiau posibl newid hinsawdd, gan gynnwys llifogydd o ffynonellau dŵr afonol, arfordirol ac wyneb.	• Osgoi datblygu mewn ardaloedd sy'n wynebu'r risg mwyaf o lifogydd, gan ystyried effeithiau tebygol y dyfodol o newid hinsawdd? • Cynyddu gwydnwch yr amgylchedd adeiledig a naturiol i'r effeithiau o newid hinsawdd, yn benodol mewn ardaloedd lle mae llifogydd arfordirol ac afonol wedi'i adnabod? • Sicrhau bod y risgiau posib sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd wedi'u hystyried mewn datblygiadau newydd yn ardal y cynllun? • Helpu i leihau gorboethi drwy warchod a chynyddu seilwaith gwyrdd, gan ehangu gorchudd arwynebau hydraidd a chynyddu gorchuddion coed (e.e. drwy wyrddio trefol / plannu brodorol)? • Defnyddio seilwaith gwyrdd a systemau draenio cynaliadwy i reoli dŵr ffo yn gynaliadwy, lleihau dŵr ffo wyneb, tra'n creu cyfleoedd i greu cynefinoedd, plannu coed a gofodau agored? • Lleihau risg llifogydd ar gyfer seilwaith allweddol, megis trafnidiaeth, amaethyddiaeth a phŵer? • Cefnogi seilwaith a dyluniadau sy'n gwrthsefyll hinsawdd i ddiogelu iechyd y cyhoedd, yn benodol ar gyfer poblogaethau bregus?

6. Lliniaru newid hinsawdd

6.1 Cyflwyniad i'r thema

6.1.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar weithgareddau yn ardal y CDLI sy'n cyfrannu at liniaru newid hinsawdd, gan gynnwys lliniaru allyriadau ardal y CDLI, a datblygu'r seilwaith ynni adnewyddadwy.

6.2 Cyd-destun polisi

6.2.1 Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhyngwladol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r thema hon yn **Atodiad B**. Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhanbarthol a lleol sydd wedi llywio'r sail dystiolaeth wedi'u cynnwys yn **Tabl 6-1.**

Tabl 6-1: Cynlluniau, polisïau a strategaethau wedi'u hadolygu mewn perthynas â lliniaru newid hinsawdd

Teitl y ddogfen	Blwyddyn cyhoeddi
Adroddiad Blynyddol Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd	2025
Cynllun Ynni Ardal Leol	2025
Cynllun Fflyd Gwyrdd Cyngor Gwynedd 2023-29	2023
Cynllun Cyngor Gwynedd	2023
Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022-2030	2022
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd	2017
Cynllun Rheoli Carbon	2015

6.3 Crynodeb o'r waelodlin

Argyfwng hinsawdd

6.3.1 Ym mis Mawrth 2019, fe ymunodd Cyngor Gwynedd â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar draws y DU i ddatgan argyfwng hinsawdd, ynghyd â chydnabod pwysigrwydd rhoi sylw i'r argyfwng natur. Fel ymateb, aeth Cyngor Gwynedd ati i baratoi Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022-2030. Nod y cynllun yw rhoi amlinelliad o'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd rhwng 2022 a 2030 o gyflawni carbon sero net a chefnogi adferiad natur.

Allyriadau

6.3.2 Wrth liniaru newid hinsawdd a'i ganlyniadau niweidiol, mae'n bwysig lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (NTG) a datgarboneiddio'r economi. Mae'n bwysig

canolbwyntio ar wahanol ffynonellau o garbon deuocsid (CO_2) er mwyn deall yn well sut y gall dulliau wedi'u targedu gael yr effeithiau mwyaf arwyddocaol.

6.3.3 Mae allyriadau Gwynedd yn bennaf yn adlewyrchu'r gweithgarwch amaethyddol sylweddol sy'n bresennol. Mae'r graff isod yn dangos yr allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer Gwynedd 2005-2023, fel sydd wedi'i fesur gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net.[35] Mae Ffigwr 6.1 yn dangos mai'r sector amaethyddol, yn hanesyddol, yw'r sector sydd wedi cyfrannu fwyaf at allyriadau nwyon tŷ gwydr, a'i bod yn parhau felly heddiw. Mae hefyd yn dangos bod pob sector wedi gweld gostyngiad cyffredinol mewn allyriadau ers 2005, er bod y ffigyrau yn ymddangos i fod yn fwy gwastad ers 2020. Nodir bod rhai sectorau, megis y sector trafnidiaeth, wedi gweld cynnydd bychan ers 2020.



Ffigwr 6-1: Allyriadau nwyon tŷ gwydr Gwynedd yn ôl sector (2005-2023)

6.3.4 Mae data allyriadau nwyon tŷ gwydr ers 2005 wedi nodi bod gan Wynedd gyfran is o allyriadau nwyon tŷ gwydr y pen o gymharu â Chymru yn ei chyfanrwydd, ond allyriadau uwch y pen na'r DU. Gweler hyn yn **Ffigwr 6.2** drosodd. Mae'r ffigwr allyriadau uchel y pen yn awgrymu bod pob trigolyn o Wynedd yn gyfrifol am fwy o allyriadau na'r trigolyn cyfartalog yn y DU. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r sector amaethyddol ffyniannus yng Ngwynedd.

[35]Gweler 'UK local authority and regional greenhouse gas emissions statistics, 2005 to 2023', Llywodraeth y DU (2025), yma.



Ffigwr 6-2: Allyriadau nwyon tŷ gwydr y pen (2005-2023)6

Ynni adnewyddadwy

6.3.5 Fe wnaeth y CDLl ar y Cyd adnabod amrediad o ffynonellau ynni adnewyddadwy posib a allai gael eu cyflwyno erbyn 2026. Roedd disgwyl, erbyn 2021, y byddai 50% o'r potensial ynni adnewyddadwy sydd wedi'i adnabod ar gyfer Gwynedd yn cael ei gyflawni erbyn 2021 (568 GWh). Fodd bynnag, erbyn 2025, dim ond 119.6 GWh o gynhyrchiant ynni adnewyddadwy ychwanegol oedd wedi'i gyflawni y tu hwnt i'r waelodlin.

6.3.6 Gyda'i gilydd, mae 129 MW o gapasiti cynhyrchu trydan adnewyddadwy artraeth yng Ngwynedd, ar draws amrediad o dechnolegau cynhyrchu gwahanol. Amcangyfrifir y bydd hyn yn cyfrannu 3.2% o gynhyrchu ynni adnewyddadwy Cymru o 2024.[36] Mae **Tabl 6-2** isod yn dangos dosbarthiad y cynhyrchu ynni adnewyddadwy ledled Gwynedd.

Tabl 6-2: Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy yng Ngwynedd (2024)6[37]

Math yr ynni adnewyddadwy	Capasiti (MW trydan)
Ffotofoltaidd solar	57.7
Ynni dŵr	62.2
Gwynt ar y tir	6.2
Arall	2.9
Cyfanswm	129.0

[36] Gweler '*Regional Renewable Statistics*' Llywodraeth y DU (2024) yma.
[37] Ibid.

6.3.7 Gwynedd yw awdurdod arweiniol Cymru ar gapasiti ynni hydro, gan gynhyrchu 62.2MW o bŵer o'i ddwy orsaf trydan hydro. Ar hyn o bryd, mae ffynonellau ynni adnewyddadwy yn cyfrif am oddeutu 29% o ddefnydd trydan yng Ngwynedd, gyda'r gweddill yn cael ei gyflenwi o'r grid cenedlaethol.[38]

6.3.8 Mae mentrau ynni cymunedol yn weithredol ledled Gwynedd, ac yn cynnwys Cyd Ynni, Ynni Ogwen, Datblygiadau Egni Gwledig ac Energy Local. Mae'r holl fentrau a grwpiau yma yn gweithio i hyrwyddo ynni adnewyddadwy, lleihau allyriadau carbon a grymuso cymunedau lleol.

Cerbydau trydan

6.3.9 Mae gan gerbydau trydan rôl arwyddocaol i'w chwarae i sicrhau dyfodol gwyrddach ar y ffyrdd. Mae'r sector trafnidiaeth yn cyfrif am 16% o allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru, ac ers 2025, mae 2.57% o gerbydau sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru yn drydan, sydd wedi codi o 0.17% yn 2021.[39] Mae'r ffigwr i Wynedd fymryn yn is, gydag 1.92% o'r cerbydau wedi'u cofrestru yn rhai trydan.

6.3.10 Yn unol ag ymrwymiadau cenedlaethol, mae Cyngor Gwynedd yn cyflwyno seilwaith cerbydau trydan ac yn cefnogi'r symudiad i ffwrdd o deithio mewn cerbydau preifat drwy'r awdurdod. Ar yr adeg hon, mae'r Cyngor yn cydnabod bod bwlch yn y ddarpariaeth o bwyntiau gwefru cerbydau yng Ngwynedd. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddarparu pwyntiau gwefru ar safleoedd ym mherchnogaeth y Cyngor yn ymgais i lenwi'r bwlch hwn i sicrhau bod darpariaeth addas i drigolion Gwynedd.

6.4 Gwaelodlin y dyfodol

6.4.1 O ran lliniaru yn erbyn newid hinsawdd, mae'n debygol y bydd allyriadau y pen yng Ngwynedd yn parhau i ostwng, yn unol â thueddiadau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn yn sgil mesurau effeithiolrwydd ynni, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a thechnolegau newydd yn cael eu mabwysiadu yn fwy eang. Mae hyn yn debygol o gyfrannu'n bositif at gwrdd â tharged Sero Net y DU.

6.4.2 Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i leihau allyriadau carbon a chefnogi'r trosglwyddiad i economi carbon isel. Bydd buddsoddiad parhaus mewn ynni adnewyddadwy, trafnidiaeth gynaliadwy, ac adeiladau ynni effeithlon, yn hanfodol i ostwng allyriadau tra'n hyrwyddo twf economaidd. Bydd archwilio dulliau newydd o ddatgarboneiddio, yn cynnwys rhwydweithiau gwres carbon isel a chynhyrchu ynni lleol, yn allweddol i gyflawni dyfodol sero net.

6.4.3 Ystyrir y bydd cyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac ynni isel yn cynyddu ymhellach dros amser. Rhagwelir y bydd hyn ar draws amrediad o ffynonellau, ynghyd â ffynonellau sydd wedi'u galluogi drwy ddatblygu technolegau newydd. Fel y trafodwyd isod, mae mantais yn cael ei gymryd o hyn ledled Gwynedd, er enghraifft, gyda nifer o gynlluniau ynni gweithredol ar raddfa fawr, yn eu lle.

[38]Gweler 'Cynllun Ynni Ardal Leol' Cyngor Gwynedd (2025) yma.
[39]Gweler *'Vehicle licensing statistics data tables'* Llywodraeth y DU (2025) yma.

6.4.4 Mae disgwyl y bydd cynnydd yn faint o gerbydau trydan sy'n cael eu defnyddio ar lefelau awdurdod lleol a chenedlaethol. Er mwyn cefnogi'r trosglwyddiad o gerbydau sy'n cael eu pweru gan danwydd ffosil, bydd yn angenrheidiol sicrhau bod seilwaith gwefru cerbydau trydan digonol ar gael i gwrdd ag anghenion trigolion llawn amser. Mae bwlch presennol yn y waelodlin yn ymwneud â'r argaeledd cyfyngedig o gyfleusterau gwefru preifat. O ystyried poblogrwydd cynyddol ardal y CDLl fel lleoliad i dwristiaid, a'r galw dilynol ar seilwaith gwefru, bydd yn bwysig parhau i gynyddu'r ddarpariaeth o bwyntiau gwefru cyhoeddus i gefnogi trigolion lleol.

Sero Net[40]

6.4.5 Mae Climate Emergency UK yn cyhoeddi cardiau sgorio hinsawdd bob yn ail flwyddyn er mwyn asesu cynnydd y Cyngor tuag at sero net ar draws sawl categori. Yn 2025, cyflawnodd Cyngor Gwynedd sgôr gyffredinol o 41%, gan gynrychioli cynnydd o 9% ers 2023, gan ei osod yn gydradd 4ydd o gymharu â Chynghorau Cymru ac uwchben y cyfartaledd o 37%.

6.4.6 Perfformiodd y Cyngor fwyaf cryf mewn adeiladau a gwres, gan sgorio 66% (yr ail uchaf ymysg pob awdurdod yng Nghymru). Hefyd, fe gofnodwyd gwelliannau mewn bioamrywiaeth, cydweithio a thrafnidiaeth, er bod perfformiad mewn cynllunio a defnydd tir, lleihau gwastraff a llywodraethu, wedi dirywio. Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau yn dangos bod Cyngor Gwynedd yn gwneud cynnydd gyda gweithredu ar hinsawdd, tra'n tynnu sylw at yr angen am welliant pellach mewn polisi cynllunio a defnydd tir, lleihau gwastraff a llywodraethu, er mwyn cyflawni sero net yn ardal y cynllun.

6.5 Materion allweddol

6.5.1 Fe wnaeth yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth waelodlin gyfrannu at adnabod nifer o faterion allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Wrth gefnogi gweithrediad Cynllun Cyflawni Carbon Isel Llywodraeth Cymru, mae angen datgarboneiddio ar draws pob sector o gymdeithas (yn cynnwys yr economi, ynni, seilwaith, ffordd o fyw), gydag angen pellach i gymryd mesurau i leihau'r lefelau o garbon sydd yn yr atmosffer.
- Rhaid i gynllunio chwarae rôl allweddol mewn sicrhau bod cymunedau a seilwaith yn wydn yn erbyn effeithiau negyddol newid hinsawdd, drwy osgoi risg yn y lle cyntaf a cheisio lliniaru'r risg fel arall (e.e. drwy ddefnyddio seilwaith gwyrdd). Yn hyn o beth, cydnabyddir bod targed presennol y CDLl ar y Cyd o 568GWh o gynhyrchu ynni adnewyddadwy erbyn 2021 heb ei gyrraedd.[41]
- Roedd y Cyngor wedi perfformio'n ffafriol o ran ei gynnydd tuag at sero net mewn adeiladau a gwresogi, bioamrywiaeth, cydweithio a thrafnidiaeth, ond roedd wedi perfformio yn llai ffafriol mewn cynllunio a defnydd tir, llywodraethu a lleihau gwastraff.

[40]Gweler *'Action Scorecards'* Climate Emergency UK (2025) yma.
[41]Gweler 'Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd' Cyngor Gwynedd (2017) yma.

- Mae angen ehangu'r seilwaith EV i gefnogi'r trosglwyddiad i sector trafnidiaeth sy'n llai dibynnol ar danwydd ffosil.
- Y sectorau amaethyddiaeth, domestig a thrafnidiaeth yw'r rhai sy'n cyfrannu fwyaf at allyriadau carbon yng Ngwynedd, gydag allyriadau amaethyddol yn dangos y gyfradd arafaf o ran gostyngiadau.
- Mae allyriadau carbon y pen yng Ngwynedd wedi dirywio ers 2005 ond yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaleddau ar gyfer y Deyrnas Unedig.

6.6 Amcanion ACI

6.6.1 O ystyried y materion allweddol a drafodwyd uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau amcan ac asesu a ganlyn:

Amcanion ACI	Cwestiynau asesu – a fydd y polisi/cynnig yn helpu i:
Lleihau cyfraniad ardal y CDLl at newid hinsawdd o weithgareddau sy'n arwain at allyriadau nwyon tŷ gwydr a chyfrannu at gyfarfod targed sero net y Cyngor.	• Cynyddu nifer y datblygiadau newydd sy'n cwrdd neu'n rhagori ar feini prawf dylunio cynaliadwy? • Lleihau'r defnydd o ynni o ffynonellau sydd ddim yn adnewyddadwy? • Cynhyrchu ynni o ffynonellau carbon isel neu ddim carbon? • Lleihau'r angen i deithio neu nifer y siwrneion a wnaed? • Hyrwyddo'r defnydd o ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy, yn cynnwys cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus? • Sicrhau nad yw datblygiad gwledig yn cyfrannu ymhellach at gynnydd pellach mewn defnydd ynni uchel a theithio anghynaladwy?

7. Cymunedau

7.1 Cyflwyniad i'r thema

7.1.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar ddemograffi ac aelwydydd y boblogaeth yn ardal y CDLl.

7.2 Cyd-destun polisi

7.2.1 Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhyngwladol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r thema hon yn Atodiad B. Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhanbarthol a lleol sydd wedi llywio'r sail dystiolaeth wedi'u cynnwys yn Nhabl 7-1.

Tabl 7-1: Cynlluniau, polisïau a strategaethau wedi'u hadolygu mewn perthynas â chymunedau

Teitl y ddogfen	Blwyddyn cyhoeddi
Cynllun Cydraddoldeb Strategol Gwynedd	2024
Strategaeth Iaith Gymraeg Gwynedd 2023-33	2023
Cynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru	2023
Cynllun Cyngor Gwynedd	2023
Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru	2022
Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yng Ngogledd Cymru	2022
Asesiad Marchnad Dai Leol Gwynedd	2018
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd	2017

7.3 Crynodeb o'r waelodlin

Trosolwg o'r boblogaeth

7.3.1 Mae'r rhagolwg canol blwyddyn diweddaraf ar gyfer poblogaeth Gwynedd yn cyfeirio at 2025, ac yn dangos bod y boblogaeth yn oddeutu 120,295.[42] Mae hyn yn arwain at ddwysedd poblogaeth o 47 o bobl fesul cilomedr sgwâr yn rhagolygon canol blwyddyn 2025, o gymharu â 46.3 o bobl fesul cilomedr sgwâr ar ôl Cyfrifiad 2021 - a ddangosodd bod 117,393 o bobl yn byw yng Ngwynedd (er y nodir bod y data hwn yn cael ei gasglu yn ystod y pandemig, a allai fod wedi effeithio ar niferoedd y boblogaeth). Mae hyn yn dangos twf poblogaeth o oddeutu 1.5%. Mae dwysedd poblogaeth o 47 o bobl fesul

[42]Gweler 'Population estimates by local authority, year, sex and age', StatsWales (2026) yma

cilomedr sgwâr yn golygu mai Gwynedd yw'r drydedd sir gyda'r dwysedd poblogaeth lleiaf allan o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru[43]. Mae'n bwysig nodi bod y ffigyrau sy'n cael eu defnyddio yn yr ardal hon ar gyfer Gwynedd yn ei chyfanrwydd, nid dim ond yn ardal y CDLl.

7.3.2 Mae lluniad poblogaeth Gwynedd yn adlewyrchu'r tueddiadau cyffredinol i Gymru:[44]

- Yng Ngwynedd, yn 2025, rhagwelwyd bod 60.8% o'r boblogaeth (73,187) yn 16-64 oed. Mae hyn yn cymharu â 61% i Gymru yn ei gyfanrwydd.
- Rhagwelwyd bod 15.3% o boblogaeth Gwynedd (18,417) yn 0-15 oed. Roedd hyn yn cymharu â 17% i Gymru yn ei gyfanrwydd.
- Rhagwelwyd bod 23.9% (28,691) o boblogaeth Gwynedd yn 66 oed a throsodd. Roedd hyn yn cymharu â 22% i Gymru yn ei gyfanrwydd.

7.3.3 O ran rhywedd a phroffil oedran y boblogaeth[45]:

- Yn 2025, amcangyfrifwyd bod rhywfaint yn fwy o ferched (61,380 sydd gyfystyr â 51%), na dynion (58,915 sydd gyfystyr â 49%) yn byw yng Ngwynedd. Mae'r rhaniad canrannol yma yn adlewyrchu'r data i Gymru yn ei chyfanrwydd.
- Heb ddata penodol o 2025 yn ymwneud â grwpiau oedran a rhywedd, defnyddir data o amcangyfrifon canol blwyddyn 2025 yn lle hynny.[46] Yn 2025, roedd gan y grŵp oedran 0-15 oed rywfaint yn fwy o fechgyn (9,454 sydd gyfystyr â 51.3%) o gymharu â genethod (8,963 sydd gyfystyr â 48.7%). Mae hyn yn cymharu â 51.2% o fechgyn a 48.8% o enethod i Gymru yn ei chyfanrwydd.
- Yn 2025, roedd y rhaniad rhywedd ar gyfer pobl 16-64 oed bron yn 50:50 (49.2% dynion, 50.8% merched), ac roedd bron yn union yr un fath â Chymru yn ei chyfanrwydd (49.3% dynion, 50.7% merched).
- Yn 2025, roedd rhaniad mwy ar gyfer y rhai 65 oed a throsodd; er bod hyn yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol, mae'r gwahaniaeth yng Ngwynedd fymryn yn llai amlwg. Roedd amcangyfrif o 15,224 (53.1%) o ferched a 13,467 (46.9%) o ddynion, o gymharu â 53.6% o ferched a 46.4% o ddynion i Gymru yn ei chyfanrwydd.

Newidiadau poblogaeth yn y dyfodol

7.3.4 Fel llawer o'r wlad, mae poblogaeth Gwynedd yn heneiddio. Mae'r rhagolygon poblogaeth yn amcangyfrif erbyn 2042 y bydd canran y boblogaeth 0-64 oed yn parhau i fod yn bur sefydlog, lle bydd canran y boblogaeth 65 oed a throsodd yn cynyddu'n gyflymach - yn 2018, roedd pobl 65 oed a throsodd yn ffurfio 22.7% o'r boblogaeth yng Ngwynedd, ac mae disgwyl i hyn gynyddu i 25.7% erbyn 2043.[47] Yn 2024, ymgeisiodd Gwynedd am aelodaeth y rhwydwaith Dinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar. Bydd aelodaeth yn

[43] Gweler 'Estimates of the population for England and Wales', ONS (2026) yma..
[44]Gweler 'Population estimates by local authority, year, sex and age', StatsWales (2026) yma
[45]Ibid.
[46]Gweler 'Estimates of the population for England and Wales', ONS (2026) yma
[47]Gweler 'Rhagamcanion poblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn' (2018) Llywodraeth Cymru yma.

helpu Gwynedd i ddysgu o gymunedau oed-gyfeillgar eraill ac adeiladu ar gyfleoedd sy'n galluogi unigolion i fyw yn hirach a chael bywydau iachach.[48]

7.3.5 Mae'r adroddiad Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol (2021) yn edrych ar heriau a chyfleoedd y dyfodol ar gyfer creu Cymru sy'n fwy cyfartal. Mae hyn yn canolbwyntio ar ddyfodol gwaith, newid hinsawdd a newid demograffig, gan dynnu sylw at y ffaith bod poblogaeth sy'n heneiddio yn arwain at risg o gynyddu anghydraddoldebau mewn addysg, cyflogaeth, iechyd a gofal cymdeithasol.[49]

7.3.6 Mae **Tabl 7-2** isod yn dangos rhagfynegiadau poblogaeth Gogledd Cymru fesul awdurdod lleol a blwyddyn o 2022-2047, yn seiliedig ar yr amcan boblogaeth o 2022.[50] Gwynedd oedd â'r drydedd boblogaeth breswyl arferol uchaf yn 2022, y tu ôl i Sir y Fflint a Wrecsam. Mae disgwyl cynnydd yn y boblogaeth o 14,245 erbyn 2047, o gymharu â 2022. Nodir bod yr amcan ffigwr yn 2022 yn wahanol i ddata Cyfrifiad 2021 ynghylch y wir boblogaeth (fodd bynnag, efallai y bydd data'r Cyfrifiad yn cael ei effeithio gan y newidiadau mewn poblogaeth sy'n cael eu hachosi gan y pandemig).

7.3.7 Rhagwelir mai yng Ngwynedd fydd y boblogaeth sy'n tyfu gyflymaf yng Ngogledd Cymru (Tabl 7-2: Rhagamcanion poblogaeth). Mae hyn yn dangos bod y boblogaeth yn tyfu ar raddfa gymharol uchel. Er hyn, roedd nifer y marwolaethau (1,435) yn uwch na nifer y genedigaethau (925) yn 2025[51], sy'n awgrymu y gallai'r twf poblogaeth a ragfynegir yng Ngwynedd gael ei gyrru gan fudo mewnol, yn hytrach na newid naturiol.

Tabl 7-2: Rhagamcanion poblogaeth[52]

Ardal	2022 - 2034	2034- 2047	Cyfanswm
Ynys Môn	+2.1%	+2.6%	+4.8%
Gwynedd	+7.7%	+4.1%	+12.1%
Conwy	+3.1%	+3.6%	+6.8%
Sir Ddinbych	+6.2%	+5.0%	+11.6%
Sir y Fflint	+3.1%	+3.3%	+6.6%
Wrecsam	+1.4%	+1.1%	+2.5%

Patrymau mudo poblogaeth

7.3.8 Efallai bod mudo wedi chwarae rhan fechan yn newid poblogaeth Gwynedd rhwng 2011 a 2021. Mae mudo net yn cyfeirio at yr amcangyfrif o'r boblogaeth sy'n symud yn fewnol ac allanol rhwng awdurdodau lleol yn y Deyrnas Unedig.

[48]Gweler 'Asesiad Gwaelodlin Oed Gyfeillgar' (2024) Cyngor Gwynedd yma.
[49]Gweler 'Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol: Meysydd i weithio arnynt mewn gwaith, hinsawdd a newid demograffig', Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (2021) yma.
[50]Gweler '2022-based population projections' StatsWales (2025) yma.
[51]Gweler 'Official Census and Labour market statistics', Nomis (2025) yma.
[52] .

7.3.9 Yng Ngwynedd, roedd mudo net negyddol rhwng 2011 a 2021.[53] Yn y cyfnod hwn o amser, symudodd 1,325 net o bobl allan o Wynedd. Ar yr un pryd, gostyngodd y boblogaeth 4,451 o bobl, ac felly mae modd priodoli 30% o'r gostyngiad net yn y boblogaeth dros yr amser hwn i'r mudo net allan o Wynedd. Nid oes data mudo wedi bod ar gael ers 2021, ac felly mae'n anodd asesu'r effeithiau mwyaf diweddar y mae mudo wedi'i gael ar boblogaeth Gwynedd. Fodd bynnag, mae rhagolygon poblogaeth yn dangos bod poblogaeth Gwynedd wedi cynyddu mewn blynyddoedd diweddar (gweler paragraff 7.3.1), gan awgrymu bod mudo mewnol yn gorbwyso mudo allanol yng Ngwynedd.

Yr Iaith Gymraeg

7.3.10 Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Cymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei chefnogi a'i hannog drwy Gymru. Mae Deddf yr Iaith Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn gosod dyletswydd statudol ar Lywodraeth Cymru i gyflawni dros filiwn o siaradwyr a dyblu'r ganran o bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol erbyn 2050. Mae'r strategaeth gyfredol a gyhoeddwyd yn 2016 yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd.

7.3.11 Mae dwysedd y siaradwyr yn cael eu defnyddio'n gyffredin fel dangosydd procsi o'r defnydd cymunedol o'r Gymraeg. Yn 2021, datgelodd y Cyfrifiad bod 73,560 o bobl (3+ oed) yn medru siarad Cymraeg yng Ngwynedd, sy'n cyfateb i 64.4% o'r boblogaeth. Dyma'r uchaf o bob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Yn 2011, roedd y ganran yn 65.4% (77,000) o'r boblogaeth. Mae Gwynedd wedi gweld gostyngiad yn y ganran o siaradwyr Cymraeg ymhob Cyfrifiad ers 1981, lle mae 76.2% o'r boblogaeth 3+ oed yn gallu siarad Cymraeg. Yng Nghymru yn ei chyfanrwydd, gallai 17.8% siarad Cymraeg, oedd yn ostyngiad o 1.2% ers 2011[54]. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn amrywio yn ôl grŵp oedran. Gallai 55% o'r trigolion arferol 65 oed a throsodd siarad Cymraeg lle mae'r dwysedd ymysg grwpiau oedran iau yn gyffredinol yn cynyddu, gan godi i 86% o blant 3-15 oed.

7.3.12 Mae **Ffigwr 7-1** yn dangos y ganran o bobl 3 oed a throsodd sy'n medru siarad Cymraeg ar draws Gwynedd yn 2021. Yn gyffredinol, mae'r ffigwr yn dangos bod y gallu i siarad Cymraeg yn eang ar draws Gwynedd.

7.3.13 Mae **Tablau 7.3 – 7.5** yn dangos y dosbarthiad ymhob ACEHI o fewn ardal y cynllun yn ôl categori dwysedd siaradwyr Cymraeg.

Tabl 7.3: Ardal Cynllun Gwynedd - Ardaloedd ACEHI sy'n croesi'r trothwy o 70%7

Enw ACEHI	%	Enw ACEHI	%
Seiont 1	86%	Gogledd Pwllheli	76%
Llanrug	86%	Seiont 2	76%
Bethel a Chwm y Glo1	86%	Aberdaron, Botwnnog a Thudweiliog	76%

[53]Gweler 'Mudo rhwng Cymru a gweddill y DU yn ôl awdurdod lleol' Llywodraeth Cymru (2022) yma.

[54]Gweler 'Cyfrifiad 2021 - Yr Iaith Gymraeg', Cyngor Gwynedd (dim dyddiad) yma.

Enw ACEHI	%	Enw ACEHI	%
Peblig (Caernarfon)	85%	De Pwllheli	75%
Penygroes	83%	Llanystumdwy	75%
Bontnewydd	83%	Ogwen 2	74%
Llanwnda	81%	Waunfawr	73%
Ogwen 1	81%	Gerlan	73%
Cadnant	81%	Nefyn	73%
Menai (Caernarfon)	78%	Morfa Nefyn	71%
Abererch	78%	Clynnog a Llanllyfni	71%
Groeslon	77%	Llanaelhaearn	70%
Dwyrain Porthmadog	77%	Talysarn	70%

Tabl 7.4: Ardal Cynllun Gwynedd - Ardaloedd ACEHI gyda dwysedd o rhwng 40% a 70%

Enw ACEHI	%	Enw ACEHI	%
Llanberis	69%	Pentir 2	57%
Bethel a Chwm y Glo 2	69%	Gorllewin Porthmadog	56%
Y Felinheli	68%	Llanbedrog ac Abersoch	55%
Penisarwaun	68%	Glyder	53%
Tregarth a Mynydd Llandygai	68%	Dewi	52%
Porthmadog - Tremadog	66%	Marchog 1	51%
Pentir 1	62%	Marchog 2	48%
Llanengan	61%	Tywyn 2	40%
Cricieth	60%		

Tabl 7.5: Ardal Cynllun Gwynedd - Ardaloedd ACEHI sydd ddim yn croesi'r trothwy o 40%

Enw ACEHI	%	Enw ACEHI	%
Hendre	38%	Hirael a Garth 1	33%
Tywyn 1	36%	Menai (Bangor)	22%
Hirael a Garth 2	35%	Deiniol	20%

7.3.14 Mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg[55] yn tynnu sylw at bwysigrwydd dwysedd gallu'r trigolion i fedru siarad Cymraeg, ar gyfer defnydd iaith cymunedol a chynllunio. Mae gan fwyafrif yr ardaloedd ACEHI yn y sir (36 allan o 71) dros 70% sy'n medru siarad Cymraeg (y trothwy sy'n cael ei ystyried yn eang i fod yn allweddol wrth ddiffinio cymuned sy'n siarad Cymraeg). Mae'r cyfrannau uchaf, yn amrywio o 80% i 86.3%, o drigolion sy'n medru siarad Cymraeg i'w canfod yn bennaf o fewn neu ger ardaloedd mwy trefol, megis Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli a Bethesda. Ar ben arall y raddfa, dim ond 6 ACEHI oedd â llai na 40% yn medru siarad Cymraeg.

[55]Gweler Y Comisiwn Cymunedau Cymraeg (2024) '*Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg'* yma.

Mae'r cyfrannau isaf o siaradwyr Cymraeg i'w cael yn Nhywyn a Bangor, ac mae modd priodoli hynny ym Mangor yn sgil dylanwad cyflogwyr mawr megis y Brifysgol ac Ysbyty Gwynedd.

7.3.15 Mae Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg ar wahân yn cael ei wneud i gefnogi'r CDLl a bydd y dystiolaeth yn bwydo i mewn i'r ACI.

Hierarchaeth aneddiadau

7.3.16 Yn cynnwys cymysgedd o amgylcheddau gwledig a threfol, mae gan ardal y CDLl nifer o drefi a phentrefi nodedig wedi'u lledaenu ar draws ardal y cynllun. Mae'r ddau anheddiad mwyaf yn ardal y cynllun ym Mangor a Chaernarfon, sydd wedi'u lleoli yng ngogledd-ddwyrain Gwynedd.

7.3.17 Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod 16,993 o bobl (neu 14.47% o boblogaeth Gwynedd) yn byw ym Mangor, gyda 10,043 (neu 8.56% o'r boblogaeth) yn byw yng Nghaernarfon. Yng Nghyfrifiad 2021, ac eithrio Bangor a Chaernarfon, roedd y 32 'ardal adeiledig' eraill (fel sydd wedi'u diffinio yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol) yng Ngwynedd yn cynnwys 50,944 o bobl, neu 43.4% o gyfanswm y boblogaeth. Felly, gellir dweud bod 77,939 o bobl, neu 66.42% o boblogaeth Gwynedd yn byw mewn ardaloedd adeiledig, tra bo'r 33.58% o'r boblogaeth sy'n weddill yn byw mewn ardaloedd mwy gwledig. Nodir tra bo Cyfrifiad 2021 yn debygol o gael eu heffeithio gan y pandemig, mae'n parhau i fod y ffynhonnell ddata orau i edrych ar y boblogaeth ar lefel awdurdod is-leol.

7.3.18 Wedi'i adnabod yn y CDLl ar y Cyd mabwysiedig fel 'Canolfan Is-ranbarthol', mae Bangor yn elwa o gysylltiadau rheilffordd, bws a ffordd cryf sy'n ymestyn i ardal ehangach rhanbarth y gogledd, gan gysylltu'r hybiau allweddol sydd wedi'u hadnabod yn Cymru'r Dyfodol. Mae'n gwasanaethu rôl draws-ffiniol, gan wasanaethu dalgylch eang y tu hwnt i ardal y cynllun. Mae Bangor hefyd yn cefnogi ystod o gyfleoedd cyflogaeth ar raddfa fach, ganolig a mawr ar safleoedd sefydledig a newydd ac yn darparu cyfleusterau addysg uwch ac addysg bellach ochr yn ochr â gwasanaethau iechyd, hamdden a gwasanaethau hanfodol eraill. Mae gan yr ardal hefyd gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da i aneddiadau trefn is o fewn ardal y cynllun sy'n cryfhau ymhellach ei gallu i weithredu fel anheddiad uwch o fewn y CDLl ar y Cyd a fabwysiadwyd.

7.3.19 Roedd y CDLl ar y Cyd hefyd yn cydnabod rôl Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Y rhain yw: Blaenau Ffestiniog (amcangyfrifir bod 3,420 o breswylwyr yn 2024), Caernarfon (amcangyfrifir bod 10,043 o breswylwyr yn 2024), Porthmadog (amcangyfrifir bod 2,651 o breswylwyr yn 2024) a Phwllheli (amcangyfrifir bod 3,614 o breswylwyr yn 2024).[56] Dewiswyd y canolfannau trefol hyn i fod â rôl is-sirol o ran darparu gwasanaethau a chyfleusterau i'w poblogaethau eu hunain a'r cymunedau gwledig cyfagos. Yn y CDLl ar y Cyd a fabwysiadwyd, disgwylir iddynt hefyd ddarparu ar gyfer lefelau uwch o dwf tai. Er bod y pedair tref a ddewiswyd i fod yn Ganolfannau Gwasanaeth Trefol yn wahanol iawn o ran cymeriad a daearyddiaeth, maent i gyd yn chwarae rolau tebyg. Er enghraifft, mae gan bob un ohonynt boblogaethau preswyl sylweddol (o ran eu hardal agos), darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus,

[56]Gweler 'Build a custom area profile', ONS (2026) yma.

cyfleoedd cyflogaeth lleol, canol trefi sefydledig a chyfleusterau a gwasanaethau addysgol.

7.3.20 Fel y nodir yn y CDLl ar y Cyd, 'Canolfannau Gwasanaeth Lleol' yw'r drydedd haen o aneddiadau. Mae'r 'Canolfannau Gwasanaeth Lleol' yng Ngwynedd yn cynnwys: Abermaw, Bethesda, Cricieth, Llanberis, Llanrug, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Penygroes, a Thywyn. Mae'r strategaeth yn cydnabod rôl gyflenwol yr aneddiadau hyn, gan ddarparu lefel o dwf tai, yn ogystal â rhai gwasanaethau a chyfleusterau lleol allweddol. Mae'r 'Canolfannau Gwasanaeth Lleol' yn ategu rôl Canolfannau Gwasanaeth Trefol gan eu bod yn darparu ar gyfer anghenion trigolion ac yn darparu ar gyfer anghenion yr ardaloedd gwledig cyfagos. Mae eu darpariaeth o wasanaethau a chyfleusterau yn lleihau'r angen i breswylwyr deithio i Fangor neu Ganolfannau Gwasanaeth Trefol ar gyfer anghenion o ddydd i ddydd. Mae'r cyfleusterau hyn yn cynnwys ysgolion cynradd, siopau bach, siopau bwyd a diod a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus â chanolfannau trefn uwch.

7.3.21 Mae'r CDLl ar y Cyd a fabwysiadwyd hefyd yn nodi 'Pentrefi Lleol' gan gynnwys: Abererch, Brynrefail, Caeathro, Carmel, Cwm y Glo, Dinas (Llanwnda), Dinas Dinlle, Dolydd a Maen Coch, Efailnewydd, Garndolbenmaen, Garreg-Llanfrothen, Groeslon, Llandwrog, Llandygai, Llangybi, Llanllyfni, Llanystumdwy, Nantlle, Penisarwaun, Pentreuchaf, Rhiwlas, Rhosgadfan, Rhostryfan, Sarn Mellteyrn, Talysarn, Tregarth, Trefor, Waunfawr a'r Fron. Ochr yn ochr â 'Phentrefi Lleol' mae 'Pentrefi Arfordirol' a 'Phentrefi Gwledig'. Mae'r rhain yn cynnwys: Clynnog Fawr, Corris, Edern, Fairbourne, Llanaelhaearn, Llithfaen, Morfa Nefyn a'r Felinheli. Ar gyfer yr aneddiadau hyn, mae'r CDLl ar y Cyd wedi darparu ar gyfer twf ar raddfa fach i ategu anghenion tai lleol ac i gefnogi gwasanaethau lleol presennol.

7.3.22 Yn 2021, cytunodd Bwrdd Adfywio Cyngor Gwynedd i ddatblygu fframwaith adfywio newydd. Bwriad y Fframwaith yw sicrhau bod camau rhagweithiol ar waith i sicrhau cydweithredu i wella economi, amgylchedd a diwylliant yr ardal. Fel rhan o'r fframwaith rhannwyd y sir yn 13 ardal Adfywio Lleol gyda chynllun gweithredu cyfatebol ar gyfer pob ardal.[57]

[57]Gweler 'Ardal Ni: Cynlluniau Adfywio Lleol' yma.

Ffigwr 7-1: Canran y bobl dair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd (2021)



7.4 Gwaelodlin y dyfodol

7.4.1 Rhagwelir mai Gwynedd fydd y boblogaeth sy'n tyfu gyflymaf yng Ngogledd Cymru (gweler **Tabl 7-2**), a rhagwelir y bydd y cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth yn cael effeithiau pellgyrhaeddol, gan effeithio ar les economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol y sir – gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) newidiadau i'r seilwaith sydd eu hangen i gefnogi'r gymuned. Heb Gynllun Datblygu Lleol, gall datblygiad heb ei gydlynu waethygu amddifadedd mewn rhai ardaloedd, yn enwedig lle mae hygyrchedd i wasanaethau a chyfleusterau eisoes yn gyfyngedig. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd y gallai datblygiad yn absenoldeb y CDLl leihau lefelau amddifadedd – trwy newidiadau cadarnhaol mewn safonau tai a gweithgarwch economaidd. Cydnabyddir hefyd y bydd Gwynedd yn debygol o barhau i brofi poblogaeth sy'n heneiddio yn y dyfodol, sy'n cyflwyno set unigryw o heriau a chyfleoedd mewn perthynas â datblygu.

7.4.2 Mae'r Gymraeg yn elfen ddiffiniol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymdeithasol Gwynedd, ac mae ei defnydd yn parhau i fod yn gryfach yng Ngwynedd nag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Bydd cyfraniad Gwynedd at gyflawni 'Cymru lle mae pobl yn byw mewn llefydd gydag iaith Gymraeg ffyniannus'[58] yn y dyfodol yn allweddol i gyflawni uchelgeisiau Cymraeg 2050. Gan ddefnyddio diffiniad y Comisiwn ar gyfer Cymunedau Cymraeg eu hiaith, diffinnir 49 o'r ACEHI sydd wedi'u lleoli yn bennaf o fewn ardal y cynllun (neu tua 20% o'r cyfanswm o 241 ledled Cymru) fel ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Heb ystyried yn briodol beth yw twf cynaliadwy a dewisiadau gofodol ar gyfer datblygu'r ardal gynllun, neu, heb Gynllun Datblygu Lleol, gall datblygiad amhriodol neu heb ei gydlynu arwain at ostyngiad hirdymor yng nghyfran y cymunedau sy'n siarad Cymraeg bob dydd. Heb fabwysiadu CDLl addas i'r diben, gall tueddiadau i lawr a brofwyd dros y degawdau diwethaf barhau yn absenoldeb mesurau polisi cynllunio i gefnogi'r Gymraeg yn ardal y cynllun.

7.5 Materion allweddol

7.5.1 Fe wnaeth yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth waelodlin gyfrannu at adnabod nifer o faterion allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Ar y cyfan, bu twf yn y boblogaeth yng Ngwynedd ers 2001, gyda'r grŵp oedran 65+ yn cynyddu'n gyflymach na grwpiau oedran eraill a disgwylir iddo godi ymhellach erbyn 2042. Yn 2018, roedd pobl 65 oed a throsodd yn ffurfio 22.7% o'r boblogaeth yng Ngwynedd, a disgwylir i hyn godi i 25.7% erbyn 2043. Mae hyn yn awgrymu bod gan Wynedd boblogaeth sy'n heneiddio ac mae angen ystyried anghenion penodol o ddarpariaeth tai, iechyd a gofal tra'n cydnabod cyfraniad cadarnhaol pobl hŷn i'r gymuned ar yr un pryd.
- Yn ogystal â'r boblogaeth sy'n heneiddio, disgwylir i boblogaeth Gwynedd hefyd dyfu yn gyffredinol. Gall poblogaeth gynyddol gael effaith ar les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol lle trwy effeithio ar argaeledd tai, gwasanaethau cymunedol a mannau

[58]Gweler Llywodraeth Cymru (2021) Cymru'r Dyfodol 2040 yma.

gwyrdd. Bydd sicrhau bod darpariaeth addas o wasanaethau i breswylwyr yn bwysig i gynnal a gwella ansawdd bywyd preswylwyr.

- Er mwyn diogelu, hyrwyddo a hwyluso defnydd cynaliadwy cymunedol o'r Gymraeg, mae angen i'r CDLl sicrhau bod math, graddfa, cyflymder a lleoliad datblygiad yn cefnogi, neu nad yw'n niweidio'n andwyol, cymunedau o sensitifrwydd ieithyddol ac yn annog buddsoddiad mewn seilwaith economaidd a chymdeithasol priodol sy'n cefnogi twf nifer y defnyddwyr a chyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd.
- Nodweddir ardal y CDLl gan ystod amrywiol o aneddiadau trefol a gwledig wedi'u rhannu'n gategorïau gwahanol yn ôl hierarchaeth yr aneddiadau. Bangor sydd â'r gyfran uchaf o boblogaeth Gwynedd ac mae wedi cael ei ddynodi fel y 'Ganolfan Is-ranbarthol'. Mae Bangor eisoes yn gweithredu fel prif ganolfan ar gyfer manwerthu, cyflogaeth, iechyd ac addysg, gyda chefnogaeth Prifysgol Bangor, ysbyty, parc busnes Parc Menai a chysylltiadau trafnidiaeth strategol, gan gynnwys yr A55, gorsaf fysiau ganolog a gorsaf reilffordd gyda gwasanaethau uniongyrchol i Gaerdydd a Chaer. Fodd bynnag, mae Cynllun Creu Lleoedd Bangor (2023) yn nodi gwendidau mewn trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith teithio llesol, gyda chysylltiadau gwael rhwng canol y ddinas a'r orsaf reilffordd[59]. Bydd yn bwysig bod y CDLl yn rheoli twf ochr yn ochr ag uwchraddio seilwaith addas i sicrhau bod preswylwyr presennol a newydd yn profi ansawdd bywyd uchel.

[59]Gweler 'Cynllun Creu Lleoedd Bangor', Cyngor Gwynedd (2023), yma.

7.6 Amcanion ACI

7.6.1 O ystyried y materion allweddol a drafodwyd uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau amcan ac asesu a ganlyn:

Amcanion	Cwestiynau asesu – a fydd yr opsiwn/cynnig yn helpu i:
Gwella ansawdd dylunio i greu lleoedd hardd naturiol i bobl sy'n cynnal a gwella hunaniaeth gymunedol ac aneddiadau.	• Gwella cysylltedd rhwng cymunedau a hwyluso rhyngweithio cymdeithasol? • Diogelu a gwella hunaniaeth gymunedol ac unigryw a chefnogi cyfleoedd ar gyfer hamdden a thwristiaeth? • Atal cyfuno aneddiadau a chadw agored tir rhwng aneddiadau, seilwaith gwyrdd a chysylltedd cynefinoedd? • Twf uniongyrchol tuag at yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau?
Diogelu, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd cymunedol o'r Gymraeg.	• Diogelu, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd cymunedol o'r Gymraeg mewn ardaloedd o siaradwyr Cymraeg dwysedd uwch? • Hyrwyddo a hwyluso defnydd cymunedol a statws y Gymraeg mewn cymunedau eraill llai trwchus Cymraeg? • Sylweddoli amodau i'r Gymraeg ffynnu mewn cyd-destunau eraill, gan gynnwys cefnogaeth i fuddsoddi mewn seilwaith, cyfleusterau a gweithleoedd Cymraeg? • Diogelu a hyrwyddo statws y Gymraeg?

8. Economi a chyflogaeth

8.1 Cyflwyniad i'r thema

8.1.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar fusnesau lleol, cyflogaeth, addysg, lefelau sgiliau, a thwristiaeth.

8.2 Cyd-destun polisi

8.2.2 Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhyngwladol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r thema hon yn **Atodiad B**. Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhanbarthol a lleol sydd wedi llywio'r sail dystiolaeth wedi'u cynnwys yn **Nhabl 8-1**.

Tabl 8-1: Cynlluniau, polisïau a strategaethau wedi'u hadolygu mewn perthynas â'r economi a chyflogaeth

Teitl y ddogfen	Blwyddyn cyhoeddi
Gwynedd 2035 Economi sy'n gweithio i bawb	2026
Cynlluniau Adfywio Lleol Gwynedd	2025
Cyngor Gwynedd - Canllawiau Cynllunio Atodol - Rheoli'r Defnydd o Anheddau fel Cartrefi Gwyliau	2025
Cynllun Cyngor Gwynedd	2023
Economi Ymwelwyr Gynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035	2023
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd	2017
Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu economaidd Llywodraeth Cymru	2017
Papur Pwnc 9 Ynys Môn a Gwynedd: Twristiaeth	2015
Ynys Môn a Gwynedd - Astudiaeth Adolygu Tir Economaidd a Chyflogaeth (Crynodeb Gweithredol)	2012

8.3 Crynodeb gwaelodlin

Cyd-destun rhanbarthol

8.3.1 Mae Rhanbarth Economaidd Gogledd Cymru, fel y'i nodwyd drwy'r cynllun gweithredu economaidd Ffyniant i Bawb, yn cynnwys Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Parc Cenedlaethol Eryri, a Wrecsam ac mae'n gartref i bron i 700,000 o bobl.

8.3.2 Yn y cyd-destun rhanbarthol, mae Gwynedd y tu allan i'r Ardaloedd Twf Cenedlaethol a nodwyd gan Cymru'r Dyfodol. Fodd bynnag, mae Polisi 21 Cymru'r Dyfodol yn cefnogi twf cynaliadwy mewn trefi o bwys rhanbarthol ar hyd arfordir y Gogledd, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Gaernarfon a Bangor. Yn ogystal, nodir bod Rhanbarth y Gogledd yn Ardal Twf Genedlaethol wedi'i lleoli yn Wrecsam a Glannau Dyfrdwy. Mae Gwynedd yn elwa o gysylltedd ffyrdd da i'r ardaloedd hyn a bydd yn elwa o'r cysylltedd

gwell a ddarperir gan Metro Gogledd Cymru, y disgwylir iddo gysylltu Gwynedd â Llundain, Glannau Merswy, Swydd Gaer a Gogledd Lloegr.

8.3.3 Mae ardal y Cynllun wedi'i chroestorri gan Barc Cenedlaethol Eryri. Mae rheoli adnoddau hanesyddol a naturiol rhagorol y Parc Cenedlaethol yn hanfodol i ranbarth y gogledd yn ei gyfanrwydd. Mae hyn yn nodedig i'r CDLl a'r thema ACI hon yn arbennig, gan y gall gwarchod y parc cenedlaethol helpu i ddarparu manteision economaidd a chymdeithasol i gymunedau'r rhanbarth, er enghraifft drwy gynyddu gwariant twristiaeth yng Ngwynedd sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr sy'n aros yn yr ardal.

Cyflogaeth bresennol (parthau menter)

8.3.4 Ers 2012, mae Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dau safle strategol ym Mharth Menter Eryri – Safle Niwclear Trawsfynydd a Chanolfan Awyrofod Eryri. Mae'r ddau safle yn gorwedd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri ac felly'n disgyn y tu allan i ardal y CDLl. Fodd bynnag, mae Strategaeth Economaidd Gwynedd yn nodi awyrofod ac ynni glân ymhlith y diwydiannau sy'n dod i'r amlwg y gallai Gwynedd ddod yn gyrchfan rhagoriaeth ynddynt[60].

8.3.5 Mae'r Parth Menter yn adeiladu ar asedau naturiol a threftadaeth ddiwydiannol a milwrol yr ardal i gefnogi ynni carbon isel, cyfathrebu gwybodaeth a thechnoleg, radioisotop meddygol neu fusnes sy'n gysylltiedig ag awyrofod. Er na fydd y CDLl yn llywio'n uniongyrchol ddatblygiad ar y safleoedd hyn, gallai eu twf parhaus gael effeithiau eilaidd ar gymunedau ledled Gwynedd. Mae gan y parthau menter y potensial i ddarparu cyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant i drigolion ardal y CDLl. Felly, er bod y safleoedd eu hunain wedi'u lleoli o fewn y Parc Cenedlaethol, gallant ddarparu cyfleoedd economaidd a chyflogaeth ehangach i gymunedau ledled Gwynedd.

Cyflogaeth bresennol (safleoedd)

8.3.6 Dyrannodd y CDLl ar y Cyd a fabwysiadwyd 642.9 hectar o dir cyflogaeth rhwng Gwynedd ac Ynys Môn, gyda 272 hectar ohono wedi'i ddyrannu ar gyfer Ardal CDLl Gwynedd. Ers 2022, mae llai na 6.9 hectar y flwyddyn o dir cyflogaeth wedi'i gymryd ar safleoedd cyflogaeth wedi'u diogelu yn ardal CDLl Gwynedd. Roedd yr AMB o'r farn bod llai o geisiadau am ddatblygiadau ar y safleoedd cyflogaeth o fewn ardal y cynllun yn debygol o fod yn seiliedig ar faterion economaidd sydd y tu hwnt i reolaeth y cynllun.[61]

8.3.7 Mae Tabl 8-2 yn rhestru'r safleoedd cyflogaeth presennol o fewn ardal y CDLl. Y tu allan i'r parthau menter, Stad Ddiwydiannol Cibyn yw'r lleoliad cyflogaeth mwyaf (o ran ha).

8.3.8 Rhennir safleoedd cyflogaeth o fewn ardal y cynllun yn 'Safleoedd Cynradd' a 'Safleoedd Eilaidd'. Safleoedd Cynradd yw'r rhai sy'n debygol o fod yn fwy deniadol i'r farchnad ac sy'n debygol o gael eu datblygu yn y tymor byr. Mae safleoedd eilaidd yn aml mewn lleoliadau nad ydynt mor ddeniadol o ran mynediad a phresenoldeb y farchnad o'i gymharu â'r Safleoedd Cynradd.

[60]Gweler 'Economi sy'n Gweithio i Bawb: GWYNEDD 2035', Cyngor Gwynedd, yma.
[61]Gweler Cyngor Gwynedd (2024) 'Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011 - 2026 6ed Adroddiad Monitro Blynyddol Gwynedd 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2024' yma.

Dylid nodi hefyd, yn absenoldeb data mwy diweddar, bod y wybodaeth hon yn dod o'r CDLI ar y Cyd a fabwysiadwyd, ac felly gall rhai o'r safleoedd hyn fod wedi dyddio neu efallai y bydd rhai safleoedd ar goll.

Tabl 8-2: Safleoedd cyflogaeth Gwynedd

Safle cyflogaeth	Maint (ha)
Safleoedd Cyflogaeth Cynradd	
Parc Bryn Cegin, Bangor	36
Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor	27.6
Parc Britannia, Bangor	7.9
Parc Menai, Bangor	32.9
Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon	37.7
Parc Busnes, Penrhyndeudraeth	11.5
Parc Busnes, Porthmadog	13.5
Stad Ddiwydiannol Pendre, Tywyn	7.9
Safleoedd Eilaidd	
Bae Hirael, Bangor	9.1
Peblig, Caernarfon	6.7
Hen safle Friction Dynamex, Caernarfon	7.4
Safle Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog	7.4
Felin Fawr, Bethesda	1.5
Glyn Rhonwy, Llanberis	29.8
Stad Ddiwydiannol Penygroes	10
Stad Ddiwydiannol Nefyn	3.5
Cyn-safle Ysbyty Bron y Garth, Penrhyndeudraeth	1.6
Stad Ddiwydiannol Griffin, Penrhyndeudraeth	4
Stad Ddiwydiannol Y Ffôr	2.8
Parc Bwyd Amaeth, Llanystumdwy	6.6
Safle Ffermwyr Wynnstay, Rhosfawr	4.9
Safleoedd a Ddyrannwyd	

Safle cyflogaeth	Maint (ha)
Ger yr orsaf betrol, Y Ffor	1.7

Cyfraddau cyflogaeth

8.3.9 Dangosodd amcangyfrifon a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod y gyfradd gyflogaeth yng Ngwynedd rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026 yn 77.3%. Roedd hyn yn gymharol uwch na Chymru (72.1%) a'r Deyrnas Unedig gyfan (75.4%)[62].

8.3.10 Mae **Ffigwr 8.1** yn dangos tueddiadau mewn cyfraddau cyflogaeth yng Ngwynedd o'i gymharu â'r DU a Chymru rhwng 2011 a 2026. Er bod cyfradd y DU wedi cynyddu drwy gydol y cyfnod a arsylwir, mae Cymru a Gwynedd wedi profi mwy o newidiadau o flwyddyn i flwyddyn. Er gwaethaf hyn, mae cyfradd cyflogaeth y DU wedi gostwng o fewn y cyfwng hyder o 95% ar gyfer Gwynedd bob blwyddyn ers 2016/17, sy'n golygu nad oes tystiolaeth glir bod cyflogaeth yng Ngwynedd wedi bod yn wahanol i gyfartaledd y DU dros y cyfnod hwn.



Ffigwr 8-1: Cyfradd Cyflogaeth yng Nghymru a'r DU (canran y boblogaeth 16-64 oed)

8.3.11 Dangosodd amcangyfrifon a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod y gyfradd ddiweithdra yng Ngwynedd rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026 yn 3.9%. Roedd hyn yn gymharol is na Chymru (4.4%) a'r Deyrnas Unedig gyfan (4.5%)[63].

8.3.12 Mae Ffigwr 8-2 drosodd yn dangos tueddiadau mewn cyfraddau diweithdra yng Ngwynedd o gymharu â'r DU a Chymru rhwng 2011 a 2026. Mae'r tair ardal ddaearyddol wedi gweld gostyngiad mewn cyfraddau diweithdra ers 2011.

[62]Gweler 'labour market statistics', Swyddfa Ystadegau Gwladol (dim dyddiad) yma.
[63]Ibid



Ffigwr 8-2: Cyfradd ddiweithdra (canran y boblogaeth 16-64 oed)

Addysg

8.3.13 Mae data o arolwg blynyddol poblogaeth yr ONS yn dangos, rhwng Ionawr 2025 a Rhagfyr 2025, fod gan 42.7% o drigolion Gwynedd rhwng 16 a 64 oed Fframwaith Cymwysterau Rheoledig (FfCRh) lefel 4 ac uwch. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru (44.8%). Mewn cyferbyniad, mae cyfran is o breswylwyr heb gymwysterau (5.3%) o'i gymharu â Chymru gyfan (7.7%).[64]

8.3.14 Gall lefelau is o gymwysterau yng Ngwynedd fod â goblygiadau i dwf economaidd lleol a chyfleoedd cyflogaeth. Gall gweithlu sydd â llai o gymwysterau lefel uwch gyfyngu ar allu'r awdurdodau i ddenu rhai diwydiannau gwerth uchel a busnesau sy'n seiliedig ar wybodaeth. I'r gwrthwyneb, gall sectorau sy'n gofyn am gymwysterau ffurfiol is, fel crefftau medrus a rolau gweinyddol, barhau i fod yn dominyddu yn yr economi leol.

8.3.15 Mae canlyniadau i bobl ifanc sy'n pontio o addysg i gyflogaeth neu hyfforddiant yn gymharol gadarnhaol. Yn 2020, dim ond 1.2% o'r rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 nad oedd mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, sy'n is na ffigwr cyfartalog Cymru, sef 1.7%[65].

Economi a busnes lleol

8.3.16 Mae Strategaeth Economaidd Gwynedd yn nodi, er gwaethaf diweithdra isel a chyfraddau goroesi busnesau uchel, bod bwlch yn parhau rhwng economi Gwynedd a gweddill Cymru a'r DU[66]. Mae enillion wythnosol cyfartalog £50 yn is na chyfartaledd Cymru, ac mae'r gwerth ychwanegol gros y pen bron i £12,000 yn is na chyfartaledd y DU.

[64]Ibid.
[65]Gweler 'Asesiad Llesiant Gwynedd', Cyngor Gwynedd (2022) yma.
[66]Gweler 'Economi sy'n Gweithio i Bawb: GWYNEDD 2035', Cyngor Gwynedd, yma.

8.3.17 Yn ôl Proffil y Farchnad Lafur Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Gwynedd, roedd 6,640 o fusnesau yng Ngwynedd yn 2025[67].

8.3.18 Yn 2024, roedd 54,000 o swyddi gweithwyr yng Ngwynedd[68]. Mae Tabl 8-3 yn tynnu sylw at ddosbarthiad y swyddi hyn yn ôl diwydiant. Mae'r gyfran uchaf o weithwyr yng Ngwynedd yn y sectorau iechyd a gwaith cymdeithasol, mae dros 20% o weithwyr yn gweithio yn y sector hwn. Mewn cymhariaeth, y diwydiant gyda'r nifer lleiaf o weithwyr yng Ngwynedd yw Mwyngloddio a chwareli.

Tabl 8-3: Swyddi gweithwyr yn ôl diwydiant yng Ngwynedd

Diwydiant	Gwynedd (Swyddi gweithwyr)	Gwynedd (%)	Cymru (%)	Prydain Fawr (%)
Mwyngloddio a chwareli	200	0.4	0.1	0.2
Gweithgynhyrchu	3,000	5.6	10.4	7.3
Cyflenwi trydan, nwy, stêm ac aer-gyflyru	300	0.6	0.5	0.4
Cyflenwad dŵr; gweithgareddau carthffosiaeth, rheoli gwastraff ac adfer	900	1.7	1.1	0.7
Adeiladu	3,000	5.6	4.8	5.0
Masnach gyfanwerthol a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur	7,000	13.0	13.5	13.7
Cludo a storio	1,000	1.9	3.2	5.0
Gweithgareddau llety a gwasanaeth bwyd	7,000	13.0	8.2	7.8
Gwybodaeth a chyfathrebu	1,000	1.9	2.0	4.5
Gweithgareddau ariannol ac yswiriant	300	0.6	2.7	3.4

[67]Gweler 'Labour Market Profile - Gwynedd', Swyddfa Ystadegau Gwladol, yma.
[68]Ibid.

Diwydiant	Gwynedd (Swyddi gweithwyr)	Gwynedd (%)	Cymru (%)	Prydain Fawr (%)
Gweithgareddau eiddo tiriog	900	1.7	1.6	1.9
Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol	1,500	2.8	5.2	9.3
Gweithgareddau gwasanaeth gweinyddol a chefnogol	1,750	3.2	6.3	8.6
Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; diogelwch cymdeithasol gorfodol	4,500	8.3	8.8	4.9
Addysg	7,000	13.0	9.3	8.6
Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol	11,000	20.4	17.7	14.2
Celfyddydau, adloniant a hamdden	2,500	4.6	2.6	2.5
Gweithgareddau gwasanaethau eraill	900	1.7	1.6	1.9

Twristiaeth

8.3.19 Mae'r sector twristiaeth yn chwarae rhan sylweddol yn economi ardal y CDLl. Mae'r economi ymwelwyr yn darparu swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau sy'n hanfodol i les cymunedau lleol a thrigolion ardal y cynllun. Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yng Ngwynedd (gan gynnwys y Parc Cenedlaethol) yn 2023 oedd £1.72 biliwn, gyda dros wyth miliwn o bobl yn ymweld ag ardal y cynllun.[69]

8.3.20 Mae gan Wynedd amrywiaeth o atyniadau i dwristiaid sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol i wella lles economaidd yr ardal. Mae hyn yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, Llwybr Arfordir Cymru, Arfordir Treftadaeth Llŷn, nodweddion hanesyddol unigryw, parciau gwledig, gweithgareddau awyr agored, a rhwydwaith sefydledig o lwybrau cerdded.

[69]Gweler 'Crynodeb Steam 2023', Cyngor Gwynedd (2023), yma.

8.3.21 Tyfodd cyfraniad economaidd y sector twristiaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn yng Ngwynedd rhwng 2017 a 2019[70]. Fodd bynnag, yn 2020 mae data'n awgrymu bod effaith economaidd y sector wedi gostwng dros 57% (Tabl 8-4). Roedd hyn yn cyd-daro â'r pandemig coronafirws a chau busnes a chyfyngiadau symud ysbeidiol. Ers y pandemig, mae'r sector twristiaeth yng Ngwynedd wedi adfer yn gryf, gyda gweithgarwch economaidd yn 2023 yn cynyddu 27.4% o'i gymharu â'r lefelau cyn y pandemig.

Tabl 8-4 Niferoedd twristiaeth Gwynedd o 2017 – 2023

	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023
Effaith Economaidd (biliynau)	£1.06	£1.12	£1.35	£0.575	£1.15	£1.52	£1.72
Nifer yr ymwelwyr sy'n aros (miliynau)	3.53	3.57	3.97	1.55	2.89	4.11	4.07
Nifer yr ymwelwyr dydd (miliynau)	3.75	3.80	3.84	2.07	3.05	3.77	3.95
Swyddi a gefnogir gan dwristiaeth	15,601	15,568	18,244	9,571	14,651	17,737	17,538

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

8.3.22 Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 (MALIC) yn fesur cymharol gyffredinol o amddifadedd, sy'n cyfuno wyth maes gwahanol. O berthnasedd arbennig i'r thema AAS economi a chyflogaeth mae:

- **Cyflogaeth**: y gyfran o'r boblogaeth o oedran gweithio sydd wedi'i heithrio'n anwirfoddol o'r farchnad lafur, gan gynnwys y rhai sydd eisiau gweithio ond na allant;
- **Addysg**: y diffyg cyrhaeddiad yn y boblogaeth; ac
- **Incwm**: cyfran y bobl sy'n profi amddifadedd sy'n gysylltiedig ag incwm isel.

Cyflogaeth

8.3.23 Mae Ffigwr 8.3 yn dangos safle ACEHI Gwynedd ar gyfer y maes cyflogaeth, tra mae Tabl 8-5 drosodd yn rhoi manylion ychwanegol am yr ardaloedd ACEHI yng Ngwynedd sy'n perthyn i'r 50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

[70]Gweler 'Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd' Cyngor Gwynedd (2017) yma.

Tabl 8-5: Ardaloedd ACEHI yng Ngwynedd o fewn 50 y cant yn fwyaf difreintiedig neu'n waeth ar gyfer y maes MALIC Cyflogaeth

Degradd	Mynegeion Mwyaf Difreintiedig
50% Mwyaf Difreintiedig	10
40% Mwyaf Difreintiedig	5
30% Mwyaf Difreintiedig	2
20% Mwyaf Difreintiedig	2
10% Mwyaf Difreintiedig	1
Cyfanswm	20

8.2.24 Ar y cyfan, mae Gwynedd yn perfformio'n ffafriol o ran y maes MALIC cyflogaeth. O ran ACEHI, mae 28% o ACEHI Gwynedd wedi'u rhestru o fewn y 50% o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru a dim ond un ACEHI, Gogledd Marchog, sydd ymhlith y 10% o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae lefelau uwch o amddifadedd fel arfer yn bodoli mewn ardaloedd trefol gyda lefelau is mewn ardaloedd mwy gwledig. Mae'r lefelau uchel o amddifadedd a geir mewn ardaloedd trefol yn awgrymu bod trigolion yr ardaloedd hyn yn cael trafferth gydag allgáu o'r farchnad lafur yng Ngwynedd. Mae ardaloedd o amddifadedd, yn enwedig i'r dwyrain o Fangor ac o fewn Caernarfon, yn bresennol lle nad yw cyfleoedd cyflogaeth mor gryf, neu lle mae pobl yn cael trafferth cael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth[71].

Addysg

8.3.25 Mae **Ffigwr 8-4** yn dangos safle ardaloedd ACEHI Gwynedd ar gyfer y maes addysg, tra mae **Tabl 8-6** yn rhoi mwy o fanylion ar yr ardaloedd ACEHI o fewn Gwynedd sy'n eistedd o fewn 50% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Tabl 8-6: Ardaloedd ACEHI yng Ngwynedd o fewn 50 y cant yn fwyaf difreintiedig neu'n waeth ar gyfer y maes MALIC addysg

Degradd	Mynegeion Mwyaf Difreintiedig
50% Mwyaf Difreintiedig	12
40% Mwyaf Difreintiedig	6
30% Mwyaf Difreintiedig	1
20% Mwyaf Difreintiedig	2
10% Mwyaf Difreintiedig	2
Cyfanswm	23

8.3.26 Yn gyffredinol, mae ychydig dros 32% o ardaloedd ACEHI Gwynedd wedi'u rhestru o fewn y 50% ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru a dim ond dau, De Marchog a Peblig, sydd o fewn y 10% ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae lefelau uwch o amddifadedd fel arfer yn bodoli mewn ardaloedd trefol gyda lefelau is mewn ardaloedd mwy gwledig. Mae'r lefelau

[71]Gweler 'Adroddiad Canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)', Llywodraeth Cymru (2025) yma.

uchel o amddifadedd a geir mewn ardaloedd trefol yn awgrymu bod trigolion yn yr ardaloedd hyn yn cael trafferth gyda diffyg cyrhaeddiad addysgol yn y boblogaeth.

Incwm

8.3.27 Mae Ffigwr 8.5 yn dangos safle ardaloedd ACEHI Gwynedd ar gyfer y maes incwm, tra mae Tabl 8-7 yn rhoi manylion ychwanegol am ardaloedd ACEHI yng Ngwynedd sy'n perthyn i'r 50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Tabl 8-7: Ardaloedd ACEHI yng Ngwynedd o fewn 50 y cant o'r rhai mwyaf difreintiedig neu'n waeth ar gyfer y maes MALIC Incwm

Degradd	Mynegeion Mwyaf Difreintiedig
50% Mwyaf Difreintiedig	10
40% Mwyaf Difreintiedig	8
30% Mwyaf Difreintiedig	6
20% Mwyaf Difreintiedig	0
10% Mwyaf Difreintiedig	3
Cyfanswm	27

8.3.28 O ran ardaloedd ACEHI, mae ychydig dros 38% o ardaloedd ACEHI Gwynedd wedi'u rhestru o fewn y 50% ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru am amddifadedd incwm. Ar ben hynny, dim ond tair, De Marchog, Gogledd Marchog a Pheblig, sydd o fewn y 10% mwyaf difreintiedig ledled Cymru. Mae lefelau uwch o amddifadedd fel arfer yn bodoli mewn ardaloedd trefol gyda lefelau is mewn ardaloedd mwy gwledig. Mae'r lefelau uchel o amddifadedd a geir mewn ardaloedd trefol yn awgrymu bod trigolion yn yr ardaloedd hyn yn cael trafferth gydag amddifadedd sy'n gysylltiedig ag incwm isel.

8.3.29 Dangosodd dadansoddiad o'r data ar draws y tri pharth fod cynrychiolaeth y 10% mwyaf difreintiedig o ardaloedd ACEHI wedi'i grynhoi o fewn dim ond tri ACEHI yn ardal y cynllun: De Marchog, Gogledd Marchog a Pheblig. Mae hyn yn awgrymu, er bod amddifadedd yn bresennol ar draws yr ardal ehangach, mae'r mathau mwyaf acíwt o amddifadedd wedi'u cyfyngu i nifer fach o leoliadau. Mae'r gorgyffwrdd hyn yn dangos cymdogaethau lle gall preswylwyr wynebu rhwystrau rhyng-gysylltiedig ar draws incwm, cyflogaeth ac addysg. Mae ardaloedd o'r fath yn debygol o elwa o ymyriadau strategol sy'n mynd i'r afael â sawl math o amddifadedd ar yr un pryd.



Ffigwr 8-3: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – Degradd Cyflogaeth yng Ngwynedd



Ffigwr 8-4: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – Degradd Addysg yng Ngwynedd



Ffigwr 8-5: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – Degradd Incwm yng Ngwynedd

8.4 Gwaelodlin y dyfodol

8.4.1 Mae rhai sectorau yn fwy agored i effeithiau diweithdra yng Nghymru, gan gynnwys y sectorau mwyngloddio a chwareli a pheirianneg. Mae rhagolygon cyffredinol ar gyfer 2035 yn dangos y bydd nifer y bobl a gyflogir yn y sectorau hyn yng Nghymru yn gostwng 34.4% a 17.3% yn y drefn honno. Mewn cymhariaeth, disgwylir i nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi ym maes iechyd a gwaith cymdeithasol a dŵr a charthffosiaeth gynyddu 17.4% a 16.1% yn y drefn honno.[72]

8.4.2 Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i annog gweithio gartref a gweithio o bell i barhau ar ôl y pandemig yn darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth mewn lleoliadau gwledig a lled-wledig a galw cynyddol posibl am weithfannau hyblyg mewn aneddiadau trefol. Wrth ystyried hyn ochr yn ochr â'r defnydd isel o dir cyflogaeth ers 2022, gall gwaelodlin yr ardal CDLl yn y dyfodol gynnwys gweithlu mwy hybrid.

8.4.3 Yn strategol, bydd Safle Niwclear Trawsfynydd a Chanolfan Awyrofod Eryri ym Mharc Cenedlaethol Eryri gerllaw yn helpu i gyflawni twf economaidd sylweddol sy'n gysylltiedig â hedfan ac ynni nid yn unig yn ardal y CDLl ond hefyd yn Rhanbarth ehangach Gogledd Cymru.

8.4.4 Mae gan ddatblygiad yr Ardal Twf Rhanbarthol a Metro Gogledd Cymru yn benodol y potensial i ddod â newidiadau lleol i'r economi leol a rhanbarthol y gellid eu gwireddu dros gyfnod byr. Rhaid i'r ardal CDLl edrych i drosoli'r asedau hyn i sicrhau creu swyddi parhaus a thwf economaidd cadarnhaol.

8.4.5 Mae twristiaeth yn chwarae rhan sylweddol yn yr economi ar draws ardal y CDLl a Gogledd Cymru yn gyffredinol. Mae cyfleoedd i gefnogi adfywio parhaus cyrchfannau arfordirol ac atyniadau ymwelwyr, ochr yn ochr â datblygu cyfleusterau hamdden awyr agored ac egnïol newydd i sicrhau ehangu'r sector yn barhaus o fewn ardal y CDLl.

8.5 Materion allweddol

8.5.1 Fe wnaeth yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth waelodlin gyfrannu at adnabod nifer o faterion allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Mae lleoliad ardal y CDLl gyda Rhanbarth Economaidd Gogledd Cymru yn rhoi mynediad iddo at fuddsoddiad economaidd, gan gynnwys cyflwyno Metro Gogledd Cymru a fydd yn gwella cysylltedd ledled y rhanbarth. Bydd angen i dwf yn y dyfodol ystyried sut mae anghenion y gymuned yn cyd-fynd ag amcanion datblygu cynaliadwy a newid hinsawdd.
- Mae'r gyfradd gyflogaeth yng Ngwynedd wedi bod yn gyson â chyfradd Cyflogaeth Cymru. Ar ben hynny, mae trigolion sydd â chymhwyster Lefel 4 neu uwch yn is na chyfartaledd Cymru ac mae lefelau uchel o ddiweithdra yn bodoli yn y sir, yn ogystal â lefelau isel o incwm ac

[72]Gweler 'Hanfodion Sgiliau 2035: amcanestyniadau o'r farchnad lafur a sgiliau ar gyfer y Deyrnas Unedig', Llywodraeth Cymru (2025) yma.

amddifadedd addysgol, yn enwedig mewn rhai ardaloedd o fewn canolfannau trefol.

- Mae gan Safle Niwclear Trawsfynydd a Chanolfan Awyrofod Eryri y potensial i gefnogi swyddi a hyfforddiant o ansawdd uchel i drigolion Gwynedd.
- Bydd angen i'r CDLl arfaethedig ystyried sut y gall polisi ddarparu ar gyfer tueddiadau a natur newidiol cyflogaeth a rôl gweithio gartref i sicrhau bod safleoedd cyflogaeth wedi'u diogelu yn cael eu defnyddio.
- Mae gan ardal y CDLl ystod o atyniadau twristiaeth sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol a hanesyddol i wella lles economaidd yr ardal. Bydd yn bwysig i'r CDLl arfaethedig ddefnyddio ei asedau mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau bod lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn y dyfodol ledled cymunedau yn cael ei wella ac uniondeb yr asedau naturiol a hanesyddol yn cael ei gynnal a'i wella lle bo hynny'n bosibl.
- Mae dadansoddiad o'r meysydd MALIC addysg, cyflogaeth ac incwm yn nodi tri ACEHI (De Marchog, Gogledd Marchog a Peblig) ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ar draws y tri pharth. Mae hyn yn awgrymu, er bod amddifadedd yn bodoli'n ehangach ar draws yr ardal, bod yr amddifadedd mwyaf acíwt a rhyng-gysylltiedig wedi'i ganolbwyntio mewn nifer fach o gymdogaethau.

8.6 Amcanion ACI

8.6.1 O ystyried y materion allweddol a drafodwyd uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau amcan ac asesu a ganlyn:

Amcanion ACI	Cwestiynau asesu – a fydd yr opsiwn/cynnig yn helpu i:
Cefnogi economi gynaliadwy, amrywiol a gwydn, gydag ymatebion arloesol i amodau sy'n newid a chefnogaeth i weithlu cryf yn y dyfodol.	• Gwella sgiliau a chymwysterau ymhlith preswylwyr i gefnogi mynediad at swyddi sgiliau uchel? • Diogelu a gwella diwydiannau sefydledig ar draws yr ardal, gan gefnogi gwytnwch economi Gwynedd? • Creu cyfleoedd cyflogaeth amrywiol, â chyflog da, a hygyrch yn lleol ar draws yr ardal? • Cefnogi sectorau twf a mynd i'r afael â bylchau sgiliau presennol ac yn y dyfodol trwy fentrau hyfforddi ac addysg? • Galluogi gweithio hyblyg trwy fuddsoddi mewn seilwaith digidol a gweithfannau addasadwy? • Diogelu a gwella tir cyflogaeth? • Gwella bywiogrwydd a gwytnwch canol trefi a chanolfannau manwerthu, gan gefnogi arallgyfeirio yn unol ag anghenion newidiol? • Cynnal a gwella cyrchfannau twristiaeth presennol? • Annog datblygu cynaliadwy a chyfleusterau o safon i gyfoethogi'r profiad i ymwelwyr a thrigolion?

Amcanion ACI	Cwestiynau asesu – a fydd yr opsiwn/cynnig yn helpu i:
	• Sicrhau bod yr economi yn tyfu mewn ffordd gynaliadwy? • Hyrwyddo Cymru ffyniannus?

9. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad

9.1 Cyflwyniad i'r thema

9.1.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar amddifadedd, anghydraddoldebau troseddu, grwpiau â nodweddion gwarchodedig, a materion cydraddoldeb cysylltiedig.

9.2 Cyd-destun polisi

9.2.1 Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhyngwladol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r thema hon i'w gweld yn Atodiad B. Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhanbarthol a lleol sydd wedi llywio'r sail dystiolaeth wedi'u cynnwys yn **Nhabl 9-1**.

Tabl 9-1: Cynlluniau, polisïau a strategaethau a adolygwyd mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad

Teitl y ddogfen	Blwyddyn cyhoeddi
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028	2024
Cynllun Cyngor Gwynedd	2023
Cynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru	2023
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd	2017

9.3 Crynodeb gwaelodlin

Cymunedau

9.3.1 Mae Gwynedd yn cael ei hystyried yn ardal ddeniadol a diogel i fyw a gweithio, fodd bynnag, mae pocedi o dlodi ac amddifadedd yn bodoli. Mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu drwy MALIC 2025. Mae'r MALIC yn ystadegyn

cenedlaethol sydd wedi'i gynllunio i nodi'r ardaloedd bach yng Nghymru sydd fwyaf difreintiedig.[73]

9.3.2 Mae 71 ardal ACEHI yng Ngwynedd, fel y dangosir yn Ffigwr 9-1 isod, sy'n mapio prif ddata diweddaraf MALIC (2025). Mae tua hanner ardaloedd ACEHI Gwynedd yn perthyn i'r 50% o ardaloedd ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru gyfan. Mae'n werth nodi yma mai dim ond 3 ACEHI yng Ngwynedd (De Marchog, Gogledd Marchog a Pheblig) sy'n cael eu hystyried ymhlith y 10% o gymdogaethau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sy'n awgrymu bod amddifadedd eithafol yn lleol ac nad yw'n gyffredin ledled ardal y cynllun.

Troseddu a Diogelwch Cymunedol

9.3.3 Mae cyfradd y troseddau a adroddwyd yng Ngwynedd wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, fel y dangosir yn Nhabl 9-2.

Tabl 9-2: Gwynedd – Cyfartaledd troseddau a gyflawnwyd fesul mis 2015 – 2025[74]

Blwyddyn	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025
Troseddau a adroddwyd	811	778	841	865	970	927	938	989	891	863	850

9.3.4 Yn ôl data o fis Tachwedd 2022, yng Ngwynedd roedd y nifer fwyaf o droseddau yn dreisgar (323), ac yna ymddygiad gwrthgymdeithasol (158), dwyn mewn siopau (62) a difrod troseddol a llosgi bwriadol (62).

9.3.5 Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2020/21, mae 80% o drigolion Gwynedd yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu[75]. Dyma'r ganran uchaf ar y cyd o holl siroedd Cymru.

Diogelwch Cymunedol

9.3.6 Mae dangosydd diogelwch cymunedol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 (MALIC) yn ystyried amddifadedd sy'n gysylltiedig â byw mewn cymuned ddiogel. Mae'n ymdrin â phrofiad gwirioneddol o droseddu, yn ogystal â chanfyddiadau o ddiogelwch tra allan yn yr ardal leol.

9.3.7 Mae **Ffigwr 9.2** yn dangos safle ACEHI Gwynedd ar gyfer y maes diogelwch cymunedol, tra mae **Tabl 9-3** yn rhoi mwy o fanylion ar yr ardaloedd ACEHI o fewn Gwynedd sy'n eistedd o fewn 50% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Tabl 9-3: Ardaloedd ACEHI yng Ngwynedd o fewn 50 y cant yn fwyaf difreintiedig neu'n waeth ar gyfer y parth MALIC Diogelwch Cymunedol

Degradd	Mynegeion Mwyaf Difreintiedig
50% Mwyaf Difreintiedig	11

[73]Gweler 'Adroddiad technegol 2025 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)', Llywodraeth Cymru (2025) yma.
[74]Gweler 'UK Crime Stats', Heddlu Gogledd Cymru yma.
[75]Gweler 'Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol?', Llywodraeth Cymru (2023) yma.

Degradd	Mynegeion Mwyaf Difreintiedig
40% Mwyaf Difreintiedig	7
30% Mwyaf Difreintiedig	5
20% Mwyaf Difreintiedig	5
10% Mwyaf Difreintiedig	5
Cyfanswm	33

9.3.8 O ran ardaloedd ACEHI, mae ychydig dros 46% o ardaloedd ACEHI Gwynedd wedi'u rhestru o fewn y 50% o ardaloedd ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer diogelwch cymunedol. Mae cyfanswm o 33 ACEHI yn dod o fewn y categori hwn, gan gynnwys pum ACEHI sydd wedi'u rhestru o fewn y 10% mwyaf difreintiedig yn genedlaethol. Mae lefelau uwch o amddifadedd diogelwch cymunedol wedi'u crynhoi mewn ardaloedd trefol o amgylch rhannau o Fangor, Caernarfon, Pwllheli a Blaenau Ffestiniog, tra bod mwy o ardaloedd gwledig a'r rhai ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn gyffredinol yn arddangos lefelau is o amddifadedd sy'n gysylltiedig â diogelwch cymunedol.

Data cydraddoldeb

9.3.9 Nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw ac oedran.

Beichiogrwydd

9.3.10 Mewn perthynas â beichiogrwydd a mamolaeth, mae data cenedlaethol diweddar yn dangos bod 26,944 o enedigaethau wedi'u cofnodi yng Nghymru yn 2024, sy'n cynrychioli'r nifer isaf o enedigaethau ers 1929. O'r 26,944 o enedigaethau, roedd 55% i famau 30 oed a hŷn. Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, roedd nifer y mamau sy'n rhoi genedigaeth 35-39 oed yn fwy na'r rhai 20-24 oed.[76]

9.3.11 Yn 2024, y gyfradd ffrwythlondeb yng Ngwynedd oedd 1.29 o blant fesul menyw, yr isaf yn rhanbarth Gogledd Cymru.[77]

Priodas a phartneriaeth sifil

9.3.12 Gan adlewyrchu data Trefniadau Byw, yn 2021 cofnododd 41.2% o bobl dros 16 oed sy'n byw yng Ngwynedd eu bod yn briod.[78] Mae hyn yn ostyngiad o'r 43.9% a gofnodwyd yn 2011.[79] Cofnododd 40.1% o bobl yn 2021 nad ydynt erioed wedi bod yn briod nac wedi cofrestru partneriaeth sifil o'i gymharu â 36.4% yn 2011.[80] Yng Nghymru yn 2021, roedd 43.8% o'r holl breswylwyr dros 16 oed yn briod neu mewn partneriaeth sifil a chofnodwyd bod 37.2% yn sengl (erioed wedi priodi nac wedi cofrestru partneriaeth sifil).

[76]Gweler 'Ystadegau Mamolaeth a genedigaethau: 2024', Llywodraeth Cymru (2025) yma.
[77]Gweler 'Births in England and Wales: 2024', Swyddfa Ystadegau Gwladol yma.
[78]Nomis: '*Gweler Gwynedd Local Authority*' (2022) yma.
[79]Gweler 'Cyfrifiad 2011 - Ystadegau ar gyfer Gwynedd', Cyngor Gwynedd (2013) yma.
[80]Ibid.

Dosbarthiad oedran

9.3.13 Mae data nodweddion oedran a gymerwyd o Gyfrifiad 2021 yn dangos poblogaeth sy'n heneiddio ledled Cymru. Rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021 mae pob ardal Awdurdod Lleol ledled Cymru wedi cofnodi twf yn y boblogaeth o gategorïau oedran hŷn (65+). Mae Gwynedd yn dilyn y duedd genedlaethol hon, gyda thwf yn y boblogaeth yn y grwpiau oedran 65 i 74, 75 i 84 ac 85 a throsodd rhwng 2001 a 2011.[81]

9.3.14 Yn ôl amcangyfrifon canol blwyddyn 2025,[82] Mae gan Wynedd boblogaeth o tua 120,295. O'r rhain, mae 15.3% rhwng 0 a 15 oed, 60.8% rhwng 16 a 64 oed, a 23.9% yn 65 oed a hŷn. Mae'r ffigwr ar gyfer y grŵp oedran olaf yn uwch o gyfartaledd Cymru, sef 22.2%, sy'n dangos bod gan Wynedd boblogaeth fwy o bobl hŷn o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Mae'n werth nodi bod y ffigyrau hyn yn cwmpasu'r sir gyfan, nid dim ond ardal y CDLI.

Rhyw

9.3.15 Fel y nodir uchod ym **Mhennod 7**, yn 2023[83] amcangyfrifwyd bod ychydig yn fwy o fenywod (60,600 sy'n cyfateb i 50.8%) na dynion (58,600 (sy'n cyfateb i 49.2%) yn byw yng Ngwynedd. Mae hyn yn cymharu â 50.9% o fenywod a 49.1% o ddynion yng Nghymru gyfan.

Cyfeiriadedd rhywiol

9.3.16 Yn 2021, mae 2.5% o drigolion yng Ngogledd Cymru yn uniaethu â'r gymuned LHD+ (Hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu eraill). Gwynedd sydd â'r ganran uchaf o drigolion sy'n uniaethu â'r gymuned LHDTC+ allan o holl Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru (3.22%).[84]

9.3.17 Cofnododd ystadegau troseddau casineb cenedlaethol Cymru a Lloegr (2021-2022), a gyhoeddwyd yn 2022, gynnydd o 35% mewn troseddau casineb ledled Cymru o'i gymharu â 2020-2021, gyda chyfanswm o 6,295 o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi. O'r rhain, roedd 21% (1,329) yn droseddau casineb cyfeiriadedd rhywiol a 4% (247) yn droseddau casineb trawsryweddol. Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, cynyddodd troseddau casineb cyfeiriadedd rhywiol 50%, tra bod troseddau casineb trawsryweddol wedi cynyddu 43%.[85]

Hil

9.3.18 Mae data o Gyfrifiad 2021 (Tabl 9-4) yn dangos bod Gwynedd yn Wyn yn ethnig yn bennaf (96.3%). Pobl Asiaidd yw'r ail grŵp ethnig mwyaf, gan gyfrif am 1.7% o'r boblogaeth, mae 1.1% arall o'r boblogaeth yn grwpiau ethnig cymysg neu luosog ac mae 0.4% o'r boblogaeth yn Ddu.

9.3.19 O ran Cymru gyfan, mae 93.8% yn nodi eu bod yn Wyn, 3% yn Asiaidd, 1.6% o'r rhai sy'n cael eu nodi fel grwpiau ethnig cymysg neu luosog, ac mae 0.9% o'r boblogaeth yn Ddu.

Tabl 9-4: Pobl yn ôl grŵp ethnig, ar gyfer Cymru a Gwynedd (%).[86]

[81]Gweler 'Y boblogaeth breswyl arferol yn ôl oedran ac awdurdod lleol' yma .
[82] Gweler 'Dwysedd poblogaeth yn ôl awdurdod lleol', StatsWales (2025) yma.
[83]Gweler 'Proffiliau ardal Gogledd Cymru 2024', Cydweithredfa Gogledd Cymru (2024) yma.
[84]Gweler 'Census maps - sexual orientation', Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) yma.
[85]Gweler 'Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru', Llywodraeth Cymru (2023) yma.
[86] Gweler '*People by ethnic group Wales and local authorities*', StatsWales (2021) yma.

	Gwynedd	Cymru
Asiaidd	1.7	3
Du	0.4	0.9
Cymysg	1.1	1.6
Gwyn	96.3	93.8
Arall	0.5	0.9

Crefydd

9.3.20 Mae Tabl 9-5 yn dangos mai Cristnogaeth yw'r cysylltiad crefyddol mwyaf yng Ngwynedd a Chymru o hyd, gan gyfrif am 46.2% a 43.6% o'r boblogaeth yn y drefn honno. Mae gan Wynedd gyfran ychydig yn is o bobl nad ydynt yn adrodd unrhyw grefydd (44.2%) na Chymru gyfan (46.5%). Mae crefyddau lleiafrifol yn cyfrif am gyfran gymharol fach yn y ddwy ardal, er bod cyfran y Moslemiaid yn is yng Ngwynedd (1.0%) nag ar draws Cymru gyfan (2.2%). Ar y cyfan, mae proffil crefyddol Gwynedd yn debyg i broffil Cymru. Nodir bod mwy o bobl yn ymateb 'dim crefydd' yng Nghymru o'i gymharu ag ystadegau gwledydd eraill.

Tabl 9-5: Hunaniaeth grefyddol yn 2021 yng Ngwynedd a Chymru (%)[87]

	Gwynedd	Cymru
Cristion	46.2	43.6
Bwdist	0.4	0.3
Hindŵ	0.2	0.4
Iddew	0.1	0.1
Mwslim	1.0	2.2
Siciaid	0	0.1
Crefydd arall	0.7	0.4
Dim crefydd	44.2	46.5
Heb nodi crefydd	7.6	6.4

Anabledd[88]

9.3.21 Yn ôl y data Nomis diweddaraf, mae 9,805 o bobl yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yng Ngwynedd[89]. Mae'n bwysig cofio bod hyn yn cynnwys trigolion sy'n byw yn y parc cenedlaethol ac felly disgwylir i'r ffigwr gwirioneddol fod ychydig yn llai.

[87]Gweler 'Census maps - religion', Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) yma.
[88]Gweler 'Asesiad Anghenion Poblogaeth Oedolion Gwynedd 2022-2027', Cyngor Gwynedd (2022), yma.
[89]Gweler 'Gwynedd Local Authority', Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) yma.

9.3.22 Mae Asesiad Anghenion Poblogaeth Oedolion Gwynedd yn nodi bod 20 o unigolion yng Ngwynedd yn byw gydag anableddau corfforol mewn cartrefi preswyl / nyrsio yn 2021 ac roedd 12 o'r unigolion hyn mewn lleoliadau y tu allan i'r sir. Yn lleol, nid oes digon o leoliadau preswyl/nyrsio i ddiwallu anghenion unigolion ag anableddau corfforol.

9.3.23 Mae 596 o unigolion ar y Gofrestr Anabledd Dysgu yng Ngwynedd (Medi 2022). Mae'r nifer hwn wedi cynyddu 9% ers (543 o unigolion) 2012. Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn yn llai na Chymru gyfan, a welodd gynnydd o 14% yn yr un cyfnod amser.

9.3.24 Yn 2022, roedd 75 o unigolion dros 65 oed ar y Gofrestr Anabledd Dysgu. Mae'r nifer hwn yn cynyddu wrth i bobl hŷn ag anableddau dysgu fyw am gyfnod hirach. Mae'r rhai sydd ag anabledd dysgu hefyd yn fwy tebygol o ddatblygu salwch sy'n gysylltiedig ag oedran.



Ffigwr 9-1: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – Degradd Cyffredinol yng Ngwynedd



Ffigwr 9-2: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – Degradd Diogelwch Cymunedol yng Ngwynedd

9.4 Gwaelodlin y dyfodol

9.4.1 Mae adfywio economaidd, ochr yn ochr ag adfywio cymunedol, yn ffactorau allweddol a all drawsnewid cymdogaethau lleol a bywydau pobl leol. Dylai datblygiadau newydd ledled ardal y CDLl felly ganolbwyntio ar leihau'r bwlch rhwng yr ardaloedd lleiaf a mwyaf cyfoethog, trwy fynd i'r afael â meysydd gweithgarwch bob dydd gan gynnwys cyflogaeth, iechyd, tai, addysg, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd. Ar ben hynny, cydnabyddir bod gan Wynedd boblogaeth sy'n heneiddio, ac felly bydd yn bwysig sicrhau bod gwasanaethau yn gallu diwallu anghenion newidiol y boblogaeth wrth iddynt dyfu'n hŷn.

9.4.2 Heb fabwysiadu'r CDLl, mae'n debygol y bydd tueddiadau cymdeithasol a chydraddoldeb presennol yng Ngwynedd yn parhau. Byddai disgwyl i bocedi o amddifadedd a nodwyd trwy MALIC 2025 barhau, gyda sgôp cyfyngedig ar gyfer ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Yn absenoldeb polisi cynllunio wedi'i ddiweddaru, efallai y bydd cyfleoedd i gefnogi cymunedau cynhwysol a mynd i'r afael ag amddifadedd yn ardal y CDLl yn cael eu colli.

9.4.3 Mae tueddiadau demograffig yn dangos poblogaeth sy'n heneiddio gyda thwf parhaus yng nghyfran y trigolion 65 oed a throsodd a chyfrannau cymharol is o grwpiau oedran iau. Mae cyfraddau ffrwythlondeb yng Ngwynedd yn isel o'i gymharu â'r rhanbarth ehangach, ac mae cyfraddau priodasau wedi gostwng rhwng 2011 a 2021, sy'n awgrymu newid strwythurau aelwydydd yng Ngwynedd yn y dyfodol. Disgwylir i'r galw am ddarpariaeth arbenigol, gan gynnwys gwasanaethau i bobl hŷn ac unigolion ag anableddau dysgu gynyddu dros amser, a allai waethygu'r cyfyngiadau capasiti presennol mewn cyfleusterau preswyl a gofal lleol.

9.5 Materion allweddol

9.5.1 Fe wnaeth yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth waelodlin gyfrannu at adnabod nifer o faterion allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Mae canfyddiadau Asesiad Llesiant Gwynedd yn dangos yr ystod eang o ffactorau sy'n cyfrannu at greu'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yng Ngwynedd a'r ffactorau cymhleth a rhyng-gysylltiedig sydd i gyd yn cyfrannu at les tlotach mewn ardaloedd difreintiedig. Bydd yn bwysig i'r CDLl gymryd agwedd gyfannol at wella llesiant o fewn cymunedau mwy difreintiedig yr awdurdod, hyrwyddo, cryfhau a gwella hunaniaeth ddiwylliannol yn unol ag amcanion cenedlaethol.
- Mae Gwynedd yn arddangos amrywiaeth economaidd-gymdeithasol sylweddol sy'n cynnwys cymysgedd o gymunedau cyfoethog a difreintiedig. Mae tair o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru o fewn Gwynedd fel y dangosir yn MALIC diweddaraf Cymru 2025. Gall y CDLl edrych i fynd i'r afael â'r amddifadedd hwn trwy ymyrraeth wedi'i dargedu at yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y sir.
- Er bod Gwynedd yn profi lefelau troseddu cyffredinol cymharol isel a bod trigolion yn gyffredinol yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel, mae pocedi

o amddifadedd diogelwch cymunedol o hyd mewn nifer o aneddiadau trefol gan gynnwys Bangor, Caernarfon, Pwllheli a Blaenau Ffestiniog.

- Dim ond cyfran fach o drigolion sydd o fewn grwpiau ethnig, hiliol a chrefyddol lleiafrifol.
- Mae gan Wynedd boblogaeth sy'n heneiddio, ac felly bydd yn bwysig sicrhau y gall cynigion datblygu yn y dyfodol o fewn y CDLl newydd a darpariaeth gwasanaethau ddiwallu anghenion newidiol y boblogaeth wrth iddynt dyfu'n hŷn.

9.6 Amcanion ACI

9.6.1 O ystyried y materion allweddol a drafodwyd uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau amcan ac asesu a ganlyn:

Amcanion ACI	Cwestiynau asesu – a fydd yr opsiwn/cynnig yn helpu i:
Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb; mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol.	• Lleihau anghydraddoldebau ac amddifadedd ar draws ardal y CDLl, yn enwedig yn y wardiau mwyaf difreintiedig ac ardaloedd cudd o amddifadedd? • Gwella cyfle cyfartal ymhlith y grwpiau cymdeithasol hynny sydd fwyaf mewn angen? • Cyfrannu at leihau troseddu ac anhrefn cymdeithasol ac ofn troseddu, gan hyrwyddo cymdogaethau mwy diogel? • Hyrwyddo, cryfhau a gwella egwyddorion creu lleoedd? • Diogelu a darparu gwell cyfleusterau lleol, cymdeithasol, hamdden a hamdden a mynediad i'r amgylchedd naturiol ar gyfer pob sector o'r gymuned, a gwella mynediad atynt er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol a lles cymdeithasol? • Cefnogi'r boblogaeth sy'n heneiddio i sicrhau nad ydynt yn cael eu heithrio'n gymdeithasol? • Sicrhau bod darpariaeth ddigonol o gyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer grwpiau lleiafrifol?

10. Iechyd a Llesiant

10.1 Cyflwyniad i'r thema

10.1.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar iechyd cyffredinol y boblogaeth yn ardal y CDLl, yn ogystal â mynediad at fannau agored a chyfleusterau chwarae, cyfleusterau gofal iechyd a theithio llesol.

10.1.2 Mae'r dull yn ystyried iechyd fel un sy'n cwmpasu iechyd corfforol a meddyliol. Mae amrywiaeth o ffactorau (neu benderfynyddion) yn dylanwadu ar iechyd, sy'n rhychwantu dimensiynau amgylcheddol, cymdeithasol, ymddygiadol, economaidd a sefydliadol. Er bod y bennod hon yn canolbwyntio ar gyflwyno gwaelodlin iechyd y boblogaeth, mae'n tynnu ar yr asesiadau a nodir mewn penodau eraill sy'n berthnasol i iechyd.

10.2 Cyd-destun polisi

10.2.1 Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhyngwladol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r thema hon yn Atodiad B. Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhanbarthol a lleol sydd wedi llywio'r sail dystiolaeth wedi'u cynnwys yn Tabl 10-1

Tabl 10-1: Cynlluniau, polisïau a strategaethau wedi'u hadolygu mewn perthynas ag iechyd a lles

Teitl y ddogfen	Blwyddyn cyhoeddi
Cynllun Cyngor Gwynedd	2023
Cynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru	2023
Asesiad Llesiant Gwynedd	2022
Asesiad o Anghenion Poblogaeth Oedolion Gwynedd 2022-2027	2022
Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru	2022
Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru	2021
Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn	2018
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru)	2017
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd	2017

10.3 Crynodeb gwaelodlin

Iechyd cyffredinol

10.3.1 Mae'r tueddiadau canlynol wedi'u nodi mewn perthynas ag iechyd cyffredinol yng Ngwynedd yn 2021.

- Ar gyfer dynion a menywod, mae gan Wynedd ddisgwyliad oes uwch na chyfartaledd Cymru.
- Mae disgwyliad oes iach i ddynion a menywod hefyd yn uwch na Chymru gyfan.
- Mae dangosyddion data MALIC o 2025 yn dangos bod diagnosis cyflwr cronig a gofnodwyd gan feddyg teulu (canran fesul 100) yng Ngwynedd yn 14.1. Dyma'r 5ed isaf o holl Awdurdodau Lleol Cymru. [90]
- Mae anghydraddoldebau iechyd rhwng y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig a'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Ngwynedd.
- Yn ôl Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017-2020), mae gan bron i 38% o oedolion rhwng 16 a 64 oed bwysau iach yng Ngwynedd, mae'r ffigwr hwn yn debyg i ffigwr Cymru gyfan.
- Mae trigolion 16 oed a throsodd yng Ngwynedd yn gyffredinol yn cymryd rhan mewn ymddygiadau iach uwchlaw cyfartaledd Cymru. Mae canran y trigolion sy'n ysmygu (11%) neu'n yfed mwy o alcohol na'r canllaw (16%) yn y sir ill dau yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan, lle mae 17% o bobl yn ysmygu a 19% yn yfed mwy o alcohol na'r canllaw.
- Mae iechyd meddwl yn rhan bwysig o les, mae data o MALIC 2025 yn dangos bod diagnosis cyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddyg teulu (fesul 100 o bobl) yn 23.6 o bobl. Mae'r ffigwr hwn wedi codi o 20.3 yn 2019, er ei fod yn dal i fod yn un o'r isaf allan o holl Awdurdodau Lleol Cymru.[91]
- Mae Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru (2022) yn nodi bod rhai grwpiau poblogaeth mewn perygl uwch nag eraill. Mae'n tynnu sylw at y ffaith bod tri chwarter y marwolaethau hunanladdiad yn 2020 yn ddynion. Mae'r asesiad hefyd yn nodi ffermwyr fel grŵp risg arbennig o uchel, sy'n arbennig o arwyddocaol o ystyried yr achosion uchel o gymunedau gwledig ledled Gwynedd.
- Mae lles meddyliol yn y gymuned hefyd wedi'i asesu gan ddefnyddio Graddfa Lles Meddyliol Warwick-Caeredin, gyda data wedi'i dynnu o'r arolwg cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae'r raddfa yn aseinio sgoriau rhwng 14 a 70, gyda sgoriau uwch yn dangos lles meddyliol mwy cadarnhaol. Yng Ngwynedd, y sgôr gyfartalog oedd 52.9 yn 2018, yn gymharol uwch na chyfartaledd Cymru o 51.4.
- Mae amcanestyniadau ar gyfer achosion iechyd meddwl yng Ngwynedd yn y dyfodol yn rhagweld gostyngiad cyffredinol yng nghanran y boblogaeth sydd â phroblem iechyd meddwl, o 14% yn 2020 i 13% yn 2040.[92]

[90]Gweler 'Parth Iechyd MALIC', Llywodraeth Cymru (2025) yma.
[91]Ibid
[92]Gweler 'Asesiad Anghenion Poblogaeth', Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (2022) yma.

- Mae gordewdra yn gysylltiedig ag anfanteision cymdeithasol ac iechyd, gyda lefelau uwch yn y poblogaethau mwyaf difreintiedig. Mae data o 2020 yn dangos bod 57% o'r boblogaeth oedolion yng Ngwynedd dros bwysau neu'n ordew.[93] Yn nodedig, mae nifer y preswylwyr sydd dros bwysau yn un o'r uchaf yng Ngogledd Cymru, tra bod nifer y preswylwyr sy'n ordew yr isaf yng Ngogledd Cymru.
- Mae gan Wynedd gyfradd uchel o ordewdra plentyndod mewn cyd-destun rhanbarthol, sef 31% o blant 4-5 oed yn cael eu dosbarthu fel rhai dros bwysau neu'n ordew.
- Disgwylir i nifer y bobl dros 65 oed sydd â dementia yng Ngwynedd gynyddu o 2,015 yn 2020 i 3,085 yn 2040, sy'n gynnydd o 34% mewn ugain mlynedd.[94]

Cyfleusterau gofal iechyd

10.3.2 O fewn Ardaloedd Llesiant Gwynedd yn 2020/2021, roedd amser ymateb ambiwlans ar gyfartaledd ar gyfer galwad 'coch' yn amrywiol. Roedd yr amseroedd ymateb isaf yn Ardal Llesiant Bangor (06:32 munud) a'r hiraf yn Ardal Llesiant y Bala (14:32 munud).[95]

10.3.3 Mae pum ysbyty ac 16 o feddygfeydd meddygon teulu wedi'u lleoli yng Ngwynedd, fel y dangosir gan Ffigwr 10.2. Mae pedwar o'r rhain yn rhan ogleddol Gwynedd, gyda'r un sy'n weddill wedi'i leoli yn Nhywyn.

10.3.4 Mae data o MALIC 2025 yn dangos bod mynediad at wasanaethau meddygon teulu yn fwy cyfyngedig yng Ngwynedd na Chymru gyfan[96]. Yr amser cyfartalog o ddychwelyd o feddygfa ar drafnidiaeth gyhoeddus oedd 70.5 munud yng Ngwynedd, o'i gymharu â 49.1 munud ledled Cymru. Yn yr un modd, yr amser teithio dychwelyd ar gyfartaledd ar drafnidiaeth breifat oedd 10.7 munud yng Ngwynedd, o'i gymharu ag 8.15 munud yn genedlaethol. Gall amseroedd teithio hirach greu rhwystrau i gael mynediad at ofal iechyd, yn enwedig i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, pobl hŷn, pobl anabl, a'r rhai sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus. O ganlyniad, gall y grwpiau hyn gael mwy o anhawster i gael mynediad at wasanaethau meddygon teulu.

Mannau agored a chyfleusterau chwarae

10.3.5 Gall mynediad at fannau agored fod â manteision meddyliol a chorfforol. Gall ardaloedd â diffyg mynediad felly arwain at boblogaeth nad yw'n cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol anffurfiol ochr yn ochr ag effeithiau eilaidd eraill sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb amgylcheddol. Yn hyn o beth, mae'r CDLl ar y Cyd a fabwysiadwyd yn cynnwys polisïau sydd â'r nod o gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer a diogelu mannau agored presennol.

10.3.6 Ymhlith y ddarpariaeth o fannau agored a chyfleusterau chwarae yn ardal y CDLl mae: Parc Glynllifon, Parc Gwledig Padarn, wyth GNLl, dros 50 cilomedr o lwybrau hamdden, pedwar coetir a reolir gan y cyngor, tirwedd genedlaethol Llŷn, Llwybr Arfordir Cymru, rhwydwaith o Hawliau Tramwy Cyhoeddus, a

[93]Ibid.
[94]Gweler 'Asesiad o Anghenion Poblogaeth Oedolion Gwynedd', Cyngor Gwynedd (2022) yma.
[95]Gweler 'Asesiad Llesiant Gwynedd' (2022), Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yma.
[96]Gweler 'MALIC2025: indicator data by ACHI and local authority', Stats Wales (dim dyddiad) yma.

rhestr hir o gaeau chwarae a mannau agored wedi'u gwasgaru ledled ardal y cynllun.

10.3.7 Er gwaethaf argaeledd cyfleusterau chwarae a mannau agored ledled Gwynedd, mae'r amser teithio cyhoeddus a phreifat yn ôl i gyfleuster chwaraeon yn uwch yng Ngwynedd na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan, gydag amser cyfartalog o 71 munud a 12 munud o'i gymharu â 55 munud a 10 munud yn y drefn honno.[97]

10.3.8 Yn nodedig, a ddynodwyd yn Barc Gwledig ym 1970, mae Parc Gwledig Padarn yn gyfoethog mewn treftadaeth hanesyddol ac amgylcheddol ac mae wedi bod yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru ers ei ddynodi yn 2021. Mae Parc Gwledig Padarn yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd hamdden ac addysg o fewn 30 munud mewn car o Fangor.

10.3.9 Mae Tirwedd Genedlaethol Llŷn yn cwmpasu bron i 100 milltir o arfordir ac mae'n arfordirol yn bennaf, tra hefyd yn ymestyn i mewn i'r tir i gynnwys copaon folcanig fel Garn Fadrun a Garn Boduan. Wedi'i ddynodi ym 1957, mae'r ardal yn cael ei chydnabod am ei harddwch naturiol eithriadol a'r angen i warchod a gwella ei thirwedd unigryw. Mae'r Cynllun Rheoli diweddaraf, sy'n cwmpasu'r cyfnod 2015-2020, yn nodi ystod o risgiau a phwysau allweddol sy'n effeithio ar y Dirwedd Genedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau newid hinsawdd, datblygiad amhriodol, tanau rhostir heb eu rheoli, pwysau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, darnio cynefinoedd a phwysau economaidd-gymdeithasol ehangach sy'n wynebu cymunedau lleol.[98]

Teithio llesol

10.3.10 Yn ogystal â chynnal y rhwydwaith teithio llesol presennol, mae Cyngor Gwynedd yn ceisio'n weithredol gyflwyno llwybrau teithio llesol newydd i hwyluso teithio mwy llesol o fewn cymunedau yn ardal y cynllun[99].

10.3.11 Cynyddodd nifer yr aelwydydd sy'n berchen ar o leiaf un car neu fan rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021. Er gwaethaf hyn, gostyngodd cyfran y boblogaeth sy'n cymudo gan ddefnyddio car neu fan o 70.4% i 61.35%. Dros yr un cyfnod, cynyddodd cyfran y preswylwyr sy'n gweithio gartref neu gartref yn bennaf o 6.85% i 22.51%[100]. Fodd bynnag, cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod cyfyngiadau COVID-19 pan oedd llawer o bobl yn gweithio gartref. Gallai'r gostyngiad mewn cymudo ceir felly adlewyrchu amodau pandemig dros dro yn hytrach na newid parhaol mewn ymddygiad teithio.

10.3.12 Mae Cynllun Gweithredu Teithio Llesol Llywodraeth Cymru i Gymru (2016)[101] yn nodi'r weledigaeth: "I bobl yng Nghymru, rydyn ni eisiau i gerdded a beicio fod y ffyrdd a ffafrir o symud o gwmpas dros bellteroedd byrrach".

[97]Gweler 'Asesiad Llesiant Gwynedd' (2022), Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yma.
[98]Gweler 'Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llyn', Cyfoeth Naturiol Cymru (2015) yma.
[99]Gweler 'Teithio Llesol', Cyngor Gwynedd (dim dyddiad) yma.
[100]Gweler '7fed Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026', Cyngor Gwynedd (2025), yma.
[101]Gweler 'Cynllun Gweithredu Teithio Llesol i Gymru', Llywodraeth Cymru (2016) yma.



Ffigwr 10-1: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – Degradd Iechyd yng Ngwynedd



Ffigwr 10-2: Ysbytai yn ardal CDLI Gwynedd

10.4 Gwaelodlin y dyfodol

10.4.1 Mae poblogaeth Gwynedd yn gyffredinol yn dangos lefel dda o iechyd, gyda disgwyl i'r nifer o gyflyrau iechyd meddwl ostwng erbyn 2040. Er gwaethaf hyn, mae canran uwch o'r boblogaeth dros bwysau neu'n ordew a allai gael goblygiadau iechyd i'r boblogaeth yn y dyfodol o ystyried y cysylltiad rhwng gordewdra a chyflyrau iechyd meddwl a chorfforol.

10.4.2 Mae canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol yn cael eu llunio gan ystod eang o benderfynyddion unigol ac amgylcheddol, felly mae'r waelodlin hirdymor yn y dyfodol ar gyfer poblogaeth Gwynedd yn ansicr iawn. Fodd bynnag, fel y nodir ym Mhennod 7, rhagwelir y bydd poblogaeth y sir yn tyfu dros gyfnod y cynllun, gyda'r cynnydd mwyaf ymhlith trigolion 65 oed a hŷn. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn debygol o gynyddu'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, tai hygyrch a chyfleusterau cymunedol. Heb CDLl cyfredol, mae datblygiad newydd yn llai tebygol o gynllunio ar gyfer anghenion penodol poblogaeth sy'n heneiddio mewn lleoliadau addas. Gallai hyn roi pwysau cynyddol ar wasanaethau presennol, yn enwedig mewn rhannau mwy gwledig o'r sir, a gallai ehangu anghydraddoldebau iechyd presennol.

10.4.3 Heb CDLl newydd, mae newid cadarnhaol i iechyd a lles yng Ngwynedd yn dal i fod yn debygol o ddod ymlaen. Byddai polisi a deddfwriaeth genedlaethol yn parhau i gefnogi mynediad at fannau gwyrdd, diogelu a gwella seilwaith gwyrdd, ehangu rhwydweithiau teithio llesol a darparu cyfleusterau cymunedol. Fodd bynnag, heb CDLl cyfoes, mae gwelliannau yn llai tebygol o fod wedi'u lleoli'n strategol i wneud y mwyaf o fanteision i'r cymunedau sydd eu hangen fwyaf.

10.5 Materion allweddol

10.5.1 Mae'r adolygiad cyd-destunol a'r wybodaeth sylfaenol yn llywio nodi sawl mater allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Mae iechyd cyffredinol trigolion Gwynedd yn dda. Mae oedolion yn mwynhau disgwyliad oes hirach o'u cymharu â Chymru gyfan ar gyfer dynion a menywod.
Enw’r ATA	Angen	Rhinweddau arbennig	Gwerthusiad cyffredinol gweledol a synhwyraidd
	drafnidiaeth ffyrdd cysylltiedig), yn enwedig o amgylch Llanberis, y dref sy'n gweithredu fel adwy, ynghyd ag isadeiledd ar raddfa fawr sy'n cynnwys mastiau a pheilonau.	Lleiniau gwerthfawr o gynefinoedd lled-naturiol (gan gynnwys gweirdiroedd asidig, prysgdiroedd gwlyb a choetiroedd derw) gan gynnwys rhannau o SoDdGA ac ATA Eryri, SoDdGA Llyn Padarn, SoDdGA/GNLl Coed Dinorwig a SoDdGA Moel Tryfan. Arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol y dirwedd, yn enwedig ei hetifeddiaeth chwarelyddol yn Nhirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Ogwen, Dinorwig a Dyffryn Nantlle. Mae'r dirwedd yn gweithredu fel cefndir pell i Dirweddau Cenedlaethol Llŷn ac Ynys Môn. Y berthynas ddiwylliannol a weledol gref rhwng yr ATA a Pharc Cenedlaethol Eryri.	
Cefnwlad y Bala (a enwyd yn flaenorol ym Mhenllyn yn asesiad LUC)	Mae'r ATA yn darparu swyddogaeth bwysig fel gosodiad i Eryri ac fel 'adwy' wledig i'r Parc Cenedlaethol o'r dwyrain. Oherwydd ei lleoliad y tu allan i'r dirwedd warchodedig a'i hagosrwydd at anheddiad y Bala, mae'r ATA o dan	Cymeriad agos, llonydd a gwledig y tirlun. Safle uwch ac agored ardaloedd yr ucheldir - yn creu rhyngwelededd cryf ar draws y tirlun, yn cynnwys gyda Pharc Cenedlaethol Eryri.	Cymedrol i uchel

Enw’r ATA	Angen	Rhinweddau arbennig	Gwerthusiad cyffredinol gweledol a synhwyraidd
	bwysau o ddatblygu cynyddol ar hyd gorlifdir dyffryn yr afon ac ehangiad datblygu llinellol ar hyd yr A494. Mae natur uwch y tirlun yn golygu bod galw am ddatblygiadau ynni gwynt ac mae eu heffaith cronnus posib yn fater allweddol, gyda Fferm Wynt Braich Ddu yn weithredol ac wedi'i lleoli yn nwyrain yr ATA.	Clytiau o gynefinoedd lled-naturiol o werth cenedlaethol a rhyngwladol, sy'n cynnwys gwernydd a mignen (SoDdGA Cors y Sarnau), gweirgloddiau sy'n gyforiog o rywogaethau a phorfa wlyb (SoDdGA Caerau Uchaf) cynefinoedd glan yr afon a rhywogaethau (SoDdGA afon Dyfrdwy ac Ardal Cadwraeth Arbennig) a chlytiau o rostir sych a gorgors (SoDdGA, ACA ac AGA y Berwyn). Ei chymeriad hanesyddol cryf, yn enwedig ar hyd afon Dyfrdwy (Tirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig). Patrwm gwasgaredig yr anheddiad o bentrefi cnewyllol, pentrefannau a ffermydd gwasgaredig. Rhan bwysig y tirlun fel gosodiad i Barc Cenedlaethol Eryri ac ucheldiroedd eraill y tu allan i Ardal yr Astudiaeth (e.e. Mynyddoedd y Berwyn).	
Porthmadog a Bae Tremadog	Mae'r ATA yn darparu swyddogaeth bwysig fel gosodiad ac 'adwy' arfordirol i Eryri. Oherwydd ei lleoliad y tu allan i'r Parc Cenedlaethol a phoblogrwydd yr	Cymeriad gwledig a llonydd y dirwedd. Y golygfeydd maith ac ysgubol ar draws aber Afon Glaslyn, Traeth Bach, arfordir a mynyddoedd Eryri.	Cymedrol i uchel

Enw'r ATA	Angen	Rhinweddau arbennig	Gwerthusiad cyffredinol gweledol a synhwyraidd
	arfordir, mae'r ardal dan bwysau o ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth (e.e. datblygiad carafán/traeth o gwmpas Morfa Bychan). Mae pwysau datblygu eraill yn cynnwys cynigion am isadeiledd mawr a lledaeniad llinellol datblygiadau ar hyd y ffyrdd i Borthmadog.	Y patrymau amrywiol sy'n gorchuddio'r tir, gyda chaeau afreolaidd wedi'u terfynu gyda waliau cerrig ac wedi'u britho â blociau o dir pori agored, bras a choetiroedd. Yr ardaloedd gwerthfawr o gynefinoedd lled-naturiol (glaswelltir heb ei wella, rhostir, coetiroedd, twyni tywod a gwlypdiroedd arfordirol), yn cynnwys Tiroedd a Glannau Rhwng Cricieth a SoDdGA Afon Glaslyn ac ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Y cymeriad sefydlog ysgafn o bentrefannau gwasgaredig ac anheddau ynysig. Rôl bwysig y dirwedd fel gosodiad i Barc Cenedlaethol Eryri a chefnlen i dref hanesyddol Porthmadog.	
Gorllewin Llŷn	Lleolir yr ATA yn uniongyrchol gerllaw AHNE Llŷn. Mae'r ardal dan bwysau yn sgil datblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, yn enwedig yn y de (e.e. o amgylch cyrchfannau Abersoch a Phwllheli). Mae natur uwch ac agored y dirwedd yn golygu bod galw am ddatblygiadau ynni gwynt ac mae eu	Cymeriad llonydd a gwledig y dirwedd. Ei safle uwch ac agored - yn creu rhyngwelededd cryf ar draws y dirwedd ledled y penrhyn, yn cynnwys golygfeydd sylweddol at yr AHNE. Y patrymau cymhleth yn y dirwedd: yn cynnwys ardaloedd ar raddfa fechan,	Cymedrol i uchel

Enw’r ATA	Angen	Rhinweddau arbennig	Gwerthusiad cyffredinol gweledol a synhwyraidd
	heffeithiau cronnus yn fater allweddol, gyda llethrau deheuol hefyd yn debygol o ddenu cynigion am ddulliau ffotofoltaidd solar.	caeau afreolaidd a thyddynnod o'r 19eg ganrif. Yr amrediad eithriadol o nodweddion hanesyddol ac archeolegol, o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Ynys Enlli. Pocedi gwerthfawr o gynefinoedd lled-naturiol, yn cynnwys rhostir, cyforgors a ffen (e.e. SoDdGA Cors Hirdre a SoDdGA Cors Geirch). Patrwm gwasgaredig yr anheddiad o bentrefi cnewyllol, pentrefannau a ffermydd gwasgaredig. Rôl bwysig y dirwedd fel gosodiad i Dirwedd Cenedlaethol Llŷn.	



Sources: Esri, TomTom, Garmin, FAO, NOAA, USGS, © OpenStreetMap contributors, and the GIS User Community. Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database Right. All rights Reserved. Contains Ordnance Survey Data. Ordnance Survey Licence number AC0000849444 . Crown Copyright and Database Right.

Ffigwr 13-1: Tirweddau Cenedlaethol a Pharciau Cenedlaethol o fewn ac yn agos at ardal CDLl Gwynedd



Ffigwr 13-2: Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol yng Ngwynedd ac yn agos at Wynedd



Ffigwr 13-3: Ardaloedd Cymeriad Morol o fewn ac yn agos at ardal CDLl Gwynedd



Ffigwr 13-4: Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol ac Arbennig o fewn ac yn agos at ardal CDLl Gwynedd



Ffigwr 13-5: Ardaloedd Tirwedd Arbennig o fewn ac yn agos at ardal CDLl Gwynedd

13.4 Gwaelodlin y dyfodol

13.4.1 Mae'n amlwg bod gan ardal y CDLl nifer o dirweddau unigryw ac o ansawdd uchel o fewn ei ffiniau, pob un â'i nodweddion arbennig ei hun. Bydd angen ystyried datblygiad newydd o fewn neu'n agos at yr ardaloedd hyn yn ofalus i sicrhau bod y rhesymau dros ddynodiadau tirwedd yn cael eu gwarchod, ac o bosibl yn cael eu gwella (lle bo hynny'n bosibl). Rhagwelir y bydd hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar ganllawiau dylunio datblygu – er enghraifft, cyfeiriadedd datblygu a'r defnydd o ddeunyddiau addas.

13.4.2 Mae ardal y CDLl hefyd yn cyfrannu at leoliad Parc Cenedlaethol Eryri, a gallai hefyd gyfrannu at leoliad Parc Cenedlaethol newydd posibl Glyndŵr (yn dibynnu a yw'r Gorchymyn Datblygu yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru). Bydd yn bwysig sicrhau nad yw datblygiad newydd yn tynnu oddi wrth arwyddocâd y dynodiadau tirwedd hyn, ond yn hytrach yn cyfrannu tuag at eu rhinweddau arbennig.

13.4.3 Heb y CDLl, byddai datblygiad hapfasnachol yn parhau i ddod ymlaen gyda'r potensial ar gyfer effeithiau ar y dirwedd.

13.5 Materion allweddol

13.5.1 Fe wnaeth yr adolygiad cyd-destun a'r waelodlin gyfrannu at adnabod nifer o faterion allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Mae gan ardal y CDLl dirwedd o ansawdd uchel ac amrywiol. Mae rhinweddau a chymeriad arbennig ardal y CDLl yn debygol o fod yn bwysig i'r gymuned, ac mae'n debygol o fod yn gyfrannwr mawr at ymdeimlad o le. Fel y cyfryw, bydd yn bwysig i'r CDLl sicrhau diogelu a gwella tymor hir y gwahanol ddynodiadau tirwedd.
- Os bydd Parc Cenedlaethol arfaethedig Glyndŵr yn cael ei gymeradwyo, mae'n debygol y bydd y ffin ar gyfer Gwynedd yn newid. Gallai hyn effeithio ar gymeriad ac ansawdd y dirwedd i'r cymunedau sy'n byw mewn rhan fach o ardal y CDLl, ac effeithio ar bwysigrwydd yr ardal i leoliad tirwedd.
- Mae'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn ardal y CDLl yn dangos bod gan rai ardaloedd sensitifrwydd gweledol a synhwyraidd uchel ac eithriadol. Mae'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn tynnu sylw at y gwahaniaeth mewn cymeriad ac ansawdd y dirwedd ar draws ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ac maent yn ffynonellau gwybodaeth pwysig i lywio sut y gallai datblygiad posibl newid y dirwedd.

13.7 Amcan ACI

Amcan ACI	Cwestiynau asesu – a fydd y polisi/cynnig yn helpu i:
Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirwedd, morlun a threfluniau ardal y CDLl.	• Sicrhau bod tirweddau, trefluniau a morluniau mwyaf gwerthfawr ardal y CDLl yn cael eu cadw a'u gwella? • Defnyddio nodweddion tirwedd naturiol newydd a phresennol i liniaru unrhyw effeithiau posibl ar ddehongliadau cyfagos o'i thirweddau ac o bell? • Cyfrannu at warchod a gwella rhinweddau arbennig Tirwedd Genedlaethol Llŷn a sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn cael effaith negyddol ar leoliad y Parc Cenedlaethol?

14. Ansawdd ac adnoddau pridd

14.1 Cyflwyniad i'r thema

14.1.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar ansawdd adnoddau pridd, cynhyrchu gwastraff a maint adnoddau mwynol yn ardal y CDLl.

14.2 Cyd-destun polisi

14.2.1 Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhyngwladol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r thema hon yn **Atodiad B**. Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhanbarthol a lleol sydd wedi llywio'r sail dystiolaeth wedi'u cynnwys yn **Nhabl 14-1.**

Tabl 14-1: Cynlluniau, polisïau a strategaethau wedi'u hadolygu mewn perthynas ag ansawdd ac adnoddau pridd

Teitl y ddogfen	Blwyddyn cyhoeddi
Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu Cyngor Gwynedd: 2025-2030	2025
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd	2017

14.3 Crynodeb o'r waelodlin

Tir amaethyddol

14.3.1 Mae'r dosbarthiad tir amaethyddol (ALC) yn dosbarthu tir yn chwe gradd (yn ogystal ag 'anamaethyddol' a 'threfol'), lle cydnabyddir Graddau 1 i 3a fel y tir 'gorau a mwyaf amlbwrpas' (GaMA) a Graddau 3b i 5 o ansawdd salach.

14.3.2 Fel y dengys yn **Ffigwr 14.1**, mae'r tir amaethyddol gorau yn ardal y CDLl wedi'i ganolbwyntio ar hyd yr arfordiroedd i'r gogledd a'r gorllewin yn ogystal ag ardaloedd iseldirol, tra bod yr ucheldiroedd mewnol yn bennaf yn Radd 4, 5 neu'n anamaethyddol eu natur. O ystyried bod llawer o'r aneddiadau mwy cynaliadwy a nodwyd yn y CDLl ar y Cyd presennol wedi'u lleoli o fewn yr ardaloedd mwy cynhyrchiol amaethyddol, mae datblygiad yn y dyfodol wedi'i gyfeirio at y lleoliadau hyn yn fwy tebygol o arwain at golli tir amaethyddol o ansawdd uwch yn barhaol.

14.3.3 Mae'n werth nodi bod tir amaethyddol, yn enwedig tir sy'n defnyddio dulliau ffermio fel trin tir cadwraeth, hefyd yn gweithredu fel sinc carbon, gan storio carbon yn y pridd trwy atafaelu. Pan fydd tir yn cael ei aflonyddu, megis pan gaiff ei ddatblygu ar gyfer tai, mae carbon yn cael ei ryddhau i'r atmosffer, gan gyfrannu at newid hinsawdd.

Tir llwyd

14.3.4 Yn unol â'r polisi cynllunio cenedlaethol, byddai disgwyl i ailddatblygiad tir (tir llwyd) a ddatblygwyd yn flaenorol fod yn flaenoriaeth dros safleoedd tir glas lle mae'n addas i'w ddatblygu a lle byddai ei ailddefnyddio yn hyrwyddo egwyddorion cynaliadwyedd. Fodd bynnag, mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd

yn cydnabod nad yw pob tir llwyd yn addas i'w ddatblygu oherwydd ffactorau fel lleoliadau anghynaladwy, halogiad, gwerth bioamrywiaeth, buddiannau treftadaeth ddiwydiannol neu wrthdaro posibl â defnyddiau tir presennol.

14.3.5 Mae'r CDLl ar y Cyd yn tynnu sylw at y ffaith bod lefelau isel o dir llwyd yn Ardal y CDLl.

Adnoddau mwynau

14.3.6 Mae'r CDLl ar y Cyd yn nodi bod gan Wynedd ac Ynys Môn ddyddodion mawr o bron bob un math o graig - gan gynnwys llechi, carreg galch, glo, nifer o gerrig igneaidd a thywodfaen (gan gynnwys dyddodion tywod a graean). Yn ôl y Datganiad Technegol Rhanbarthol, yn 2010 amcangyfrifwyd bod gan Wynedd gronfeydd wrth gefn o 0.7 miliwn tunnell o dywod a graean, a oedd yn fanc tir o bedair blynedd. Yn ogystal, yn 2010 amcangyfrifwyd bod gan Wynedd 8.51 miliwn tunnell o gronfeydd wrth gefn o agregau cerrig mâl, sef banc tir o tua 22.9 mlynedd. Nid yw'r banc tir wrth gefn o dywod a graean yn diwallu'r gofyniad cenedlaethol o saith mlynedd.

14.3.7 Yn ogystal, drwy gymharu banciau tir 2010 yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol â'r dosraniad awgrymedig ar gyfer agregau yn y dyfodol yn yr Adolygiad Cyntaf o Ddatganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru, mae diffyg o 3.7 miliwn tunnell ar gyfer tywod a graean yng Ngwynedd.[145]

14.3.8 Mae ardaloedd diogelu mwynau a pharthau clustogi mwynau wedi'u crynhoi i raddau helaeth ar hyd y ffin â Pharc Cenedlaethol Eryri, fel y dengys yn **Ffigwr 14.2.**

Gwastraff

14.3.9 Y gyfradd ailgylchu yng Ngwynedd yn 2024/25 oedd 65.3% - roedd hyn yn is na tharged Llywodraeth Cymru o 70%. Fodd bynnag, cydnabyddir bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud tuag at leihau faint o wastraff a gynhyrchir yng Ngwynedd, gyda'r gyfradd ailgylchu yn cynyddu o 55% yn 2014/15 a gwastraff bagiau du yn gostwng tua 10.9%.

14.3.10 Mae pum canolfan ailgylchu o fewn ardal y CDLl, pob un ohonynt yn gofyn i drigolion archebu slot i gael mynediad i'r safleoedd. Dyma'r safleoedd:[146]

- Caergylchu, Caernarfon.
- Canolfan Ailgylchu Bangor.
- Canolfan Ailgylchu Blaenau Ffestiniog.
- Canolfan Ailgylchu Pwllheli.
- Canolfan Ailgylchu Rhwngddwyryd, Garndolbenmaen.

[145]Gweler Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru, a Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (2014): 'Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru – Adolygiad Cyntaf' yma.
[146]Gweler Cyngor Gwynedd (2026): 'Canolfannau Ailgylchu' yma.

14.3.11 Mae Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu Gwynedd 2025-2030 yn nodi bod gwaith wedi'i wneud ar un safle tirlenwi sydd wedi cau yn ACLl Gwynedd, a leolir yn Llwyn Isaf, er budd ecoleg leol.

Safleoedd tirlenwi hanesyddol a thir wedi'i halogi

14.3.12 Gall safleoedd tirlenwi hanesyddol (STH), a ddefnyddiwyd yn y gorffennol i waredu gwastraff, greu heriau i ddatblygiad oherwydd llygredd posibl o nwyon niweidiol a thrwytholch. Rhaid i safleoedd datblygu ger STH gynnal asesiadau safle i wirio am risgiau amgylcheddol, a allai fod angen ymdrechion adfer fel symud pridd neu fonitro nwy.

14.3.13 Fel y dengys yn **Ffigwr 14.3**, mae safleoedd tirlenwi hanesyddol (STH) wedi'u dosbarthu ledled ardal y CDLl ond ar y cyfan maent yn agos at gymunedau a threfi y maent yn eu gwasanaethu. Mae agosrwydd safleoedd tirlenwi hanesyddol i'r ardaloedd hyn yn golygu y gallai datblygiad yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r CDLl groestorri ag ardaloedd o risg halogiad posibl, sy'n gofyn am ymchwiliad gofalus ar y ddaear, asesiad a rheolaeth risg yn ystod adeiladu a gweithredu.

14.3.14 Mae Strategaeth Archwilio Tir Halogedig Cyngor Gwynedd yn nodi hen safleoedd tirlenwi, gweithfeydd nwy, safleoedd milwrol, modurdai, gwaith peirianneg a safleoedd mwyngloddio a chwareli hanesyddol fel prif ffynonellau halogiad o fewn ardal y cynllun.[147] O dan y strategaeth, bydd safleoedd sydd wedi'u halogi yn flaenorol yn cael eu hailasesu drwy'r broses gynllunio i sicrhau bod yr holl dderbynyddion wedi'u hystyried fel rhan o ailddatblygiad y safle.

[147]Gweler Cyngor Gwynedd (2002) '*Strategaeth Archwilio Tir Halogedig*' yma.



Ffigwr 14-1: Dosbarthiad Tir Amaethyddol Rhagfynegol o fewn ac yn agos at ardal CDLl Gwynedd



Ffigwr 14-2: Ystyriaethau mwynau yn ardal y CDLl



Ffigwr 14-3: Safleoedd Tirlenwi Hanesyddol o fewn ac yn agos at ardal CDLl Gwynedd

14.4 Gwaelodlin y dyfodol

14.4.1 Mae gan ddatblygiad yn y dyfodol y potensial i effeithio ar adnoddau pridd yn yr ardal trwy golli'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas (GaMA). Oherwydd cyffredinrwydd tir GaMA ar draws ardal y cynllun, mae'n debygol y gallai datblygiad y tu allan i aneddiadau trefol arwain at golli'r adnodd hwn yn barhaol. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall y CDLl gynllunio datblygiad yn strategol i leihau colledion gan gynnwys drwy ddulliau dalgylch a phartneriaeth o reoli adnoddau tir a phridd.

14.4.2 Gall tymheredd cynyddol a phatrymau glawiad newidiol arwain at sychder neu lifogydd amlach, gan effeithio ar leithder y pridd, strwythur a chynhyrchiant amaethyddol. Gall risgiau erydu pridd hefyd gynyddu oherwydd tywydd eithafol, gan leihau ffrwythlondeb y pridd a photensial amaethyddol, yn enwedig mewn tir GaMA.

14.4.3 Yn absenoldeb Cynllun Datblygu Lleol, byddai adfywio tir llwyd yn parhau i gael ei gefnogi trwy bolisi cenedlaethol. Fodd bynnag, byddai'r CDLl yn darparu mwy o gyfleoedd i nodi safleoedd tir llwyd priodol ar gyfer ailddatblygiad i gyfeirio twf yn strategol a hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol.

14.3.4 Yn ôl y data diweddaraf, roedd cyfraddau ailgylchu yng Ngwynedd yn is na'r targed statudol o 70%. Bydd datblygiad drwy'r CDLl yn debygol o gynyddu faint o wastraff a gynhyrchir yng Ngwynedd, felly bydd yn bwysig gosod mesurau i gynyddu cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff. Bydd hyn yn helpu i osgoi neu leihau cosbau ariannol sy'n gysylltiedig â pheidio â chyrraedd y targed hwn.

14.3.5 Gallai twf yn ardal y CDLl roi pwysau ar adnoddau mwynol o fewn ac yn agos at yr ardal. Gallai hyn fod trwy fwy o echdynnu, neu ddatblygu dros safleoedd sydd â'r potensial i ddarparu deunyddiau pwysig.

14.4 Materion allweddol

14.4.1 Fe wnaeth yr adolygiad cyd-destun a'r waelodlin gyfrannu at adnabod nifer o faterion allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Gallai datblygiad ar draws ardal y cynllun arwain at golli tir amaethyddol GaMA yn barhaol, yn enwedig ar hyd arfordir y gogledd a'r gorllewin ac ardaloedd iseldirol. Gallai hyn effeithio ar gynhyrchu bwyd, nodweddion tirwedd ac ansawdd y pridd.
- Mae ailddatblygu safleoedd tir llwyd yn cynnig cyfleoedd i leihau lledaeniad trefol, defnyddio seilwaith presennol a chefnogi adfywiad. Fodd bynnag, gall datblygiad ar y safleoedd hyn beri risgiau llygredd i ddŵr daear sy'n gofyn am ymchwiliadau ac adfer priodol ar y safle.
- Mae safleoedd tirlenwi hanesyddol ar draws yr ardal yn arwain at risgiau halogiad o nwyon niweidiol a thrwytholch. Efallai y bydd angen trwyddedau amgylcheddol a mesurau adfer ar gyfer datblygiad wrth ymyl y safleoedd hyn.

- Bydd twf poblogaeth ac ehangu trefol yn cynyddu'r galw am seilwaith prosesu gwastraff. Rhaid monitro cyfleusterau presennol ac o bosibl ehangu i ddiwallu anghenion yn y dyfodol, gan sicrhau nad yw unrhyw gyfleusterau newydd yn effeithio'n andwyol ar gymunedau cyfagos na'r amgylchedd; a
- Gall newid hinsawdd gynyddu'r risg o erydiad pridd, sychder a llifogydd, gan effeithio ar strwythur y pridd, lefelau lleithder, a chynhyrchiant amaethyddol, yn enwedig mewn ardaloedd â thir GaMA.
- Mae gan ddatblygiad y potensial i sterileiddio deunyddiau a mwynau pwysig, oherwydd bod datblygiad yn digwydd drostynt neu eu bod yn cael eu hechdynnu i'w defnyddio. Bydd yn bwysig sicrhau bod cydbwysedd yn cael ei greu i ganiatáu twf angenrheidiol tra hefyd yn amddiffyn y deunyddiau anadferadwy hyn.

14.5 Amcan ACI

14.5.1O ystyried y materion allweddol a drafodwyd uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau amcan ac asesu a ganlyn:

Amcan ACI	Cwestiynau asesu – a fydd yr opsiwn/cynnig yn helpu i:
Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac adeiladau presennol i leihau'r pwysau ar gyfer datblygu tir glas a diogelu tir amaethyddol, gradd uwch lle bo'n bosibl.	• Lleihau'r golled o dir amaethyddol a allai fod o radd uchel i ddatblygiadau? • Diogelu a lleihau colli adnoddau pridd ac annog rheolaeth briodol i wella ei swyddogaethau atafaelu carbon a rheoli dŵr? • Annog y defnydd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol?
Diogelu adnoddau mwynau a chefnogi rheoli gwastraff.	• Mynd i'r afael â gwastraff trwy leihau gwastraff fel blaenoriaeth? • Rheoli gwastraff yn unol â'r hierarchaeth gwastraff ac yng nghyd-destun 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'? • Osgoi sterileiddio adnoddau mwynau lle bo hynny'n bosibl?

15. Trafnidiaeth a symudiad

15.1 Cyflwyniad i'r thema

15.1.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar seilwaith trafnidiaeth, defnydd trafnidiaeth, llif traffig a thagfeydd, a lefelau hygyrchedd yng Ngwynedd.

15.2 Cyd-destun polisi

15.2.1 Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhyngwladol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r thema hon yn **Atodiad B**. Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhanbarthol a lleol sydd wedi llywio'r sail dystiolaeth wedi'u cynnwys yn **Nhabl 15-1**.

Tabl 15-1: Cynlluniau, polisïau a strategaethau wedi'u hadolygu mewn perthynas â thrafnidiaeth a symudiad

Teitl y ddogfen	Blwyddyn cyhoeddi
Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru	2025
Cynllun Cyngor Gwynedd	2023
Asesiad Llesiant Gwynedd	2022
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd	2017

15.3 Crynodeb o'r waelodlin

Cyd-destun strategol

15.3.1 Mae Gwynedd yn sir arfordirol yng ngogledd-orllewin Cymru. Fel y dengys yn **Ffigwr 15.1** mae'r awdurdod wedi'i gysylltu'n dda ar y ffordd, gyda'r rhwydwaith ffyrdd strategol yn darparu cysylltiadau â Gogledd Cymru a thu hwnt. Nid oes traffordd sy'n gwasanaethu rhanbarth gogledd Cymru, er bod yr A55 a rheilffordd arfordirol Gogledd Cymru yn cysylltu ardal y cynllun â Gogledd Cymru a thu hwnt.

15.3.2 Mae cyfnodau prysur o dagfeydd sylweddol ar yr A55 sy'n gysylltiedig â thraffig gwyliau ym misoedd Gorffennaf ac Awst, sy'n cyfrannu at lygredd aer a sŵn yn y rhanbarth. Yn fuan ar ôl i'r A55 gyrraedd Gwynedd mae'n ymrannu i'r A5, sy'n anelu at Barc Cenedlaethol Eryri cyn ymuno â'r A470 sy'n darparu cysylltedd ffordd i Flaenau Ffestiniog. I'r gorllewin, mae'r A487 yn ymrannu oddi wrth yr A55 ac yn anelu i'r de tuag at Borthmadog. Mae llwybrau pwysig eraill yn yr ardal yn cynnwys yr A497, yr A496 a'r A499.

15.3.3 Mae strategaeth deithio leol Gwynedd yn gweithredu o dan Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2025-2030, a reolir yn rhanbarthol

drwy Uchelgais Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd[148]. Mae'r CDLl ar y Cyd presennol yn cefnogi unrhyw ddatblygiad sy'n gwneud y mwyaf o hygyrchedd, ond yn enwedig ar droed, beic a thrafnidiaeth gyhoeddus. Ar ben hynny, mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028 yn ceisio gwella ac ehangu'r seilwaith cerdded a beicio presennol yn y Sir. Mae'r ddau gynllun hyn yn cydymffurfio â Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, sy'n ceisio gwneud y mwyaf o'r defnydd o drafnidiaeth nad yw'n ddefnydd cerbydau preifat.

15.3.4 Mae gogledd-ddwyrain Gwynedd yn gorgyffwrdd â Metro Gogledd Cymru. Mae Metro Gogledd Cymru yn rhaglen gwella trafnidiaeth gyhoeddus aml-ddull yng ngogledd Cymru sydd â'r nod o fynd i'r afael ag amlder a hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus cyfyngedig a dibyniaeth uchel ar geir yn y rhanbarth.

15.3.5 Mae'r Adran Drafnidiaeth (AD) wedi datblygu'r metrig cysylltedd, sy'n mesur gallu unigolyn i gyrraedd cyflogaeth, gwasanaethau a galwadau cymdeithasol gan ddefnyddio gwahanol ddulliau o drafnidiaeth, gan gynnwys cerdded, beicio, gyrru a thrafnidiaeth gyhoeddus. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y teclyn yma. Mae sgôr Metrig Cysylltedd Trafnidiaeth uwch yn golygu gwell cysylltedd - h.y. mwy o allu i bobl yn y lleoliad hwnnw gyrraedd swyddi, gwasanaethau a chyfleoedd cymdeithasol trwy wahanol ddulliau trafnidiaeth.

15.3.6 Mae **Ffigwr 15.2** yn dangos y cysylltedd trafnidiaeth cyffredinol yng Ngwynedd fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) gan ddefnyddio metrig cysylltedd yr Adran Drafnidiaeth. Mae'r lefelau uchaf o gysylltedd i'w gweld mewn canolfannau trefol ac yn agos atynt. Ar y cyfan, mae cysylltedd yn lleihau wrth i'r pellter o'r ganolfan drefol gynyddu yng Ngwynedd.

Trafnidiaeth gynaliadwy

15.3.7 Mae **Ffigwr 15.3** yn dangos llwybrau trafnidiaeth gynaliadwy o fewn Gwynedd, a drafodir ymhellach isod.

Rheilffordd

15.3.8 Fel y dengys yn **Ffigwr 15.3**, mae 36 o orsafoedd rheilffordd yn ardal y CDLl, sy'n cysylltu trigolion â chanolfannau allweddol yng Ngwynedd a'r rhanbarth ehangach. Trafnidiaeth Cymru ac Avanti West Coast yw'r prif gwmnïau trenau sy'n gwasanaethu Gogledd-orllewin Cymru. Mae'r gorsafoedd rheilffordd yn eang ledled yr awdurdod gyda nifer wedi'u crynhoi o amgylch Bangor. Bangor hefyd oedd yr orsaf drenau a ddefnyddiwyd fwyaf yng ngogledd Cymru gyda bron i 700,000 o gofrestriadau cyrraedd a gadael yr orsaf bob blwyddyn.[149]

15.3.9 Mae rheilffyrdd Arfordir y Cambrian a Dyffryn Conwy yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi mynediad i drigolion i wasanaethau, cyflogaeth a thwristiaeth, ond yn aml maent yn cael eu cyfyngu gan amlder gwasanaeth a hygyrchedd. Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn tynnu sylw at y cyfleoedd ar gyfer integreiddio gwell rhwng cysylltiadau rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol yn y rhanbarth i helpu i wella cysylltedd.

[148]Gweler Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (2025) '*Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru*' yma.
[149]Gweler Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (2025) 'Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru' yma.

Bws

15.3.10 Mae **Ffigwr 15.3** yn dangos y llwybrau bysiau presennol ledled ardal y CDLl. Er bod y rhain yn ymddangos yn eang, mae hefyd yn amlwg bod y rhain yn canolbwyntio ar y prif aneddiadau. Fodd bynnag, mae yna ddarpariaeth gwasanaeth bws cyfyngedig yn yr ardaloedd gwledig.

15.3.11 Er bod gwasanaethau bws yn chwarae rôl bwysig wrth ddarparu teithiau lleol a theithiau pellter byr, mae llawer o lwybrau ledled Gogledd Cymru yn gweithredu ar gyfnodau anaml gan leihau eu hyfywedd o'i gymharu â theithio mewn car.[150] Mae prisiau bws yn y rhanbarth fel arfer yn draean prisiau rheilffyrdd, sy'n tynnu sylw at rôl bosibl rhwydwaith bysiau datblygedig wrth wella fforddiadwyedd a lleihau anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes unrhyw wasanaethau bws yn gweithredu ar hyd coridor yr A55, sy'n cyfyngu ar gysylltedd ar gyfer teithiau pellter hirach. Yn ogystal, mae absenoldeb seilwaith blaenoriaeth bysiau o fewn ardal y CDLl yn lleihau cystadleurwydd teithio bysiau a choetsys o'i gymharu â defnyddio ceir preifat.

Cerdded a beicio

15.3.12 Mae cerdded a beicio yn ddewisiadau amgen cynaliadwy ac ymarferol i'r car preifat, sy'n cefnogi ffyrdd iach o fyw ac yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

15.3.13 Mae Llwybrau 8, 5, 61 ac 82 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (RhBC) yn ymestyn ledled Gwynedd. Mae Llwybr 5 yn teithio mewn rhannau o Reading i Fangor, mae Llwybr 8 yn mesur dros 400km o hyd ac yn cysylltu Caergybi â Chaerdydd. Mae Llwybr 61 yn cysylltu Caernarfon â Waunfawr ac mae Llwybr 82 yn rhedeg o Fangor i Dregarth ac yn ffurfio rhan o lwybr Lôn Las Ogwen.

15.3.14 Mae gan ardal y CDLl rwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC) enfawr, sy'n cysylltu aneddiadau ac yn darparu cyfleoedd i deithio'n gynaliadwy ar gyfer teithiau lleol. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn bwysig yn hyn o beth sy'n dilyn arfordir ardal y CDLl a thu hwnt. Mae'r llwybr yn cynnig cyfleoedd i gerdded / beicio ar hyd 180km o'r arfordir.

15.3.15 O ran prosiectau parhaus, mae 'cynlluniau Teithio Llesol' wedi'u cyflwyno ledled Gwynedd i wella cyfleoedd i gerdded neu feicio mewn sawl ardal. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar ddatblygu Ffordd Penrhos sy'n anelu at wella cyfleusterau beicio a cherdded ar gyrion dinas Bangor. Mae'r Cyngor hefyd wedi sicrhau cyllid yn ddiweddar i wella seilwaith cerdded a beicio ger Ysgol Treferthyr, Cricieth ac Ysgol Rhostryfan, ac mae disgwyl i'r gwaith ddechrau cyn bo hir.

Teithio i'r gwaith

15.3.16 Mae patrymau cymudo manwl yn rhoi cipolwg ar ble mae trigolion Gwynedd yn teithio i'r gwaith a ble mae'r rhai sy'n teithio i Wynedd i weithio yn byw.

15.3.17 Yn 2024, mae data'n dangos bod 11,200 o bobl yn cymudo i Wynedd i weithio, tra bod tua 7,300 o drigolion yn cymudo o'r ardal sy'n awgrymu mewnlifiad net o weithwyr. Mae'r mwyafrif o gyflogaeth wedi'i lleoli'n lleol, gyda 51,300 o bobl yn byw ac yn gweithio yn y Sir. At ei gilydd, mae 62,500 o

[150] Ibid.

bobl yn gweithio yn yr ardal o'i gymharu â 58,500 o drigolion sy'n gweithio, sy'n awgrymu bod Gwynedd yn chwarae rôl fel cyrchfan gyflogaeth i awdurdodau cyfagos.[151]

15.3.18 Mae data'r cyfrifiad o 2021 yn dangos bod 51,820 o drigolion arferol yn gweithio yng Ngwynedd. Mae **Tabl 15-2** isod yn dangos bod y mwyafrif o drigolion yn cymudo yn defnyddio car neu fan. Mae gweithio gartref hefyd yn cyfrif am gyfran sylweddol o gyflogaeth, gyda 12,259 o bobl yn gweithio gartref. Mae teithio llesol yn chwarae rôl yn llif cymudwyr i Wynedd a theithio ar y trên yw'r dull cymudo lleiaf poblogaidd.

Tabl 15-2: Dull teithio i'r gwaith yng Ngwynedd (2021)[152]

Teithio i'r gwaith	Cyfrif	Canran (%)
Gweithio'n bennaf gartref neu o gartref	12,259	23.7
Tanddaearol, metro, rheilffordd ysgafn, tram	24	0.0
Trên	198	0.4
Bws, bws mini neu goets	1,266	2.4
Tacsi	125	0.2
Beic modur, sgwter neu foped	135	0.3
Gyrru car neu fan	29,336	56.6
Teithiwr mewn car neu fan	2,268	4.4
Beic	532	1.0
Ar droed	5,292	10.2
Dull arall o deithio i'r gwaith	385	0.7

[151]StatsCymru (2024) 'Patrymau cymudo yn ôl awdurdod lleol a mesur Cymru', [ar-lein]. Ar gael yma.
[152]Nomis (2021) 'Awdurdod Lleol Gwynedd', [ar-lein]. Ar gael yma.



Ffigwr 15-1: Rhwydwaith ffyrdd o fewn ac yn agos at Ardal CDLl Gwynedd



Ffigwr 15-2: Cysylltedd trafnidiaeth cyffredinol yng Ngwynedd



Ffigwr 15-3: Rhwydwaith trafnidiaeth weithredol a thrafnidiaeth gyhoeddus yng Ngwynedd ac yn agos at Wynedd



Sources: Esri, TomTom, Garmin, FAO, NOAA, USGS, © OpenStreetMap contributors, and the GIS User Community. Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database Right. All rights Reserved. Contains Ordnance Survey Data. Ordnance Survey Licence number AC0000849444. Crown Copyright and Database Right.

15.4 Gwaelodlin y dyfodol

15.4.1 Nod Metro Gogledd Cymru, a ddarperir drwy raglen Rhwydwaith Gogledd Cymru, yw gwella cysylltedd rheilffyrdd a bysiau ar draws y rhanbarth a thu hwnt. Fodd bynnag, mae buddsoddiad cynnar wedi'i ganolbwyntio yng ngogledd-ddwyrain Cymru, ac mae'n debygol y bydd unrhyw fanteision i ardal y CDLl yn anuniongyrchol, yn bennaf drwy well gwasanaethau ar Brif Lein Rheilffordd Gogledd Cymru drwy Fangor. Nid oes unrhyw gyllid Metro pwrpasol ar gyfer Gwynedd wedi'i nodi ar hyn o bryd.

15.4.2 Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cyflwyno cynlluniau teithio llesol i annog mwy o ddefnydd o gerdded a beicio. Rhagwelir y bydd mwy o bwyslais yn cael ei roi ar deithio llesol yn unol â'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru). Bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i annog gweithio gartref a gweithio o bell o fudd i seilwaith ffyrdd strategol ac yn lleihau effeithiau tagfeydd, yn enwedig yn ystod yr amseroedd cymudo prysuraf.

15.4.3 Mae'n debygol y bydd cynnydd mewn datblygiad yn ardal y CDLl yn effeithio ar batrymau cymudo trwy gynyddu cyfleoedd cyflogaeth a gwneud yr ardal yn lle mwy deniadol i weithio. Gallai hyn arwain at gynnydd mewn defnyddwyr ffyrdd yn ardal y CDLl.

15.4.4Bydd newid hinsawdd yn effeithio ar rwydwaith trafnidiaeth ardal y CDLl, gyda thywydd eithafol yn cynyddu risgiau fel llifogydd, difrod ar y ffyrdd ac aflonyddwch ar drafnidiaeth gyhoeddus. Gall glaw trwm wneud y ffyrdd yn ddwrlawn, tra gallai cynnydd mewn tymheredd ddirywio arwynebau ac effeithio ar ddibynadwyedd rheilffyrdd, gan arwain efallai at fwy o ddibyniaeth ar geir, mwy o dagfeydd ac allyriadau. Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, rhaid i gynllunio trafnidiaeth yn y dyfodol integreiddio mesurau gwydnwch hinsawdd a hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy.

15.5 Materion allweddol

15.5.1 Fe wnaeth yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth waelodlin gyfrannu at adnabod nifer o faterion allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Mae mynediad ac amlder trafnidiaeth gynaliadwy yn amrywiol ar draws ardal y CDLl, gyda rhannau mwy gwledig o'r sir yn profi lefelau gwasanaeth is.
- Mae Metro Gogledd Cymru yn cynnwys rhan o ogledd-ddwyrain Gwynedd. Disgwylir i'r prosiect gynyddu cysylltedd â lleoliadau gan gynnwys Llundain a Glannau Merswy.
- Mae cynnydd mewn datblygiad yn ardal y CDLl yn debygol o gynyddu materion sy'n gysylltiedig â thraffig, o ystyried bod y mwyafrif o'r boblogaeth yn dibynnu ar yrru cerbydau preifat i gael mynediad at wasanaethau allweddol (gan gynnwys cyflogaeth). Mae hyn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth trafnidiaeth gynaliadwy gyfyngedig yn rhannau mwy gwledig ardal y CDLl. Gallai cynnydd mewn cerbydau ar y rhwydwaith ffyrdd achosi problemau newydd neu waethygu problemau presennol, megis tagfeydd ar yr A55.

- Gallai datblygiad newydd drwy'r CDLl ganiatáu cyfleoedd ar gyfer cymorth teithio llesol parhaus, gan adlewyrchu'r gwaith a wnaed yn ardal y CDLl drwy'r cynlluniau teithio llesol.

15.6 Amcanion ACI

15.6.1 O ystyried y materion allweddol a drafodwyd uchod, cynigir y dylai'r ACI gynnwys y cwestiynau amcan ac asesu a ganlyn:

Amcan ACI	Cwestiynau asesu – a fydd y polisi/cynnig yn helpu i:
Cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio.	Lleihau'r angen i deithio trwy batrymau cynaliadwy o ddefnyddio a datblygu tir? Darparu cyfleoedd i wella amlder ac argaeledd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig ar gyfer cymunedau gwledig? Annog newid moddol i ddulliau mwy cynaliadwy a llesol o deithio, fel cerdded a beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus? Blaenoriaethu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy dros ddefnyddio ceir lle bo'n bosibl, gan gynnwys darparu digon o opsiynau parcio a storio beiciau? Galluogi gwelliannau seilwaith trafnidiaeth? Cyflawni a gwella rhwydweithiau teithio llesol lle bo'r angen? Hwyluso gweithio gartref a gweithio o bell? Darparu gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd presennol a / neu leihau tagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd presennol? Cyfrannu at rwydweithiau seilwaith gwyrdd?

16. Adnoddau ac ansawdd dŵr

16.1 Cyflwyniad i'r thema

16.1.1 Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar y cyflenwad dŵr lleol, adnoddau dŵr a'u hansawdd o fewn ardal y CDLl.

16.2 Cyd-destun polisi

16.2.1 Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhyngwladol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r thema hon yn **Atodiad B**. Mae cynlluniau, polisïau a strategaethau rhanbarthol a lleol sydd wedi llywio'r sail dystiolaeth wedi'u cynnwys yn **Nhabl 16-1**.

Tabl 16-1: Cynlluniau, polisïau a strategaethau wedi'u hadolygu mewn perthynas â thrafnidiaeth a symudiad

Teitl y ddogfen	Blwyddyn cyhoeddi
Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri	2020
Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru (CRhBA)	2021
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd	2017

16.3 Crynodeb o'r waelodlin

Adnoddau dŵr

16.3.1 Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gyfrifol am reoli adnoddau dŵr yng Nghymru.

16.3.2 Un o'r ffyrdd y gwneir hyn yw trwy drwyddedu echdynnu dŵr o fewn dalgylchoedd. Datblygodd CNC Strategaethau Rheoli Echdynnu Dalgylchoedd (CAMS) i:

- hysbysu'r cyhoedd am adnoddau dŵr ac arferion trwyddedu.
- darparu dull cyson o reoli adnoddau dŵr lleol; a
- helpu i gydbwyso anghenion defnyddwyr dŵr a'r amgylchedd.

16.3.3 Fel y dengys yn **Ffigwr 16.1**, mae tri dalgylch dŵr yn cwmpasu ardal y CDLl gyda'r rhan fwyaf o'r ardal yn gorwedd yn ardal CAMS Llŷn ac Eryri. Mae ardal lai i'r de a'r de-ddwyrain yn gorwedd yn ardal CAMS Meirionnydd ac ardal CAMS Dyfrdwy yn y drefn honno.

16.3.4 Yn gyffredinol, mae dŵr afon da yn ardaloedd CAMS Llŷn ac Eryri a Meirionnydd, yn wahanol i ardal CAMS Dyfrdwy lle nad oes dŵr afon ar gael i'w echdynnu ar draws ei holl ehangder. Mae'n bwysig nodi mai yn 2015

gafodd y CAMS hyn eu diweddaru ddiwethaf ac felly efallai bod yr ardaloedd hyn wedi profi newidiadau mewn argaeledd dŵr ers hynny.

16.3.5 Mae ardal y CDLl yn gorwedd yn bennaf o fewn Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru (CRhBA). Mae ardal lai i'r de-ddwyrain wedi'i lleoli o fewn CRhBA Dyfrdwy. O ran ansawdd dŵr, mae **Ffigwr 16.2** yn dangos ansawdd dŵr ecolegol y cyrff dŵr o fewn ac yn agos at ardal CDLl Gwynedd. Yn gyffredinol, mae ansawdd dŵr Gwynedd yn dda neu'n gymedrol ar y cyfan. Nid oes unrhyw gyrff dŵr wedi'u dosbarthu gyda statws ecolegol gwael neu ddrwg o fewn yr awdurdod.

16.3.6 Mae **Ffigwr 16-3** yn dangos ansawdd dŵr cemegol y cyrff dŵr o fewn ac yn agos at ardal CDLl Gwynedd. Mae statws cemegol cyrff dŵr yn ardal y CDLl yn wael ar y cyfan. Mewn rhai achosion, megis Afon Gwyrfai, mae crynodiadau uchel o ffosffadau yn effeithio ar gyfradd datblygu.

Dyfroedd ymdrochi

16.3.7 Mae ansawdd dyfroedd ymdrochi yng Nghymru wedi gwella'n sylweddol dros y ddau ddegawd diwethaf. Mae 112 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig ledled Cymru; un ar ddeg ohonynt yng Ngwynedd. Mae Tabl 16-1 isod yn dangos bod yr holl ddyfroedd ymdrochi wedi pasio dosbarthiad Dyfroedd Ymdrochi y CE ers 2022 (gan nodi bod Porth Nefyn wedi'i ddynodi yn 2024). Mae hefyd yn dangos mai dim ond ansawdd yn Abersoch a Chricieth sydd wedi amrywio.

16.3.8 Mae **Ffigwr 16.3** yn dangos lleoliad dyfroedd ymdrochi dynodedig o fewn neu'n agos at Wynedd. Mae'r ffigwr hefyd yn dangos ardaloedd sy'n effeithio ar ddyfroedd ymdrochi yng Ngwynedd. Mae'r set ddata hon yn cynnwys polygonau sy'n ymwneud â phob safle a nodwyd o dan y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi (76/160/EEC).

16.3.9 Yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am fonitro dyfroedd ymdrochi.

Tabl 16-1: Asesiadau blynyddol o ansawdd dyfroedd ymdrochi

Dŵr ymdrochi	2022	2023	2024	2025
Aberdaron	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol
Abersoch	Rhagorol	Rhagorol	Da	Rhagorol
Canol Traeth Y Graig Ddu	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol
Cricieth	Digonol	Digonol	Da	Da
Traeth Glan Don	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol
Llyn Padarn	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol

Dŵr ymdrochi	2022	2023	2024	2025
Morfa Dinlle	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol
Morfa Nefyn	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol
Porth Nefyn	Dim dosbarthiad	Dim dosbarthiad	Da	Da
Porth Neigwl	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol
Pwllheli	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol

16.3.10 Mae'r traethau a'r dyfroedd arfordirol tu hwnt dan bwysau gan gyfuniad o bwysau gwledig gwasgaredig a llygredd trefol o garthffosiaeth / camgysylltiadau yn yr ardaloedd datblygedig. Y pum prif ffynhonnell llygredd yw:[153]

- Llygredd o garthion – gall bacteria o garthion fynd i'n dyfroedd oherwydd methiannau mewn system neu orlifiadau neu'n uniongyrchol o waith trin carthion.
- Dŵr sy'n draenio o ffermydd a thir fferm – gall tail o dda byw neu slyri wedi'i storio'n wael olchi i afonydd a nentydd gan arwain at ddeunydd ysgarthol yn mynd i'r môr.
- Anifeiliaid ac adar ar draethau neu ger traethau - gall carthion cŵn, adar ac anifeiliaid eraill effeithio ar ddŵr ymdrochi gan eu bod yn aml yn cynnwys lefelau uchel o facteria (llawer uwch na gwastraff dynol wedi'i drin).
- Dŵr yn draenio o ardaloedd poblog - gall dŵr sy'n draenio o ardaloedd trefol yn dilyn glaw trwm gynnwys llygredd o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys ysgarthion anifeiliaid ac adar.
- Carthion domestig – gall draeniau wedi'u camgysylltu a thanciau septig sydd wedi'u lleoli a'u cynnal yn wael lygru systemau dŵr wyneb.

[153]Gweler Cyfoeth Naturiol Cymru (2025): 'Ansawdd Dyfroedd Ymdrochi' yma.



Ffigwr 16-1: Ffiniau'r Strategaeth Rheoli Echdynnu Dalgylch (CAMS) o fewn Gwynedd ac yn agos at Wynedd



Ffigwr 16-2: Cyrff Dŵr Afon WFD – Ansawdd Dŵr Ecolegol o fewn ac yn agos at ardal y CDLl



Ffigwr 16-3: Cyrff Dŵr Afon WFD – Ansawdd Dŵr Cemegol o fewn ac yn agos at ardal y CDLI



Ffigwr 16-4: Ardaloedd sy'n effeithio ar ansawdd dŵr ymdrochi ac ansawdd dŵr ymdrochi yng Ngwynedd ac yn agos at Wynedd

16.4 Gwaelodlin y dyfodol

16.4.1 Disgwylir i newid hinsawdd gael goblygiadau sylweddol i adnoddau dŵr yng Ngwynedd, gan waethygu'r pwysau presennol ar argaeledd ac ansawdd dŵr. Gallai tymheredd cynyddol a phatrymau glawiad newidiol arwain at sychder amlach, lleihau llif afonydd a chynyddu cystadleuaeth am gyflenwadau dŵr sydd eisoes yn brin yn yr ardal. Gall digwyddiadau glawiad mwy dwys gynyddu'r risg o lygredd mewn cyrsiau dŵr lleol.

16.4.2Mae gan ddatblygiad yn y dyfodol hefyd y potensial i effeithio ar ansawdd dŵr trwy fwy o ddefnydd, llygredd ymledol, arllwysiadau dŵr gwastraff, dŵr ffo ac addasiad. Bydd CRhBA a CAMS perthnasol yn parhau i fod yn eu lle yn absenoldeb y CDLl. Fodd bynnag, bydd y CDLl yn rhoi cyfle i gefnogi'r camau gweithredu a amlinellir yn strategol yn yr CRhBA a'r CAMS. Mae gofynion y WFD yn debygol o arwain at welliannau parhaus i ansawdd dŵr yng Ngwynedd. Fodd bynnag, yn absenoldeb y CDLl, mae datblygu yn llai tebygol o gefnogi cyfleoedd i wella ansawdd dŵr.

16.5 Materion allweddol

16.5.1 Fe wnaeth yr adolygiad cyd-destun a'r wybodaeth waelodlin gyfrannu at adnabod nifer o faterion allweddol (problemau a chyfleoedd):

- Mae ansawdd dŵr yng Ngwynedd yn dda ar y cyfan, gyda'r mwyafrif o ddyfroedd ymdrochi yn cyrraedd sgôr ansawdd rhagorol.
- Cydnabyddir bod dulliau polisi yn gwthio tuag at ddull cyfannol a chynaliadwy o reoli, diogelu a defnyddio adnoddau naturiol, gan gynnwys trwy fesurau wedi'u targedu i wella deilliannau amgylcheddol sy'n ymwneud â dŵr er mwyn gwneud y mwyaf o ganlyniadau buddiol i ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.
- Mae polisi yn atgyfnerthu'r angen i ystyried y rhyngberthynas rhwng datblygiadau wedi'u cynllunio a'r ffactorau a grybwyllir uchod, gyda phwyslais ar effeithiau tebygol newid hinsawdd, yr angen am ddefnydd effeithlon o ddŵr a gwarchod yr amgylchedd naturiol.

16.6 Amcanion ACI

Amcan ACI	Cwestiynau asesu – a fydd yr opsiwn/cynnig yn helpu i:
Cadw, diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr.	• Lleihau'r defnydd o ddŵr? • Sicrhau y gellir darparu cyflenwad digonol o ddŵr i gynnal y datblygiad gan ystyried rhagamcanion presennol ac yn y dyfodol o argaeledd dŵr a defnydd dŵr? • Cynnal neu wella ansawdd dŵr yn ardal y CDLl? • Lleihau'r potensial ar gyfer halogi cyrff a chyrsiau dŵr? • Lleihau'r potensial i arferion amaethyddol gyfrannu at lygredd cyrff a chyrsiau dŵr sy'n seiliedig ar nitradau?

17. Camau nesaf

17.1 Camau dilynol ar gyfer y broses ACI

17.1.1 Cwmpasu yw'r cam cyntaf yn y broses ACI. Bydd y cam nesaf yn cynnwys datblygu ac asesu dewisiadau amgen rhesymol, sy'n cynnwys archwilio safleoedd posib ac opsiynau strategol ar gyfer lefel gyffredinol a dosbarthiad twf. Yna, bydd Adroddiad ACI Interim yn cael ei baratoi ar gyfer ymgynghori ochr yn ochr â'r Cynllun Cyn-adneuo.

17.2 Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cwmpasu hwn

17.2.1 Yn y cam cwmpasu hwn, mae'r Rheoliadau AAS yn gofyn am ymgynghori â chyrff ymgynghori statudol. Y cyrff ymgynghori statudol yw Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Cadw. Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei ymestyn ymhellach i randdeiliaid allweddol fel y penderfynir gan y Cyngor.

17.2.1 Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yr adroddiad cwmpasu yn rhedeg am 6 wythnos o 26 Tachwedd 2026 i 7 Ionawr 2027.

17.2.2 Dylid dychwelyd ymatebion cwmpasu at:

polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru

Polisi Cynllunio
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Atodiad A- Fframwaith ACI

Mae'r atodiad hwn yn tynnu ynghyd y themâu a'r amcanion fydd yn ffocws ar gyfer yr asesiad mewn un tabl - y fframwaith ACI.

Tabl A1: Fframwaith ACI

Thema ACI	Amcan ACI
Hygyrchedd	Gwella hygyrchedd i wasanaethau a chyfleusterau hanfodol ledled Gwynedd.
Ansawdd aer a sŵn	Adnabod a mynd ar drywydd unrhyw gyfleoedd i leihau, neu o leiaf, lleihau amlygiad poblogaeth i lygredd aer a niwsans sŵn.
Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth	Diogelu a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yng Ngwynedd a'r cyffiniau.
Addasu newid hinsawdd	Cefnogi gwydnwch Gwynedd i effeithiau posibl newid hinsawdd, gan gynnwys llifogydd o ffynonellau dŵr afonol, arfordirol ac wyneb.
Lliniaru newid hinsawdd	Lleihau cyfraniad Gwynedd at newid hinsawdd o weithgareddau sy'n arwain at allyriadau nwyon tŷ gwydr a chyfrannu at gyrraedd targed y Cyngor o sero net.
Cymunedau	Gwella ansawdd dylunio i greu lleoedd hardd naturiol i bobl sy'n cynnal a gwella hunaniaeth gymunedol ac aneddiadau.
	Diogelu, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd cymunedol o'r Gymraeg.
Economi a chyflogaeth	Cefnogi economi gynaliadwy, amrywiol a gwydn, gydag ymatebion arloesol i amodau sy'n newid a chefnogaeth i weithlu cryf yn y dyfodol.
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad	Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb; mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol.
Iechyd a lles	Gwella iechyd a lles trigolion yng Ngwynedd, gan hyrwyddo lleoedd iach a chynaliadwy.
Yr amgylchedd hanesyddol	Gwarchod a gwella adnodd treftadaeth Gwynedd, gan gynnwys ei hamgylchedd hanesyddol a'i hasedau archeolegol a hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Gwynedd.
Tai	Cefnogi'r gwaith o ddarparu ystod o dai i ddiwallu anghenion a nodwyd, gyda ffocws ar wella fforddiadwyedd i'r rhai sydd fwyaf mewn angen.
Tirwedd	Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirwedd, morlun a threfluniau Gwynedd.
Ansawdd ac adnoddau pridd	Gweud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac adeiladau presennol i leihau'r pwysau

Thema ACI	Amcan ACI
	ar gyfer datblygu tir glas a diogelu tir amaethyddol, gradd uwch lle bo'n bosibl.
	Diogelu adnoddau mwynau a chefnogi rheoli gwastraff.
Trafnidiaeth a symudiad	Cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio.
Adnoddau ac ansawdd dŵr	Cadw, diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr.

Atodiad B - Cyd-destun polisi

Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r cynlluniau, polisïau, strategaethau a dogfennau cenedlaethol mwyaf perthnasol a nodwyd yn yr adolygiad polisi at ddibenion y CDLI a'r ACI.

Teitl y ddogfen	Blwyddyn cyhoeddi
Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR)	2025
Rheoliadau Newid Hinsawdd (Cyllideb Carbon) (Cymru)	2025
Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 15: Datblygu, llifogydd ac erydiad arfordirol	2025
Cymru: gwlad lle mae cyfle i chwarae	2025
Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12)	2024
Deddf Seilwaith (Cymru) 2024	2024
Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024	2024
Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024	2024
Cynllun Sŵn a Seinwedd i Gymru 2023 i 2028	2023
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)	2023
Cynllun Addasu i Newid Hinsawdd 2023-2027	2023
Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru	2023
Llywodraeth Cymru: Gweithio'n ddoethach: strategaeth gweithio o bell i Gymru.	2022
Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU	2022

Teitl y ddogfen	Blwyddyn cyhoeddi
Gweithio'n ddoethach: strategaeth gweithio o bell i Gymru	2022
Cynllun cyflawni trafnidiaeth cenedlaethol 2022 i 2027	2022
Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru)	2021
Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero Net	2021
Canllawiau Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru	2021
Strategaeth Trafnidiaeth Cymru	2021
Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol)	2021
Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan Cymru	2021
Mwy nag Ailgylchu: Strategaeth i wireddu'r economi gylchol yng Nghymru	2021
Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach: Ymgorffori templed ar gyfer polisi cynllunio	2021
Strategaeth Teithio Llesol Cymru	2021
Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru	2020
Cynllun Aer Glân i Gymru	2020
Lleihau Allyriadau Carbon yng Nghymru	2020
Siarter Creu Lleoedd Cymru	2020
Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio sy'n Darparu Dyfodol Gwydn a Mwy Disglair	2020
Adeiladu Lleoedd Gwell	2020
Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru	2019
Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Draenio Cynaliadwy (SDCau)	2019
Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel	2019
Rhaglen (y drydedd) Addasu Genedlaethol y DU 2023 i 2028	2018

Teitl y ddogfen	Blwyddyn cyhoeddi
Creu Lleoedd a Mannau Iachach ar gyfer ein cenedlaethau presennol a'r dyfodol	2018
Strategaeth Iaith Gymraeg	2017
Cynllun y DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau nitrogen deuocsid ar ymyl ffyrdd	2017
Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol	2017
Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg	2017
Polisi Adnoddau Naturiol	2017
Cymraeg 2050	2017
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru)	2017
Deddf yr Amgylchedd (Cymru)	2016
Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 12: Dylunio	2016
Diweddariadau i NCT11: Sŵn	2015
Deddf Cynllunio (Cymru)	2015
Cynllun Adfer Natur Cymru	2015
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)	2015
Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 21: Gwastraff	2014
Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy	2014
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)	2014
Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol i Gymru	2013
Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013	2013
Tuag at Ddyfodol Diwastraff Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned	2012
Egwyddorion Cadwraeth i reoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn gynaliadwy	2011
Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010	2010

Teitl y ddogfen	Blwyddyn cyhoeddi
Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy	2010
Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010	2010
Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 5: Cadwraeth natur a chynllunio	2009
Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 16: Chwaraeon, hamdden a mannau agored	2009
Deddf Newid Hinsawdd y DU	2008
Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 18: Cludiant	2007
Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006	2006
Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 2: Cynllunio a thai fforddiadwy	2006
Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006	2006
Rheoliadau Ansawdd Aer Cymru	2002
Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000	2000
Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 11: Sŵn	1997
Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 10: Gorchmynion cadw coed	1997
Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 7: Rheoli hysbysebion awyr agored	1996
Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)	1990
Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	1981
Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949	1949
Cadw: Canllawiau arfer gorau	Amrywiol

aecom.com

aecom.com